# RHEOLAU SEFYDLOG
# CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

**(15.6.04)**

**Dangosir yr holl newidiadau yn glir yn y fersiwn hwn.**
**CYNNWYS Y RHEOLAU SEFYDLOG**

## Dehongli

1. Y Llywydd a’r Dirprwy
2. Prif Weinidog Cymru a Chabinet y Cynulliad
3. Yr Aelodau
4. Buddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill yr Aelodau

   ***Atodiad:*** Y buddiannau sydd i gael eu cofnodi yng Nghofrestr Buddiannau Aelodau’r Cynulliad ac sydd, at ddibenion Rheol Sefydlog 4.6, i’w datgan cyn siarad mewn unrhyw drafodion yn y Cynulliad.

5 Busnes y Cynulliad

6. Busnes y Cynulliad yn y Cyfarfodydd Llawn
7. Y Drefn yn y Cyfarfodydd Llawn
8. Pwyllgorau
9. Pwyllgorau Pwnc
10. Pwyllgorau Rhanbarth
11. Y Pwyllgor Deddfau
12. Y Pwyllgor Archwilio
13. Y Pwyllgor Busnes
14. Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal
15. Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol
16. Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad
17. Pwyllgorau Penderfyniadau Cynllunio
18. Pwyllgor y Tŷ
19. Archwilio Dogfennau'r Cynulliad
20. Adroddiadau ar y Trafodion
21. Cyllid
22. Penodiadau Cyhoeddus
23. Cwynion
24. Is-ddeddfwriaeth Gyffredinol y Cynulliad
25. Is-ddeddfwriaeth sy’n amodol ar Ddarpariaeth Weithdrefnol Seneddol berthnasol neu a wneir gydag un o Weinidogion y Goron neu Adrannau Llywodraeth y DU neu sydd yn amodol ar Gymeradwyaeth un ohonynt.
26. Gorchmynion y Cyfrin Gyngor neu Is-ddeddfwriaeth a gyflwynir gan un o Weinidogion y Goron
27. Is-ddeddfwriaeth sydd fel arall yn amodol ar Drefn Seneddol Arbennig
28. Offerynnau Statudol Lleol
29. Is-ddeddfwriaeth nad oes angen ei gwneud drwy Offeryn Statudol
30. Cadarnhau neu Gymeradwyo Is-ddeddfwriaeth penodol
31. Cynigion a Wneir gan Aelodau o’r Cynulliad ar gyfer Is-ddeddfwriaeth
32. Cyhoeddi Is-ddeddfwriaeth (heblaw Is-ddeddfwriaeth Gyffredinol y Cynulliad)
33. Gweithdrefnau Amrywiol
34. Deisebau
35. Gweithdrefnau Hysbysu a Chyflwyno
36. Gosod dogfennau
37. Diwygio ac Atal y Rheolau Sefydlog

## DEHONGLI

Yn y Rheolau Sefydlog hyn

ystyr **“Aelod”** (“*Member*”) yw Aelod o’r Cynulliad a etholwyd naill ai dros un o etholaethau’r Cynulliad neu dros un o ranbarthau etholiadol y Cynulliad;

ystyr **"Cabinet y Cynulliad"** (“*Assembly Cabinet*”) yw'r Pwyllgor gwaith a sefydlir o dan adran 56(1) o'r Ddeddf;

ystyr **"Clerc"** (“*Clerk*”) yw'r aelod o staff y Cynulliad a benodir yn Glerc i'r Cynulliad ac yn bennaeth gweinyddol Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad;

ystyr **"Dirprwy"** (“*Deputy*”) yw'r Dirprwy Lywydd a etholir o dan adran 52(1)(b) o'r Ddeddf;

ystyr **“diwrnod gwaith”** (“*working day*”) yw unrhyw ddiwrnod ac eithrio:

(a) dydd Sadwrn neu ddydd Sul;

(b) Noswyl Nadolig, Dydd Nadolig, Dydd Iau Cablyd neu Ddydd Gwener y Groglith;

(c) diwrnod sy’n ŵyl banc yng Nghymru o dan Ddeddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971; neu

(ch) diwrnod sydd wedi’i neilltuo ar gyfer diolchgarwch neu alar cyhoeddus;

ystyr "**y Ddeddf**" (“*the Act*”) yw Deddf Llywodraeth Cymru 1998;

“ystyr "**Gorchymyn Cynulliad**" (“*Assembly Order*”) yw is-ddeddfwriaeth gyffredinol y Cynulliad fel y'i diffinnir yn adran 58(6) o'r Ddeddf ac a wneir o dan Reol Sefydlog 24 ac Adran Dau o Reol Sefydlog 25;

ystyr "**grŵp gwleidyddol**" (“*political group*”) yw plaid wleidyddol gofrestredig y mae ganddi o leiaf dri Aelod yn y Cynulliad, neu dri Aelod neu ragor sydd heb fod yn aelodau o blaid o'r fath, ond sydd wedi hysbysu'r Llywydd eu bod am gael eu hystyried yn grŵp gwleidyddol at ddibenion y Rheolau Sefydlog;

ystyr **"Gweinidog"** (“*Minister*”) yw aelod o Gabinet y Cynulliad (gan gynnwys Prif Weinidog Cymru);

ystyr "**Y Gweinidog Cyllid**" (“*Finance Minister*”) yw'r aelod o Gabinet y Cynulliad a ddynodir, yn unol â Rheol Sefydlog 2.5, i arddel cyfrifoldeb penodol dros gyllid y Cynulliad;

ystyr **"is-ddeddfwriaeth"** (“*subordinate legislation*”) yw Gorchmynion y Cyfrin Gyngor, gorchmynion, rheolau, rheoliadau, cynlluniau, gwarantau, is-ddeddfau ac offerynnau eraill a wneir neu sydd i'w gwneud o dan unrhyw Ddeddf;

ystyr **"Prif Weinidog Cymru"** ("*First Minister*") yw'r Aelod a etholir o dan adran 53(1) o'r Ddeddf;

mae **"trafodion y Cynulliad"** ("*proceedings of the Assembly*") yn cynnwys trafodion un o Bwyllgorau'r Cynulliad neu drafodion Is-Bwyllgor Pwyllgor o'r fath;

ystyr "**Y Trefnydd**" ("*Business Minister*") yw'r aelod o Gabinet y Cynulliad a ddynodir, yn unol â Rheol Sefydlog 2.5, i arddel cyfrifoldeb penodol dros reoli busnes y Cynulliad;

ystyr **"Ysgrifennydd Parhaol"** ("*Permanent Secretary*") yw'r aelod o staff y Cynulliad y cyfeirir ato yn adran 63(2) o'r Ddeddf.

## RHEOL SEFYDLOG 1 - Y Llywydd a'r Dirprwy

### Ethol y Llywydd a'r Dirprwy

1.1 Yn y cyfarfod cyntaf ar ôl etholiad cyffredin, rhaid i'r Cynulliad ethol Llywydd a Dirprwy.

1.2 Hyd oni fydd y Llywydd wedi'i ethol, rhaid i'r Cynulliad gael ei gadeirio gan y Clerc.

1.3 Wrth ethol Llywydd neu Ddirprwy, rhaid i'r cadeirydd wahodd enwebiadau. Yn y lle cyntaf ni fydd enwebiad yn ddilys oni chaiff ei eilio gan Aelod nad yw'n aelod o'r grŵp gwleidyddol y mae'r Aelod sy'n enwebu yn perthyn iddo. Os yw'n ymddangos nad oes unrhyw Aelod yn debygol o gael ei enwebu a'i eilio gan aelodau o grwpiau gwleidyddol gwahanol, rhaid i'r cadeirydd ohirio'r cyfarfod, ac, wedi iddo ailgychwyn, caiff dderbyn enwebiadau sy'n cael eu heilio gan aelodau o'r un grŵp gwleidyddol â'r Aelod sy'n enwebu.

1.4 Os na cheir ond un enwebiad, rhaid i'r cadeirydd gynnig bod yr Aelod a enwebwyd yn cael ei ethol yn Llywydd (neu'n Ddirprwy fel y bo'r achos). Os gwrthwynebir hynny, neu os ceir dau neu ragor o enwebiadau, rhaid i'r cadeirydd drefnu bod etholiad yn cael ei gynnal drwy bleidlais gyfrinachol.

1.5 Os bydd dau Aelod wedi'u henwebu, rhaid i'r cadeirydd ddatgan mai'r Aelod sydd wedi sicrhau'r nifer mwyaf o'r pleidleisiau yn y bleidlais gyfrinachol sydd wedi'i ethol.

1.6 Os bydd mwy na dau Aelod wedi'u henwebu ac os na fydd unrhyw Aelod yn cael mwy na hanner y pleidleisiau yn y bleidlais gyfrinachol, rhaid i'r ymgeisydd sydd wedi cael y nifer lleiaf o bleidleisiau gael ei hepgor a rhaid cynnal pleidleisiau eraill hyd nes bydd un ymgeisydd yn cael mwy na hanner y pleidleisiau a fwriwyd; ac os bydd nifer y pleidleisiau ar gyfer y ddau ymgeisydd sy'n weddill (neu'r unig ddau ymgeisydd) yn gyfartal, rhaid cynnal pleidlais arall.

1.7 Rhaid i'r Aelod a etholir yn Llywydd gymryd y gadair ar unwaith.

1.8 Ni chaniateir i'r Llywydd a'r Dirprwy gynrychioli yr un Blaid.

### Dyletswyddau a Phwerau'r Llywydd a'r Dirprwy

1.9 Dyletswyddau a phwerau'r Llywydd fydd y rhai a nodir yn y Ddeddf a'r Rheolau Sefydlog. Rhaid i'r Llywydd lywyddu cyfarfodydd llawn y Cynulliad, a chyflawni'r swyddogaethau ac arfer yr awdurdod a bennwyd yn y Ddeddf ac yn y Rheolau Sefydlog. Rhaid i'r Llywydd ddyfarnu ynghylch unrhyw gwestiynau ynglŷn â dehongli neu gymhwyso'r Rheolau Sefydlog, (a bydd y dyfarniadau hynny'n derfynol).

1.10 Yn absenoldeb y Llywydd neu yn unol â chais ganddo, rhaid i'r Dirprwy gyflawni dyletswyddau'r Llywydd a chaiff arfer ei bwerau. Rhaid i'r Dirprwy gyflawni'r swyddogaethau a bennwyd ar gyfer y swydd honno yn y Rheolau Sefydlog hyn. Yn absenoldeb y Dirprwy neu ar ei gais, caiff y Llywydd gyflawni unrhyw swyddogaeth a neilltuir i'r Dirprwy yn y Rheolau Sefydlog. Pan fydd gan y Llywydd ddyletswydd neu bŵer o dan y Rheolau Sefydlog yn ymwneud ag unrhyw fater y mae ganddo fuddiant

personol neu ariannol, uniongyrchol neu anuniongyrchol, a gofrestrwyd o dan Reol Sefydlog 4, rhaid iddo ef neu hi ofyn i'r Dirprwy gyflawni'r ddyletswydd neu arfer y pŵer yn ei le. Pan fydd gan y Dirprwy ddyletswydd neu bŵer o dan y Rheolau Sefydlog yn ymwneud ag unrhyw fater y mae ganddo fuddiant personol neu ariannol, uniongyrchol neu anuniongyrchol, a gofrestrwyd o dan Reol Sefydlog 4, rhaid iddo ef neu hi ofyn i'r Llywydd gyflawni'r ddyletswydd neu arfer y pŵer yn ei le.

1.11 Caiff unrhyw Aelod, ac eithrio aelod o Gabinet y Cynulliad, ar gais y Llywydd neu'r Dirprwy pan fo'r naill neu'r llall yn llywyddu cyfarfod llawn o'r Cynulliad, lywyddu dros dro am ddim mwy na chwarter awr ar unrhyw un achlysur; ond rhaid i aelod sy'n llywyddu fellybeidio â chyflawni unrhyw un o swyddogaethau'r Llywydd neu'r Dirprwy, neu arfer unrhyw un o'i bwerau, ac eithrio'r rhai a nodir yn Rheol Sefydlog 7 (y Drefn yn y Cyfarfodydd Llawn), ac eithrio os yw'r Aelod sy'n llywyddu o'r farn bod ymddygiad Aelod yn cyfiawnhu ymneilltuo, rhaid i'r Aelod sy'n llywyddu ohirio'r cyfarfod hyd nes y bydd y Llywydd neu'r Dirprwy yn dychwelyd.

1.12 Wrth lywyddu yn y cyfarfodydd llawn, caiff y Llywydd neu'r Dirprwy bleidleisio drwy ddefnyddio pleidlais fwrw yn unig. Pan fydd nifer y pleidleisiau yn gyfartal, rhaid rhoi pleidlais fwrw

(i) yn gadarnhaol lle bydd trafodaeth bellach ar y mater sydd gerbron y Cynulliad yn bosibl; ac

(ii) yn negyddol lle na fydd trafodaeth bellach yn bosibl neu lle ceir pleidlais ar ddiwygiad.

1.13 Os na fydd y Llywydd na'r Dirprwy ar gael am y tro i wasanaethu (ac eithrio o dan ddarpariaethau Rheol Sefydlog 1.11), rhaid i'r Clerc gymryd y gadair a hynny dim ond er mwyn trefnu bod Aelod yn cael ei ethol i weithredu fel Llywydd, a rhaid i berson a etholir felly gyflawni dyletswyddau a chaiff arfer pwerau'r Llywydd neu'r Dirprwy nes bod naill ai'r Llywydd neu'r Dirprwy ar gael.

**Ymddiswyddiad y Llywydd neu'r Dirprwy**

1.14 Caiff y Llywydd neu'r Dirprwy ymddiswyddo drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r Clerc. Os bydd y Cynulliad yn penderfynu nad oes ganddo hyder yn y Llywydd neu'r Dirprwy, rhaid i'r Swyddog hwnnw roi hysbysiad ysgrifenedig i'r Clerc ar unwaith o'i fwriad i ymddiswyddo yn unol â'r Rheol Sefydlog hon.

**Swyddi gwag**

1.15 Os daw swydd y Llywydd neu swydd y Dirprwy yn wag, rhaid i'r Cynulliad ethol Aelod i lenwi'r swydd cyn gynted ag y bo modd. Rhaid i unrhyw etholiad Llywydd gymryd blaenoriaeth dros bob busnes arall, a rhaid i etholiad y Llywydd neu'r Dirprwy gael ei gynnal yn unol â'r Rheol Sefydlog hon.

## RHEOL SEFYDLOG 2 - Prif Weinidog Cymru a Chabinet y Cynulliad

### Ethol Prif Weinidog Cymru a'i Gyfrifoldebau

2.1 Cyn gynted ag y bo modd ar ôl ethol y Llywydd a'r Dirprwy o dan Reol Sefydlog 1.1, neu ar ôl i'r swydd ddod yn wag, rhaid i'r Cynulliad ethol Prif Weinidog Cymru.

2.2 Rhaid i'r Llywydd wahodd enwebiadau. Os un enwebiad yn unig a wneir, rhaid i'r Llywydd ddatgan bod yr Aelod a enwebwyd wedi'i ethol yn Brif Weinidog Cymru. Os gwneir mwy nag un enwebiad, rhaid i'r Llywydd, drwy alw cofrestr yn nhrefn yr wyddor, wahodd pob Aelod sy'n bresennol i bleidleisio dros ymgeisydd (ond ni chaiff y Llywydd na'r Dirprwy bleidleisio). Os bydd dau Aelod wedi'u henwebu, rhaid i'r Llywydd ddatgan mai'r ymgeisydd sydd wedi cael y nifer mwyaf o'r pleidleisiau a fwriwyd sydd wedi'i ethol.

2.3 Os bydd mwy na dau Aelod wedi'u henwebu ac os na fydd unrhyw Aelod yn cael mwy na hanner y pleidleisiau a fwriwyd drwy alw cofrestr, rhaid i'r ymgeisydd sydd wedi cael y nifer lleiaf o bleidleisiau gael ei hepgor a rhaid ccynnal pleidlais arall drwy alw cofrestr nes bod un ymgeisydd yn cael mwy na hanner y pleidleisiau a fwriwyd; a rhaid i'r Llywydd ddatgan bod yr Aelod hwnnw wedi'i ethol. Os bydd nifer y pleidleisiau ar gyfer y ddau ymgeisydd sy'n weddill (neu'r unig ddau ymgeisydd) yn gyfartal, rhaid cynnal pleidlais arall drwy alw cofrestr.

### Cabinet y Cynulliad

2.4 Cyn gynted ag y bo modd ar ôl i Brif Weinidog Cymru gael ei ethol rhaid iddo ef neu hibenodi Gweinidogion a rhoi cyfrifoldebau ac atebolrwydd iddynt. Rhaid i Brif Weinidog Cymru hysbysu'r Cynulliad am aelodaeth Cabinet y Cynulliad a chyfrifoldebau ac atebolrwydd pob aelod, a rhaid iddo hefyd hysbysu'r Cynulliad cyn gynted ag y bo modd am unrhyw newidiadau a wnaed.

2.5 Ni chaniateir mwy na naw aelod yng Nghabinet y Cynulliad, gan gynnwys Prif Weinidog Cymru; a rhaid i nifer y Gweinidogion nad ydynt yn aelodau o Bwyllgorau Pwnc o dan adran 57(4) o'r Ddeddf beidio â bod yn uwch na dau. Rhaid i Brif Weinidog Cymru ddynodi un o aelodau Cabinet y Cynulliad i ysgwyddo'r cyfrifoldeb penodol am reoli busnes y Cynulliad yn briodol, ac un aelod i ysgwyddo'r cyfrifoldeb penodol dros gyllid y Cynulliad.

2.6. Caiff Cabinet y Cynulliad gyfarfod yn breifat neu'n gyhoeddus yn ôl fel y penderfyna a rhaid iddo bennu ei weithdrefn ei hun. Ni fydd Rheol Sefydlog 8 yn gymwys i Gabinet y Cynulliad.

2.7 Rhaid i Brif Weinidog Cymru baratoi canllawiau ar gyfer y Gweinidogion am y modd priodol i gyflawni eu cyfrifoldebau a'u hatebolrwydd, a chyflwyno'r rhain i'r Cynulliad i'w cymeradwyo. Rhaid i Brif Weinidog Cymru roi copi o'r canllawiau i bob un o'r Gweinidogion ar ôl eu penodi, a rhaid iddogeisio sicrhau bod pob un o'r Gweinidogion yn cydymffurfio â hwy.

2.8 Wrth arfer ei gyfrifoldebau, ni chaiff Gweinidog wneud unrhyw benderfyniad neu ddyfarniad ar unrhyw fater lle gallai penderfyniad neu ddyfarniad penodol arwain at

fantais ariannol uniongyrchol i'r Gweinidog neu, hyd y gŵyr y Gweinidog, bartner neu blentyn dibynnol y Gweinidog (fel y'i diffinir ym Mharagraffau III(i) a III(ii) i'r Cyflwyniad Cyffredinol i'r Atodiad i Reol Sefydlog 4) a fyddai'n fwy na'r fantais a allai ddod i ran y personau y byddai'r penderfyniad yn effeithio arnynt yn gyffredinol; ond rhaid iddogyfeirio'r mater at Brif Weinidog Cymru. Os yw Prif Weinidog Cymru wedi'i atal rhag gweithredu, rhaid iddo ddynodi Gweinidog arall i gyflawni'r swyddogaeth.

**Ymddiswyddiad Prif Weinidog Cymru**

2.9 Caiff Prif Weinidog Cymru ymddiswyddo drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r Llywydd. Os bydd y Cynulliad yn penderfynu nad oes ganddo hyder ym Mhrif Weinidog Cymru, rhaid iddo roi'r cyfryw hysbysiad ar unwaith.

2.10 Os bydd Prif Weinidog Cymru wedi ymddiswyddo (neu os daw'r swydd yn wag fel arall), rhaid i'r Gweinidogion eraill barhau yn eu swydd nes bydd y Cynulliad wedi ethol Prif Weinidog Cymru newydd; a rhaid i Gabinet y Cynulliad ethol un o'i aelodau i gadeirio ei gyfarfodydd a chyflawni cyfrifoldebau Prif Weinidog Cymru hyd nes bydd y Cynulliad wedi ethol Prif Weinidog newydd.

## RHEOL SEFYDLOG 3 - Aelodau

**Dyfarniadau ynghylch Cyflogau, Lwfansau a Phensiynau**

3.1 Rhaid i'r Cynulliad ddyfarnu o dan adrannau 16, 18 a 34A o'r Ddeddf ar unrhyw gynigion a wneir gan aelod o Bwyllgor y Tŷ. Rhaid i'r Llywydd drefnu i gyhoeddi unrhyw ddyfarniad a wnaed gan y Cynulliad o dan y Rheol Sefydlog hon.

3.2. Caniateir i ddyfarniadau a wneir o dan Reol Sefydlog 3.1 ddarparu bod lefelau uwch o gyflog yn daladwy i'r Llywydd, y Dirprwy, Prif Weinidog Cymru, Gweinidogion eraill, arweinydd y grŵp gwleidyddol mwyaf yn y Cynulliad sydd heb ei gynrychioli yng Nghabinet y Cynulliad a Chadeiryddion Pwyllgorau Pwnc a sefydlwyd yn unol ag adran 57 y Ddeddf. Os yw nifer aelodau'r ddau grŵp gwleidyddol mwyaf sydd heb eu cynrychioli yng Nghabinet y Cynulliad yn gyfartal, caniateir i ddyfarniadau'r Cynulliad ddarparu bod lefelau uwch o gyflog yn daladwy i arweinwyr y ddau grŵp.

3.3 Rhaid i'r Llywydd drefnu i gyhoeddi gwybodaeth am bob blwyddyn ariannol ynghylch cyfanswm y symiau a delir gan y Cynulliad i'w Aelodau presennol a'i gyn-Aelodau yn sgil y dyfarniadau a wnaed o dan Reol Sefydlog 3.1. Rhaid i'r Llywydd hefyd gyhoeddi rhestr o'r swyddi yn y Cynulliad y mae eu deiliaid yn cael cyflogau neu lwfansau sy'n uwch na'r cyflogau neu'r lwfansau a geir gan yr Aelodau yn gyffredinol, ynghyd â'r cyflog neu'r lwfansau y mae gan bob deiliad swydd hawl i'w cael.

3.4 Rhaid i'r Cynulliad ethol Ymddiriedolwyr i Gynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â Rheolau'r Cynllun yn dilyn cynnig a gynigir gan aelod o Bwyllgor y Tŷ.

**Ymddiswyddiadau a Swyddi Gwag**

3.5 Caiff Aelod ymddiswyddo o'i sedd yn y Cynulliad drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r Llywydd.

3.6 At ddibenion adran 8 a 9 o'r Ddeddf, rhaid cymryd bod swydd yn wag naill ai pan fydd y Llywydd yn cael hysbysiad o ymddiswyddiad yn unol â Rheol Sefydlog 3.5, neu pan fydd y Llywydd yn datgan bod y sedd wedi dod yn wag.

## RHEOL SEFYDLOG 4 - Buddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill yr Aelodau

### Cofrestru Buddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill

4.1 Rhaid i'r Llywydd gadw a chyhoeddi Cofrestr o Fuddiannau'r Aelodau a rhaid bod copïau ar gael i'r Aelodau a'r cyhoedd eu harchwilio.

4.2 Rhaid i'r buddiannau a nodir yn yr Atodiad i'r Rheol Sefydlog hon gael eu cofrestru yn y Gofrestr Fuddiannau drwy lenwi ffurflen a bennir gan y Llywydd.

4.3 Cyn pen wyth wythnos ar ôl i Aelod dyngu'r llw teyrngarwch neu roi'r cadarnhad cyfatebol, rhaid iddo ef neu hi lenwi'r ffurflen a bennir gan y Llywydd gan nodi holl fanylion y buddiannau y mae'n ofynnol eu cofrestru o dan y Rheol Sefydlog hon; a rhaid iddo ef neu hi lofnodi'r ffurflen a mynd â hi i'r Swyddfa Gyflwyno.

4.4 Cyn pen pedair wythnos ar ôl i unrhyw newid ddigwydd, rhaid i Aelod hysbysu'r Llywydd am y newid yn ei fuddiannau cofrestredig drwy lenwi'r ffurflen a bennwyd gan y Llywydd a rhaid iddo ef neu hi lofnodi'r ffurflen a mynd â hi i'r Swyddfa Gyflwyno.

4.5 Caiff Aelod gyflwyno'r ffurflen y cyfeirir ati yn Rheol Sefydlog 4.3 neu 4.4 trwy fynd â hi i'r Swyddfa Gyflwyno neu drefnu i berson arall wneud hynny neu ei hanfon trwy'r post ond rhaid peidio â barnu bod y ffurflen wedi ei chyflwyno nes iddi ddod i law y Swyddfa Gyflwyno.

### Datganiad o Fuddiant gan Aelod cyn Cymryd Rhan mewn unrhyw Drafodion Ffurfiol yn y Cynulliad

4.6 Yn yr amgylchiadau a bennir yn y Rheol Sefydlog hon, cyn cymryd rhan mewn unrhyw drafodion yn y Cynulliad, rhaid i Aelod ddatgan ar lafar unrhyw fuddiant ariannol sydd ganddo ef neu ganddi hi, neu y gall fod yn disgwyl ei gael, neu hyd y gŵyr yr Aelod, unrhyw fuddiant ariannol sydd gan bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod, neu y gallant ddisgwyl ei gael, mewn unrhyw fater sy'n codi yn y trafodion hynny. Rhaid i'r cyfryw ddatganiad llafar gael ei wneud mewn perthynas ag unrhyw fuddiant a bennir ym mharagraffau (i)-(x) o'r Atodiad i'r Rheol Sefydlog hon os gallai unrhyw benderfyniad penodol yn y trafodion hynny arwain at fantais ariannol uniongyrchol i'r Aelod, neu hyd y gŵyr yr Aelod, i bartner yr Aelod neu blentyn dibynnol i'r Aelod, a fyddai'n fwy na'r fantais a allai ddod i ran y personau y byddai'r penderfyniad yn effeithio arnynt yn gyffredinol.

### Gwahardd Eiriolaeth am Dâl

4.7 Rhaid i Aelod beidio â chychwyn na dadlau o blaid unrhyw achos neu fater ar ran unrhyw gorff neu unigolyn mewn unrhyw drafodion yn y Cynulliad, nac annog unrhyw Aelod arall i gychwyn neu ddadlau o blaid unrhyw achos neu fater yn y cyfryw drafodion, yn gyfnewid am unrhyw dâl neu elw mewn da, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, y mae'r Aelod, neu, hyd y gŵyr yr Aelod, ei bartner neu ei phartner neu blentyn dibynnol i'r Aelod, wedi'i gael neu'n disgwyl ei gael.

### Gwahardd Pleidleisio

4.8 Pan fydd gan Aelod fuddiant y mae’n ofynnol ei ddatgan o dan Reol Sefydlog 4.6 cyn cymryd rhan mewn unrhyw drafodion yn y Cynulliad, rhaid i’r Aelod hwnnw beidio â phleidleisio ar unrhyw gynnig sy'n ymwneud â'r mater hwnnw yn y trafodion hynny.

**Gwahardd Aelodau a Thynnu Hawliau a Breintiau yn ôl**

4.9 Ar ôl pwyso a mesur unrhyw adroddiad y bydd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn ei gyflwyno iddo ynglŷn â chydymffurfiad Aelod â’r Rheol Sefydlog hon, caiff y Cynulliad, yn dilyn cynnig gan aelod o’r Pwyllgor, benderfynu gwahardd yr Aelod hwnnw rhag mynychu unrhyw drafodion y Cynulliad am gyfnod a bennir yn y cynnig.

4.10 Tra bydd Aelod wedi'i wahardd, ni fydd hawl ganddo ef neu ganddi hi i gael unrhyw gyflog gan y Cynulliad a rhaid peidio â chaniatáu iddo ef neu iddi hi fynychu unrhyw un o drafodion y Cynulliad.

**Cytundebau Cyflogi**

4.11 Rhaid i unrhyw Aelod sydd wedi gwneud cytundeb, neu sy'n bwriadu gwneud cytundeb, sy'n cynnwys darparu gwasanaethau yn rhinwedd swydd yr Aelod fel Aelod o'r Cynulliad sicrhau bod y cytundeb

- yn cydymffurfio â Rheol Sefydlog 4.7;
- yn ysgrifenedig;
- yn nodi natur y gwasanaethau sydd i’w darparu; ac
- yn pennu’r tâl neu’r fantais sydd i’w derbyn.

Cyn gynted ag y bo modd ar ôl gwneud y cyfryw gytundeb, a ph’un bynnag, cyn pen pedair wythnos ar ôl y dyddiad hwnnw, rhaid i’r Aelod roi copi o'r cytundeb i'r Llywydd, a rhaid i’r copi fod ar gael i Aelodau eraill a’r cyhoedd ei archwilio.

## Rheol Sefydlog 4 ATODIAD

**Y buddiannau sydd i gael eu cofnodi yng Nghofrestr Buddiannau Aelodau'r Cynulliad ac sydd, at ddibenion Rheol Sefydlog 4.6, i'w datgan cyn siarad mewn unrhyw drafodion yn y Cynulliad**

*[Sylwer: Dylai Aelodau, wrth restru'u buddiannau cofrestradwy, gymryd i ystyriaeth unrhyw benderfyniadau, Codau Ymarfer neu Nodiadau Canllaw perthnasol y gall y Cynulliad fod wedi'u mabwysiadu ynglŷn â'r mater hwn.]*

**Cyffredinol**

I. Rhaid i unrhyw weithgarwch y ceir tâl amdano ym meysydd cysylltiadau cyhoeddus, a chynghori ac ymgynghori ynglŷn â swyddogaethau'r Cynulliad, gael ei gynnwys yn y rhan honno o'r gofrestr sy'n gysylltiedig â chyflogaeth, swydd, masnach, proffesiwn neu alwedigaeth. Mae'r cyfryw weithgarwch yn cynnwys unrhyw weithgarwch sy'n ymwneud ag unrhyw drafodion y Cynulliad, noddi cyfarfodydd cymdeithasol yn adeiladau'r Cynulliad, a chyflwyno sylwadau i Gabinet y Cynulliad neu i unrhyw un o'i Aelodau.

II. Mae'r mwyafrif o'r buddiannau a bennir yn y categorïau isod yn cynnwys cyfeiriad at fuddiannau y meddir arnynt yn annibynnol gan bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod neu a roddir iddo ef neu iddi hi, a rhaid cofrestru'r rhain hefyd os yw'r buddiannau hynny yn hysbys i'r Aelod.

III. At ddibenion cofrestru a datgan y buddiannau o dan Reol Sefydlog 4.5 a bennir yn yr Atodiad hwn:-

i) ystyr partner Aelod yw priod iddo ef neu iddi hi neu un o gwpl p'un ai o'r un rhyw neu o'r rhyw arall sy'n byw gyda'i gilydd, er nad ydynt yn briod, ac sy'n trin ei gilydd fel dau briod; ac

ii) ystyr plentyn dibynnol yw unrhyw berson sydd, pan gofrestrir y buddiant, yn iau nag un ar bymtheng mlwydd oed neu yn iau na phedair ar bymtheng mlwydd oed ac sy'n derbyn addysg llawn amser drwy fynychu sefydliad addysgol cydnabyddedig ac :-

(a) sy'n blentyn i'r Aelod; neu
(b) sy'n lys-blentyn i'r Aelod drwy briodas; neu
(c) sy'n blentyn a fabwysiadwyd yn gyfreithiol gan yr Aelod; neu
(ch) sy'n blentyn y mae'r Aelod yn bwriadu ei fabwysiadu yn gyfreithiol; neu
(d) sy'n blentyn y bu'r Aelod yn ei gefnogi yn ariannol am o leiaf y chwe mis calendr blaenorol.

**Buddiannau Cofrestradwy**

Dyma'r buddiannau cofrestradwy:

(i) Swyddi cyfarwyddwyr cyflogedig a ddelir gan yr Aelod neu, hyd y gŵyr yr Aelod, partner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod, mewn cwmnïau cyhoeddus a phreifat gan gynnwys swyddi cyfarwyddwyr na thelir cyflog iddynt yn unigol ond lle telir cyflog drwy gwmni arall yn yr un grŵp.

(ii) Cyflogaeth, swydd, masnach, proffesiwn neu alwedigaeth (ar wahân i aelodaeth o'r Cynulliad) y mae'r Aelod neu, hyd y gŵyr yr Aelod, partner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod, yn cael tâl amdanynt, neu y mae gan yr Aelod neu, hyd y gŵyr yr Aelod, partner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod, unrhyw fuddiant ariannol ynddynt.

(iii) Enwau cleientau pan fydd y buddiannau y cyfeirir atynt ym mharagraffau 1 a 2 uchod yn cynnwys gwasanaethau gan yr Aelod neu, hyd y gŵyr yr Aelod, partner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod, sy'n deillio o'i aelodaeth o'r Cynulliad, neu sydd wedi'u cysylltu â hynny mewn unrhyw fodd.

(iv) Rhoddion, lletygarwch, buddion materol neu fantais faterol, y mae eu gwerth yn uwch na'r hyn a bennir mewn unrhyw benderfyniad gan y Cynulliad, a dderbynnir gan yr Aelod neu, hyd y gŵyr yr Aelod, gan bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod, oddi wrth gwmni, corff neu unigolyn ac sy'n deillio mewn rhyw fodd o aelodaeth o'r Cynulliad neu'n sy'n ymwneud â hynny.

(v) Unrhyw dâl neu fudd materol y mae'r Aelod neu, hyd y gŵyr yr Aelod, partner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod, yn ei gael gan unrhyw gwmni preifat neu gyhoeddus neu unrhyw gorff arall sydd wedi tendro, neu sy'n tendro, am gontract gyda'r Cynulliad, neu sy'n meddu ar gontract.

(vi) Nawdd ariannol (i) fel ymgeisydd ar gyfer ethol i'r Cynulliad, lle, hyd y gŵyr yr Aelod, mae'r nawdd mewn unrhyw achos yn fwy na 25 y cant o gostau etholiad yr ymgeisydd, neu (ii) fel Aelod o'r Cynulliad gan unrhyw unigolyn neu gorff. Wrth ddatgan unrhyw fuddiant o'r fath, rhaid i'r Aelod ddatgan a yw unrhyw nawdd o'r fath yn cynnwys unrhyw dâl i'r Aelod neu unrhyw fudd materol neu fantais faterol.

(vii) Yn amodol ar unrhyw benderfyniad gan y Cynulliad, ymweliadau tramor a wneir gan yr Aelod neu, hyd y gŵyr yr Aelod, partner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod, sy'n deillio o aelodaeth o'r Cynulliad neu mewn perthynas â hynny pan na fydd cost unrhyw ymweliad o'r fath wedi'i dalu'n llwyr gan yr Aelod neu ag arian sy'n daladwy gan y Cynulliad neu o arian arall a ddarperir gan y Senedd neu unrhyw gorff y mae'r Cynulliad yn aelod ohono.

(viii) Unrhyw dir neu eiddo'r Aelod neu, hyd y gŵyr yr Aelod, tir neu eiddo partner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod, y mae iddo werth sylweddol fel y'i pennwyd mewn unrhyw benderfyniad gan y Cynulliad neu y ceir incwm sylweddol ohono, heblaw unrhyw gartref a ddefnyddir fel preswylfan personol gan yr Aelod, partner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod.

(ix) Enwau cwmnïau neu gyrff eraill y mae gan yr Aelod, naill ai ar ei ben neu ar ei phen ei hun neu gyda phartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod, neu ar eu rhan hwy, fuddiant buddiol ynddynt, neu yn y rhai, hyd y gŵyr yr Aelod, y mae gan bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod fuddiant buddiol, mewn cyfranddaliadau y mae eu gwerth mewn enw'n fwy nag un y cant o'r cyfalaf cyfranddaliadol a ddyroddwyd, neu'n llai nag un y cant ond yn fwy na swm a bennwyd mewn unrhyw benderfyniad gan y Cynulliad.

(x) Aelodaeth neu gadeiryddiaeth gyda thâl neu'n ddi-dâl a ddelir gan yr Aelod neu, hyd y gŵyr yr Aelod, gan bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod, ar unrhyw gorff a ariennir yn llwyr neu'n rhannol gan y Cynulliad.

(xi) Aelodaeth yr Aelod o'r Seiri Rhyddion.

## RHEOL SEFYDLOG 5 - Busnes y Cynulliad

**Datganiadau o bryd i'w gilydd am Amserlenni**

5.1 O bryd i'w gilydd, rhaid i'r Trefnydd gyflwyno cynigion ynglŷn ag amserlenni amlinellol ar gyfer cyfarfodydd llawn (y mae rhaid eu cynnal fel rheol ar ddydd Mawrth a dydd Mercher), yr amserau a fydd ar gael ar gyfer cyfarfodydd Pwyllgor, cyfarfodydd grwpiau gwleidyddol, a thoriadau. Rhaid i gynigion o'r fath gynnig amserlenni ar gyfer cyfnodau o dri mis neu fwy, a chynnwys dyddiadau ar gyfer cwestiynau sydd i'w hateb ar lafar gan Weinidogion penodol ac aelod o Bwyllgor y Tŷ sy'n ateb ar ran y Pwyllgor hwnnw.

5.2 Rhaid cyflwyno cynigion o dan Reol Sefydlog 5.1 gan roi sylw i unrhyw gyngor a gynigir gan y Pwyllgor Busnes o dan Reol Sefydlog 13.1(i). Lle bynnag y bo modd, rhaid llunio cynigion gan roi sylw i gyfrifoldebau Aelodau tuag at deulu, etholaeth neu ranbarth etholiadol, a'u trefniadau teithio tebygol; a, ph'un bynnag, rhaid ceisio osgoi amserlennu busnes cyn 9.00am neu ar ôl 5.30pm ar unrhyw ddiwrnod gwaith.

**Datganiadau Busnes Wythnosol**

5.3 Yn ystod pob wythnos y bydd y Cynulliad yn cyfarfod mewn cyfarfod llawn, rhaid i'r Trefnydd wneud datganiad ynghylch trefn arfaethedig y busnes ar gyfer yr wythnos gyntaf ar ôl yr wythnos y gwneir y datganiad, a rhaid iddo ef neu iddi hi hefyd wneud trefniant amodol ar gyfer busnes y bythefnos ddilynol. Rhaid i'r datganiad hysbysu'r Cynulliad ynglŷn â'r busnes sydd i'w ystyried ym mhob cyfarfod llawn a'r amserlen ar gyfer y cyfryw fusnes (gan gynnwys y cyfnod a neilltuir ar gyfer unrhyw eitem unigol o fusnes). Rhaid i'r Trefnydd geisio osgoi newidiadau i'r busnes amodol a drefnwyd oni bai bod rheswm anorchfygol dros y cyfryw newid.

5.4 Datganiad y Trefnydd fydd yr amserlen gytûn ar gyfer busnes y Cynulliad ar gyfer yr wythnos gyntaf (a rhaid i hysbysiadau busnes y Llywydd a gylchredir o dan Reol Sefydlog 6.8 gael eu drafftio yn unol â hynny) oni bai bod o leiaf 10 Aelod yn ei wrthwynebu. Lle ceir y cyfryw wrthwynebiad, caiff y Llywydd ganiatáu i'r Trefnydd gynnig mabwysiadu'r datganiad, ac i un Aelod o bob grŵp gwleidyddol ymateb yn gryno i hynny; bydd gan y Trefnydd hawl i ateb ac yna rhaid i'r Llywydd gynnal pleidlais ar y cynnig. Os gwrthodir y cynnig, rhaid i'r Trefnydd gyflwyno datganiad diwygiedig cyn gynted ag y bo modd (a fydd yn dibynnu yn yr un modd ar gael ei fabwysiadu gan y Cynulliad).

5.5 Lle na chafwyd gwrthwynebiad gan o leiaf 10 Aelod, caiff y Llywydd ganiatáu i un Aelod o bob grŵp gwleidyddol gyflwyno sylwadau cryno ar ddatganiad y Trefnydd a rhaid iddo ef neu iddi hi wedyn ganiatáu i'r Trefnydd ymateb.

**Datganiadau Diwygiedig**

5.6 Os bydd, yn angenrheidiol i ddiwygio trefn y busnes ar gyfer cyfarfod llawn dilynol caiff y Trefnydd ddod â datganiad diwygiedig gerbron (a fydd yn dibynnu ar gael ei fabwysiadu yn unol â Rheol Sefydlog 5.4).

**Hysbysu am y Dyfarniadau ar Ystyried Gorchmynion Drafft**

5.7 Cyn gynted ag y bo modd ar ôl iddynt gael eu gwneud a'u hysbysu iddo ef neu iddi hi, rhaid i'r Trefnydd hysbysu'r Cynulliad ynglŷn â dyfarniadau'r Dirprwy a wnaed o dan Reol Sefydlog 24.6 ynghylch ystyried Gorchmynion drafft gan Bwyllgorau Pwnc.

5.8 Os bydd y Dirprwy, ar ôl ystyried cyngor y Pwyllgor Busnes, wedi dyfarnu nad oes angen i Orchymyn drafft penodol gael ei ystyried gan Bwyllgor Pwnc, ond bod o leiaf ddeg Aelod yn gwrthwynebu'r dyfarniad hwnnw, caiff y Trefnydd gynnig (heb hysbysu ymlaen llaw) fod y dyfarniad yn cael ei gymeradwyo. Caiff y Llywydd ganiatáu i un Aelod o bob grŵp gwleidyddol ymateb yn gryno ac i'r Trefnydd ateb, ac wedyn rhaid cynnal pleidlais ar y cynnig. Fel arall, pan fo o leiaf 10 Aelod wedi gwrthwynebu'r dyfarniad, caiff y Trefnydd gynnig (heb hysbysu ymlaen llaw) fod y Gorchymyn drafft yn cael ei gyfeirio at Bwyllgor Pwnc; a chaiff y Llywydd, yn ôl ei ddoethineb ef neu ei doethineb hi, geisio cytundeb y Cynulliad i'r cynnig hwnnw heb ddadl. Os bydd y Cynulliad yn penderfynu y bydd y Gorchymyn drafft yn ddarostyngedig i'w ystyried gan Bwyllgor Pwnc, rhaid i'r cyfryw ystyriaeth fod yn unol â threfniadau a bennir gan y Dirprwy.

5.9 Os bydd y Dirprwy, ar ôl ystyried cyngor y Pwyllgor Busnes, wedi dyfarnu y dylai Gorchymyn drafft penodol gael ei ystyried gan Bwyllgor Pwnc ond bod o leiaf ddeg Aelod yn gwrthwynebu'r dyfarniad hwnnw, caiff y Trefnydd gynnig (heb hysbysu ymlaen llaw) fod y dyfarniad yn cael ei wrthdroi. Caiff y Llywydd ganiatáu i un Aelod o bob grŵp gwleidyddol ymateb yn gryno ac i'r Trefnydd ateb, ac wedyn rhaid i'r Llywydd gynnal pleidlais ar y cynnig. Fel arall, pan fo o leiaf 10 Aelod wedi gwrthwynebu'r dyfarniad, caiff y Trefnydd gynnig (heb hysbysu ymlaen llaw) fod y dyfarniad yn cael ei gymeradwyo; a chaiff y Llywydd, yn ôl ei ddoethineb ef neu ei doethineb hi, geisio cytundeb y Cynulliad i'r cynnig hwnnw heb ddadl. Os bydd y Cynulliad yn penderfynu y dylai'r Gorchymyn drafft fod yn ddarostyngedig i'w ystyried gan Bwyllgor Pwnc, rhaid i'r cyfryw ystyriaeth fod yn unol â threfniadau a bennir gan y Dirprwy.

**RHEOL SEFYDLOG 6 - Busnes y Cynulliad yn y Cyfarfodydd Llawn**

**Cyfarfodydd Llawn**

6.1. Rhaid i gyfarfodydd llawn y Cynulliad gael eu cynnal yn gyhoeddus; a rhaid caniatáu mynediad ar gyfer darlledu yn unol â'r trefniadau y bydd y Cynulliad yn cytuno arnynt o bryd i'w gilydd.

6.2 Rhaid i'r Cynulliad gyfarfod yn llawn yn unol â phenderfyniadau a wneir o dan Reol Sefydlog 5.4. Os na fydd cyfarfod wedi'i amserlennu ar gyfer amser penodol caiff y Llywydd, ar gais Prif Weinidog Cymru, gynnull y Cynulliad i ystyried mater brys sydd o bwys cyhoeddus.

6.3 Rhaid trefnu bod amser ar gael mewn cyfarfodydd llawn:

(i) i Brif Weinidog Cymru ateb cwestiynau llafar unwaith ym mhob wythnos y bydd cyfarfod llawn o'r Cynulliad, a hynny am o leiaf 15 munud;

(ii) i'r Gweinidog Cyllid ateb cwestiynau llafar sy'n ymwneud â'r cyfrifoldeb hwn o leiaf unwaith, ac am 15 munud o leiaf, bob pedair wythnos y mae'r Cynulliad yn cyfarfod mewn cyfarfodydd llawn;

(iii) i'r Trefnydd ateb cwestiynau llafar sy'n ymwneud â'i gyfrifoldebau heblaw am fusnes o leiaf unwaith, ac am 5 munud o leiaf, bob pedair wythnos y mae'r Cynulliad yn cyfarfod mewn cyfarfodydd llawn;

(iv) i unrhyw Weinidog (gan gynnwys, os yw hynny'n briodol, Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog Cyllid) y rhoddwyd iddo ef neu iddi hi faes o gyfrifoldeb o dan adran 56(3) o'r Ddeddf i ateb cwestiynau llafar mewn perthynas

(a) â'r maes hwnnw a

(b) â'i gyfrifoldebau eraill ef neu ei chyfrifoldebau eraill hi (heblaw y rhai a gwmpesir gan is-baragraffau (ii) a (iii) uchod)

o leiaf unwaith, ac am 15 munud o leiaf, bob pedair wythnos y mae'r Cynulliad yn cyfarfod mewn cyfarfodydd llawn;

(v) i Aelod o Bwyllgor y Tŷ ateb cwestiynau llafar o leiaf unwaith, ac am 5 munud o leiaf, bob pedair wythnos y mae'r Cynulliad yn cyfarfod mewn cyfarfodydd llawn.

(vi) i un Aelod, ac eithrio Gweinidog, gynnig pwnc bob wythnos i'r Cynulliad ei ystyried mewn dadl fer..

6.4 Os nad yw'n rhesymol ymarferol i Weinidog, gan gynnwys Prif Weinidog Cymru, ateb cwestiynau llafar ar ddiwrnod pan fydd y Gweinidog fel rheol yn gwneud hynny, caiff Gweinidog arall, gyda chydsyniad y Llywydd ymlaen llaw, ateb cwestiynau ar ran y Gweinidog hwnnw.

6.5 Os cyflwynir cynnig o ddiffyg hyder yn y Llywydd, y Dirprwy neu Brif Weinidog Cymru, neu gynnig i geryddu un o Weinidogion y Cynulliad, a hynny gan o leiaf chwe Aelod, rhaid trefnu bod amser ar gael cyn gynted ag y bo modd er mwyn cynnal dadl ynglŷn â'r cynnig; a rhaid cynnal y ddadl honno p'un bynnag cyn pen pum diwrnod gwaith ar ôl cyflwyno'r cynnig.

6.6 Rhaid trefnu bod amser ar gael ym mhob cyfnod o 12 mis ar gyfer y categorïau canlynol o fusnes y Cynulliad:

(i) dadl ar adroddiad blynyddol Prif Weinidog Cymru

(ii) dadleuon ar ddyrannu Cyllideb y Cynulliad

(iii) dadleuon ar gynigion a gynigir ar ran grwpiau gwleidyddol nad ydynt wedi eu cynrychioli yng Nghabinet y Cynulliad

(iv) dadl gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar raglen ddeddfu Llywodraeth y DU. Rhaid i'r cynnig ar gyfer y ddadl honno roi cyfrifoldeb i'r Pwyllgorau Pwnc perthnasol ystyried ac adrodd ar fesurau, a chynigion ar gyfer mesurau, sydd o bwysigrwydd arbennig i Gymru

(v) dadl ar adroddiadau a gyflwynwyd gan y Pwyllgorau Pwnc, gan gynnwys adroddiadau am ganlyniad yr ystyriaeth a roddwyd i fesurau , yn unol â'r cyfrifoldeb a roddwyd i'r Pwyllgorau gan y cyfarfod llawn

(vi) dadl ar adroddiadau a osodwyd gerbron y Cynulliad gan y Pwyllgor Archwilio yn ystod y deuddeng mis blaenorol

(vii) dadl ar adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau

(viii) dadl ar adroddiad blynyddol Pwyllgor y Tŷ

(ix) dadl ar yr adroddiad blynyddol ar y trefniadau cyfle cyfartal

(x) dadl ar yr adroddiad blynyddol ar y cynllun llywodraeth leol

(xi) dadl ar yr adroddiad blynyddol ar gynllun y sector gwirfoddol

(xii) dadl ar yr adroddiad blynyddol ar y cynllun datblygu cynaliadwy

(xiii) dadl ar drefniadau'r Cynulliad ar gyfer cydweithredu â byd busnes

(xiv) dadl ar faterion sy'n ymwneud â'r Undeb Ewropeaidd

(xv) dadl ar adroddiadau blynyddol Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru a Chomisiynydd Gwasanaeth Iechyd Cymru

Rhaid i o leiaf wyth cyfarfod llawn yn y cyfnod o 12 mis gynnwys amser ar gyfer cynigion a wneir ar ran grwpiau gwleidyddol nad ydynt wedi'u cynrychioli yng Nghabinet y

Cynulliad, a chyn belled ag y bo modd, dosberthir y rhain yn unol â chynrychiolaeth pob grŵp yn y Cynulliad. Rhaid i o leiaf chwe chyfarfod llawn yn ystod y cyfnod gynnwys amser ar gyfer dadleuon ar adroddiadau a gyflwynir gan y Pwyllgorau Pwnc, yn ogystal ag amser ar gyfer dadleuon ar adroddiadau am ganlyniad yr ystyriaeth a roddwyd i fesurau a chynigion ar gyfer mesurau, yn unol â'r cyfrifoldeb a roddwyd i'r Pwyllgorau gan y cyfarfod llawn.

6.7 Rhaid i'r Cynulliad sicrhau y trefnir bod amser ar gael ym mhob cyfnod o 12 mis ar gyfer ystyried adroddiadau'r Comisiwn Cyfle Cyfartal, y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol a'r Comisiwn Hawliau Anabledd naill ai mewn cyfarfodydd llawn neu mewn Pwyllgor. Ar adegau o'r fath, gellir ystyried hefyd adroddiadau gan gyrff gwirfoddol yng Nghymru sy'n ymwneud â'r materion hyn.

**Hysbysiadau Busnes ar gyfer Cyfarfodydd Llawn**

6.8 Rhaid i'r Llywydd gylchredeg hysbysiadau ymlaen llaw ynghylch busnes pob cyfarfod llawn, ynghyd â gwybodaeth arall am fusnes yn y dyfodol. Cyn belled ag y bo'n briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol, rhaid trefnu bod unrhyw ddogfennau sy'n ymwneud â busnes y cyfarfodydd llawn ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg; a rhaid trefnu bod copïau o'r dogfennau hynny ar gael i Ysgrifennydd Gwladol Cymru yr un pryd ag y byddant ar gael i'r Aelodau.

6.9 Rhaid i fusnes y caniateir ymdrin ag ef heb hysbysiad mewn unrhyw gyfarfod llawn gynnwys:

(i) cyflwyno Aelodau newydd

(ii) teyrngedau coffa i gyn-Aelodau ac eraill

(iii) datganiadau personol

(iv) datganiadau gan Weinidogion

(v) cynigion ynglŷn â gweithdrefnau, neu bwyntiau o drefn ynghylch dull cynnal y busnes.

6.10 Mewn unrhyw gyfarfod llawn, caiff Aelod gynnig mewn araith heb fod yn hwy na thair munud y dylai'r Cynulliad ystyried mater penodol, ar yr amod:

(i) bod yr Aelod wedi hysbysu'r Llywydd am ei ddymuniad i wneud hynny ac am y mater o leiaf awr cyn dechrau'r cyfarfod;

(ii) os mai Aelod heblaw Gweinidog wedi rhoi'r hysbysiad, bod y Llywydd wedi rhoi cyfle i Weinidog gyflwyno sylwadau yn breifat iddo neu iddi ar y mater; a

(iii) bod y Llywydd yn fodlon bod y mater brys o bwys cyhoeddus , a'i fod wedi hysbysu'r Aelod (ac, os oes angen, y Gweinidog) yn unol â hynny.

Os bydd Aelod heblaw Gweinidog yn gwneud y cynnig, rhaid i'r Llywydd ganiatáu i'r Gweinidog ateb mewn araith na fydd yn para'n hwy na thair munud. Rhaid i'r Llywydd gynnal pleidlais ar y cynnig yn union ar ôl iddo gael ei wneud neu, os bydd Gweinidog yn ateb, ar ôl yr ateb hwnnw. Os bydd y Cynulliad yn penderfynu ystyried y mater, rhaid

iddo wneud hynny yn ystod y cyfarfod hwnnw neu (os bydd y Llywydd yn penderfynu felly) yr un sy'n dilyn yn syth, a rhaid i'r Llywydd addasu'r amserlen ar gyfer busnes fel y gwêl yn dda. Os yw'r mater o fewn cyfrifoldebau Pwyllgor y Tŷ, yna yn lle "Gweinidog" yn Rheol Sefydlog 6.10, rhodder "aelod o Bwyllgor y Tŷ sy'n ateb ar ran y Pwyllgor hwnnw" .

6.11 Rhaid i fusnes gael ei alw gan y Llywydd a'i gymryd yn y drefn y mae'n ymddangos ar yr hysbysiad busnes; ond pan fydd eitem o fusnes yn cael ei galw caniateir i gynnig gael ei wneud i'w gohirio tan yn nes ymlaen y diwrnod hwnnw neu ddiwrnod arall, a hynny naill ai gan yr Aelod sy'n gofalu amdani, neu yn achos busnes Cabinet y Cynulliad, gan Weinidog. Rhaid peidio â chytuno ar y cyfryw ohiriad os bydd o leiaf 10 Aelod yn ei wrthwynebu. Os cytunir i ohirio, rhaid i'r Llywydd addasu'r amserlen ar gyfer busnes fel y gwêl yn dda.

**Trefn Busnes**

6.12 Rhaid ymdrin â busnes yn ôl yr angen yn y drefn ganlynol:

(i) datganiadau gan y Llywydd

(ii) cyflwyno Aelodau newydd o'r Cynulliad

(iii) teyrngedau coffa

(iv) ethol swyddogion ac aelodau Pwyllgorau

(v) datganiadau personol

(vi) cwestiynau i'w Hateb ar Lafar

(vii) unrhyw gynnig gan Aelod yn unol â Rheol Sefydlog 6.10

(viii) datganiadau gan Weinidogion

(ix) datganiadau gan aelod o Bwyllgor y Tŷ ynghylch unrhyw fater sy'n rhan o gyfrifoldebau'r Pwyllgor hwnnw

(x) prif fusnes y cyfarfod llawn

(xi) Dadleuon Byr cyn dirwyn y cyfarfodydd llawn i ben.

**Cynigion**

6.13 Ac eithrio cwestiynau llafar, datganiadau, cyflwyno Aelodau newydd, teyrngedau coffa, materion y mae'r Cynulliad yn penderfynu eu hystyried o dan Reol Sefydlog 6.10 neu lle bo Aelod yn cynnig pwnc ar gyfer Dadl Fer o dan Reol Sefydlog 6.38, rhaid i'r busnes mewn cyfarfodydd llawn fynd yn ei flaen ar sail y cynigion a wneir; ac oni bai bod y Rheolau Sefydlog yn darparu fel arall, rhaid i unrhyw gynnig o'r fath gael ei gyflwyno o leiaf bum diwrnod gwaith cyn ei drafod. Caiff unrhyw Aelod wneud cynnig a gyflwynir yn ôl y drefn hon.

6.14 Ac eithrio lle mae'r Rheolau Sefydlog yn darparu fel arall, caniateir i welliannau gael eu cynnig i unrhyw gynnig, a rhaid eu cyflwyno o leiaf dri diwrnod gwaith cyn bod y cynnig i fod i gael ei drafod; ond caiff y Llywydd, ar ôl talu sylw i unrhyw ganllawiau y gall y Cynulliad eu mabwysiadu:

(i) casglu gwelliannau cysylltiedig ynghyd, a mynnu eu bod yn cael eu cynnig fel grŵp;

(ii) penderfynu ym mha drefn y dylid ymdrin â gwelliannau sy'n codi yn yr un lle yn y cynnig; a

(iii) gwrthod dewis gwelliant pan fydd ef neu hi o'r farn bod y dull priodol o gynnal busnes y Cynulliad yn ei gwneud yn briodol gwrthod.

6.15 Pan fo cynnig ond yn argymell bod y Cynulliad yn nodi adroddiad a gyflwynwyd gan Bwyllgor Pwnc, ni chaniateir cyflwyno gwelliant i'r cynnig hwnnw.

6.16 Ni chaniateir cyflwyno unrhyw gynnig neu ddiwygiad sy'n cyfeirio at unrhyw ddogfen oni bai bod y ddogfen ar gael i bob Aelod ar yr adeg y cyflwynir y cynnig neu cyn hynny. Ystyrir bod dogfen ar gael i bob Aelod os bydd Aelodau yn medru cael gafael arni drwy gyfrwng electronig, neu os trefnwyd bod copi caled ar gael i'r Aelodau neu (lle bo maint y ddogfen yn golygu nad yw hi'n rhesymol ymarferol i sicrhau ei bod ar gael trwy ddulliau eraill) os yw copi wedi'i adneuo yn y Llyfrgell. Bydd rhaid i Aelod sy'n cyflwyno cynnig neu ddiwygiad y mae'r Rheol Sefydlog hon yn berthnasol iddo ddatgan a sicrhawyd bod dogfen y cyfeirir ati ar gael i'r Aelodau a sut y gwnaed hynny. Os yw'n hysbys i'r Llywydd fod cynnig neu ddiwygiad wedi ei gyflwyno yn groes i ofynion y Rheol Sefydlog hon, rhaid i'r Llywydd beidio â chaniatáu iddo gael ei drafod hyd nes bod y ddogfen ar gael i bob Aelod a hyd nes bydd amser pellach y mae'r Llywydd yn barnu ei fod yn briodol wedi mynd heibio.

6.17 Yn dibynnu ar Reolau Sefydlog 6.20 a 6.21, ar ddiwedd unrhyw ddadl neu pan fydd y Llywydd (gan dalu sylw i'r cyfnod a drefnwyd ar gyfer y busnes) yn penderfynu nad oes rhagor o amser ar gyfer y ddadl, rhaid i'r Llywydd wahodd y Cynulliad i benderfynu ar unrhyw welliannau a gynigir ac ar y cynnig.

**Cynigion Trefniadol**

6.18 Rhaid i gynigion trefniadol gael blaenoriaeth dros fusnes arall ac ni fydd darpariaethau Rheol Sefydlog 6.13 sy'n ymwneud â'r cyfnod ar gyfer cyflwyno cynnig yn gymwys. Caiff y Llywydd ganiatáu i Aelod siarad yn gryno o blaid y cyfryw gynnig, ac i Aelod arall siarad yn gryno yn ei erbyn, ac yna rhaid cynnal pleidlais ar y cynnig.

6.19'r materion canlynol gael eu cynnig mewn cynigion trefniadol:

(i) gohirio eitem o fusnes yn unol â Rheol Sefydlog 6.10

(ii) cyfeirio mater at bwyllgor

(iii) dod â dadl i ben yn unol â Rheol Sefydlog 6.17

(iv) parhau, neu ohirio, dadl ar ôl i’r amser a neilltuwyd ddod i ben, yn unol â Rheol Sefydlog 6.18; a

(v) y cyfryw faterion eraill ag sy'n briodol ym marn y Llywydd.

6.20 Ar unrhyw adeg ar ôl gwneud cynnig neu ddiwygiad, caiff Aelod gynnig y dylid pleidleisio arno ar unwaith; ond rhaid i’r Llywydd beidio â chynnal pleidlais ar y cynnig hwnnw oni fydd o leiaf 10 Aelod yn mynegi eu cefnogaeth; ac os bydd yn fodlon na fyddai gwneud hynny yn camddefnyddio gweithdrefnau'r Cynulliad neu'n tarfu ar hawliau lleiafrifoedd yn y Cynulliad.

6.21 Pan:

(i) fydd y Llywydd yn penderfynu o dan Reol Sefydlog 6.14 nad oes rhagor o amser ar gael i drafod unrhyw gynnig; neu

(ii) fydd y Llywydd yn datgan ei fod yn fodlon (gan dalu sylw i’r cyfnod yr awgrymwyd ei neilltuo i’r busnes) na fydd digon o amser ar gael i gynnal dadl ar unrhyw gynnig; neu

(iii) pan fydd dadl fer yn torri ar draws dadl ar unrhyw gynnig,

caiff Aelod gynnig bod y ddadl ar y cynnig yn parhau am gyfnod penodol y diwrnod hwnnw neu'n cael ei ohirio tan ddiwrnod arall; ond rhaid i’r Llywydd beidio â chynnal pleidlais ar y cynnig hwnnw oni fydd o leiaf 10 Aelod yn mynegi eu cefnogaeth; ac os bydd ef neu hi'n fodlon na fyddai gwneud hynny yn camddefnyddio gweithdrefnau'r Cynulliad nac yn achosi gormod o oedi. Os cytunir ar unrhyw gynnig i gynnig bod y ddadl ar y cynnig yn parhau am gyfnod penodol o dan y paragraff hwn, rhaid cymryd bod busnes ar gyfer y diwrnod hwnnw wedi ei estyn gan hyd at yr un cyfnod penodol.

**Pleidleisio**

6.22 Rhaid i’r Aelodau fwrw eu pleidleisiau yn unigol ac yn bersonol (ond ni fydd rhaid iddynt bleidleisio).

6.23 Rhaid i’r Llywydd gynnal pleidlais ar gynnig neu welliant trwy gyfrwng electronig; neu yn niffyg hynny, un ai

(i) trwy alw cofrestr o’r Aelodau yn nhrefn yr wyddor, neu

(ii) os bydd y Llywydd yn penderfynu hynny, ac os na fydd o leiaf dri Aelod yn gwrthwynebu penderfyniad y Llywydd, drwy godi dwylo.

6.24 Os bydd o leiaf dri Aelod, cyn i bleidlais gael ei chynnal, yn gofyn am hynny, rhaid canu’r gloch. Os bydd pleidlais yn cael ei chynnal yn syth ar ôl y llall, ni fydd rhaid canu’r gloch fwy nag unwaith. Ar ôl ysbaid o bum munud, rhaid cymryd y bleidlais neu’r pleidleisiau. Rhaid i’r Llywydd ddatgan bod y bleidlais wedi cau a chyhoeddi’r canlyniad.

6.25 Ni fydd pleidlais yn ddilys oni fydd o leiaf deg Aelod yn cymryd rhan. Os bydd llai na deg Aelod yn cymryd rhan, rhaid cadw’r busnes hwnnw tan y cyfarfod llawn nesaf (a

rhaid i’r Llywydd addasu'r amserlen ar gyfer busnes y cyfarfod yn ôl fel y gwêl yn briodol) a. rhaid i’r Cynulliad symud ymlaen i’r eitem nesaf o fusnes. Wrth ddyfarnu nifer yr Aelodau sy’n cymryd rhan mewn pleidlais, rhaid cymryd bod yr Aelod sy’n llywyddu a’r rhai sy’n nodi eu bod yn ymatal yn cymryd rhan.Rhaid cynnwys enwau’r Aelodau sy’n pleidleisio, gan gynnwys y rhai sy’n nodi eu bod yn ymatal, yn y cofnod o drafodion cyfarfodydd llawn y Cynulliad. Rhaid sicrhau hefyd y bydd adroddiad o’r bleidlais ar gael cyn diwedd y cyfarfod y cymerwyd y bleidlais ynddo.

**Datganiadau Personol**

6.26 Caiff y Llywydd ganiatáu i Aelod wneud datganiad personol, ar ôl rhoi hysbysiad ysgrifenedig iddo ef neu iddi hi.

6.27 Rhaid i ddatganiad personol fod yn gryno, yn ffeithiol a rhaid iddo beidio â bod yn destun dadl.

**Cwestiynau Llafar**

6.28 Caiff Aelodau gyflwyno cwestiynau llafar i unrhyw Weinidog a hynny ynghylch unrhyw fater sy'n ymwneud â'u cyfrifoldebau (ac eithrio mai dim ond cwestiynau llafar sy'n ymwneud â'i gyfrifoldebau (os oes rhai) heblaw am fusnes y caniateir eu cyflwyno i'r Trefnydd).

6.29 Caiff Aelodau gyflwyno cwestiynau llafar gan aelod o Bwyllgor y Tŷ ynghylch unrhyw fater sy'n rhan o gyfrifoldebau'r Pwyllgor hwnnw.

6.30 Rhaid cyflwyno cwestiynau i'r Swyddfa Gyflwyno o leiaf bum diwrnod gwaith ond nid mwy na deg diwrnod gwaith cyn bod rhaid eu hateb.

6.31 Rhaid derbyn cwestiynau yn ôl doethineb y Llywydd, a rhaid iddo roi sylw i unrhyw ganllawiau y gall y Cynulliad eu mabwysiadu; ond dau gwestiwn llafar neu lai yn unig y caiff pob Aelod eu cyflwyno i Weinidog penodol (neu, yn achos cwestiynau i Brif Weinidog Cymru o dan Reol Sefydlog 6.3(i) neu i aelod o Bwyllgor y Tŷ o dan Reol Sefydlog 6.3(v), un cwestiwn yn unig) mewn unrhyw gyfarfod llawn. Rhaid cyhoeddi cwestiynau a dderbynnir yn yr hysbysiad busnes ar gyfer y diwrnod y mae’n rhaid eu hateb.

6.32 Rhaid penderfynu ar drefn cwestiynau llafar fel a ganlyn:

(i) yn achos cwestiynau a dderbynnir cyn 4pm ar y diwrnod cyntaf y caniateir iddynt gael eu cyflwyno, drwy hapddull;

(ii) yn achos cwestiynau a dderbynnir ar ôl 4pm ar y diwrnod cyntaf y caniateir iddynt gael eu cyflwyno, yn y drefn y deuant i law.

6.33 Rhaid i’r Llywydd alw ar yr Aelod sy’n gofyn y cwestiwn i ofyn cwestiwn llafar atodol, ac wedyn caiff alw ar Aelodau eraill i ofyn cwestiynau llafar atodol cysylltiedig. Wrth alw ar Aelodau i ofyn cwestiynau llafar atodol, rhaid i’r Llywydd geisio pwyso’r angen am archwilio mater yn drylwyr â’r angen i Weinidogion a’r aelod o Bwyllgor y Tŷ ateb cynifer o gwestiynau a gyflwynwyd â phosibl. Pan fydd y Llywydd o'r farn bod digon o drafod wedi bod ar y mater a godwyd mewn cwestiwn llafar, rhaid iddo alw’r

cwestiwn nesaf.

6.34  Ar ddiwedd y cyfnod a neilltuir ar gyfer cwestiynau llafar, neu ar unrhyw adeg arall a benderfynir gan y Llywydd, caiff y Llywydd alw ar Aelod i ofyn cwestiwn na roddwyd hysbysiad amdano o dan Reol Sefydlog 6.30:

(i) os rhoddwyd rhybudd o ddwy awr o leiaf ymlaen llaw i'r Llywydd a'r Gweinidog neu'r Aelod o Bwyllgor y Tŷ o dan sylw; a

(ii) os yw'r Llywydd wedi'i fodloni bod y cwestiwn yn un o bwys cyhoeddus brys.

6.35 Pan na chyrhaeddir unrhyw gwestiwn llafar, rhaid i'r Aelod gael ateb ysgrifenedig ar yr un diwrnod.  Rhaid i'r ateb ysgrifenedig gael ei gofnodi yn y cofnod o drafodion y cyfarfod llawn.

**Cwestiynau i'w Hateb yn Ysgrifenedig**

6.36 Caiff Aelodau gyflwyno cwestiynau ysgrifenedig i unrhyw Weinidog ynghylch unrhyw fater sy'n ymwneud â'i gyfrifoldebau ef neu ei chyfrifoldebau hi neu i Bwyllgor y Tŷ ynghylch ei gyfrifoldebau yntau.

6.37 Rhaid i'r Aelodau ddarparu testun cwestiynau i'r Swyddfa Gyflwyno o leiaf bum diwrnod gwaith cyn bod rhaid eu hateb.   Rhaid derbyn cwestiynau yn ôl doethineb y Llywydd, a fydd yn rhoi sylw i unrhyw ganllawiau y gall y Cynulliad eu mabwysiadu. Rhaid cyhoeddi cwestiynau a dderbynnir yn yr hysbysiad busnes ar gyfer y diwrnod y mae'n rhaid eu hateb a chofnodir yr atebion yn y cofnod o'r trafodion.

**Dadleuon Byr ynghylch Pynciau a Gynigir gan Aelodau**

6.38 Yn ystod pob wythnos y bydd cyfarfod llawn o'r Cynulliad, rhaid i'r Llywydd dynnu enwau i benderfynu pa Aelod, ac eithrio Gweinidog, a gaiff gynnig pwnc ar gyfer dadl yn y cyfryw wythnos ganlynol.

6.39  Rhaid i'r Aelod y tynnwyd ei enw hysbysu'r Llywydd o'r pwnc o leiaf bum diwrnod gwaith cyn y ddadl yn ei gylch.

6.40  Rhaid i'r Ddadl Fer gychwyn hanner awr cyn yr amser y mae'r cyfarfod i fod i orffen, a chaiff y Llywydd dorri ar draws unrhyw ddadl sydd yn digwydd ar y pryd, ac fe fydd unrhyw ddadl y torrir ar ei thraws felly, yn ddarostyngedig i Reol Sefydlog 6.21, yn methu; ond caiff y Ddadl Fer gychwyn yn gynharach na hanner awr cyn yr amser y mae'r cyfarfod i fod i orffen os yw'r holl fusnes arall wedi'i gwblhau,

6.41 Yn y ddadl:

(i) caiff yr Aelod y tynnwyd ei enw siarad;

(ii) Bydd Gweinidog, neu Aelod a enwebir gan Weinidog, gyda chydsyniad y Llywydd ymlaen llaw (neu, os yw'r mater yn rhan o gyfrifoldebau Pwyllgor y Tŷ, aelod o'r Pwyllgor hwnnw), yn ymateb;  ac

(iii) ni chaiff unrhyw Aelod arall siarad oni bai bod ganddo ef neu ganddi hi ganiatâd yr Aelod y tynnwyd ei enw neu oni chaniateir iddo ef neu iddi hi ymyrryd gan yr Aelod sy'n ymateb.

**Datganiadau Barn Ysgrifenedig**

6.42 Caiff unrhyw Aelod heblaw Gweinidog gyflwyno datganiadau barn ysgrifenedig heb fod yn hwy na 100 o eiriau ar faterion sy'n effeithio ar Gymru;  a chaniateir i’r datganiadau hynny gael eu hategu, eu gwrthwynebu neu fel arall fod yn destun sylwadau ysgrifenedig gan unrhyw Aelod arall.

6.43 Os yw'r Llywydd o'r farn bod y cyfryw ddatganiadau ysgrifenedig yn ddilys, rhaid eu cyhoeddi, ynghyd ag unrhyw ddatganiad o gefnogaeth neu wrthwynebiad a gyflwynwyd gan Aelodau eraill.

## RHEOL SEFYDLOG 7 - Y Drefn yn y Cyfarfodydd Llawn

**Rheolau'r Dadleuon**

7.1 Rhaid i Aelodau sy'n cael eu galw i siarad gan y Llywydd annerch y cadeirydd. Caiff yr Aelodau siarad yn Gymraeg neu yn Saesneg a rhaid darparu cyfleusterau cyfieithu ar y pryd ar gyfer areithiau a draddodir yn Gymraeg. Caiff y Llywydd alw ar Ysgrifennydd Gwladol Cymru i siarad mewn unrhyw ddadl.

7.2 Rhaid i'r Aelodau beidio â defnyddio iaith sydd, ym marn y Llywydd, yn groes i'r drefn, yn camwahaniaethu neu'n peri tramgwydd, neu'n gallu amharu ar urddas y Cynulliad. Caiff y Llywydd orchymyn i Aelod sydd wedi defnyddio iaith o'r fath ei thynnu'n ôl.

**Hyd Areithiau**

7.3 Rhaid i areithiau fod yn berthnasol i'r busnes sydd gerbron y Cynulliad, ac osgoi ailadrodd diflas. Ar ddechrau unrhyw ddadl, caiff y Llywydd gyhoeddi terfyn amser ar areithiau'r Aelodau, a chaiff orchymyn i Aelod sydd wedi siarad yn rhy hir roi'r gorau iddi.

**Siarad Fwy nag Unwaith**

7.4 Ni chaiff Aelod, ac eithrio'r sawl sy'n gwneud cynnig neu'n cynnig gwelliant ac yn arfer hawl i ateb, siarad fwy nag unwaith ar unrhyw fater ac eithrio, gyda chaniatâd y Llywydd, er mwyn esbonio yn fyr ryw bwynt perthnasol yn ei araith wreiddiol.

7.5 Caiff Aelod sy'n siarad ganiatáu i Aelodau eraill ymyrryd er mwyn egluro cyn ailddechrau ei araith.

7.6 Ni chaiff Aelod siarad ar ôl i'r sawl sy'n gwneud y cynnig arfer ei hawl i ateb.

**Cadw Trefn**

7.7 Rhaid i'r Llywydd gadw trefn yn y Cynulliad a galw i drefn unrhyw Aelod o'r Cynulliad:

(i) sy'n ymddwyn mewn ffordd a all fod yn dramgwydd troseddol;

(ii) sy'n rhwystro busnes y Cynulliad;

(iii) sy'n ceisio codi mater sydd y tu hwnt i gwmpas y ddadl neu'r cynnig;

(iv) sy'n euog o ymddygiad anghwrtais neu amhriodol;

(v) sy'n defnyddio iaith sy'n groes i'r drefn, sy'n camwahaniaethu neu sy'n peri tramgwydd, neu iaith sy'n amharu ar urddas y Cynulliad;

(vi) sy'n gwrthod cydymffurfio ag unrhyw Reol Sefydlog; neu

(vii) sy'n anwybyddu awdurdod y cadeirydd.

7.8 Rhaid i Aelod gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau a roddir gan y Llywydd ynghylch unrhyw ymddygiad sydd wedi peri ei alw i drefn. Gellir mynnu bod Aelod yn ymneilltuo o drafodion y Cynulliad am weddill y dydd os yw'r Llywydd o'r farn bod yr ymddygiad yn cyfiawnhau ymneilltuo.

7.9 Pan fo'r Llywydd wedi mynnu bod Aelod yn ymneilltuo o'r trafodion ac nad yw'r Aelod wedi gwneud hynny, rhaid i Aelod wneud cynnig i wahardd yr Aelod hwnnw o drafodion y Cynulliad a phleidleisio arno ar unwaith. Y tro cyntaf, rhaid i'r gwaharddiad fod am un diwrnod gwaith yn union ar ôl diwrnod y gwaharddiad; ar yr ail achlysur yn ystod yr un flwyddyn rhaid i'r gwaharddiad fod am bum diwrnod gwaith yn union ar ôl diwrnod y gwaharddiad; ar y trydydd achlysur neu ar unrhyw achlysur wedi hynny yn ystod yr un flwyddyn galendr rhaid i'r gwaharddiad fod am 20 diwrnod gwaith yn union ar ôl diwrnod y gwaharddiad.

7.10 Tra bydd Aelod wedi'i wahardd, ni fydd hawl ganddo ef neu ganddi hi i gael unrhyw gyflog gan y Cynulliad a rhaid peidio â chaniatáu iddo ef neu iddi hi fynychu unrhyw un o drafodion y Cynulliad.

7.11 Os bydd anhrefn difrifol yn codi yn y Cynulliad caiff y Llywydd ohirio'r cyfarfod heb gynnal pleidlais ar unrhyw gynnig, neu caiff ohirio'r cyfarfod am gyfnod penodedig.

**Sub-judice**

7.12 Yn dibynnu ar hawl y Cynulliad i ddeddfu ar unrhyw fater o fewn ei allu, rhaid i Aelod beidio â chodi unrhyw fater na mynd ar drywydd unrhyw fater mewn unrhyw un o drafodion y Cynulliad pan fydd achos llys wedi'i gychwyn, neu pan fydd hysbysiad apêl wedi'i roi, neu pan fydd Comisiynydd Plant Cymru wedi penderfynu cynnal archwiliad o achos, tan yr adeg y bydd dyfarniad wedi'i roi neu y bydd adroddiad wedi'i wneud gan Gomisiynydd Plant Cymru, oni bai bod y Llywydd wedi'i fodloni:

(i) bod gan y mater berthynas glir â mater o bwys cyhoeddus cyffredinol;

(ii) nad yw'r mater yn ymwneud ag achos sydd i'w wrando, neu sy'n cael ei wrando, gerbron llys troseddau neu gerbron rheithgor neu achos sydd i'w wrando, neu sy'n cael ei wrando, mewn achos teuluol; ac

(iii) na fydd yr Aelod, yn ei sylwadau, yn creu perygl real a sylweddol o niwed i achos llys, naill ai'n gyffredinol neu mewn perthynas ag achos penodol.

**Beirniadu'r Farnwriaeth**

7.13 Oni bai bod y mater yn cael ei godi mewn cynnig gwreiddiol, ni chaiff Aelodau mewn unrhyw un o drafodion y Cynulliad feirniadu ymddygiad barnwyr llysoedd uwch y Deyrnas Unedig wrth iddynt gyflawni eu swyddogaeth farnwrol; ac yn y Rheol Sefydlog hon mae "barnwr" yn cynnwys personau sy'n dal swydd barnwr (megis Barnwyr Cylchdaith a'u dirprwyon, a Chofiaduron).

**Ymddygiad y Cyhoedd**

7.14 Caiff y Llywydd wneud rheolau sy'n pennu'r amodau y mae'n rhaid i aelodau'r cyhoedd sy'n mynychu trafodion y Cynulliad gydymffurfio â hwy.

7.15 Caiff y Llywydd fynnu bod aelodau'r cyhoedd sy'n gwylio’r trafodion yn ymneilltuo os ydynt yn ymddwyn yn anystywallt neu’n anhrefnus, neu'n ymyrryd fel arall â gwaith y Cynulliad wrth iddo gyflawni ei fusnes yn briodol.

## RHEOL SEFYDLOG 8 - Pwyllgorau

**Sefydlu Pwyllgorau**

8.1 Caiff y Cynulliad benderfynu sefydlu Pwyllgor (yn ychwanegol at y rhai y darperir ar eu cyfer gan y Ddeddf neu yn y Rheolau Sefydlog) drwy gynnig a gyflwynir gan Weinidog neu gan o leiaf dri Aelod o'r Cynulliad. Rhaid darparu gyda'r cynnig asesiad o gostau, manteision a goblygiadau eraill sefydlu'r Pwyllgor. Rhaid i'r asesiad hwn gael ei gyflwyno o leiaf ddau ddiwrnod gwaith cyn bod y cynnig i gael ei ystyried.

8.2 Rhaid i gynnig i sefydlu Pwyllgor newydd bennu cylch gwaith arfaethedig y Pwyllgor a'r dyddiad y daw ei fodolaeth i ben oni bai bod y Cynulliad yn penderfynu ei barhau. Rhaid i'r dyddiad hwnnw beidio â bod yn fwy na 12 mis ar ôl dyddiad y cyfarfod cyntaf.

**Ethol Pwyllgorau**

8.3 Ac eithrio fel y darperir yn wahanol yn y Rheolau Sefydlog, ar ôl pob etholiad cyffredin rhaid i'r Cynulliad ethol aelodau pob Pwyllgor y darperir ar ei gyfer gan y Ddeddf a'r Rheolau Sefydlog. Rhaid ethol aelodau'r Pwyllgorau i wasanaethu tan yr etholiad cyffredin nesaf oni fydd y Cynulliad yn penderfynu fel arall. Oni bai bod y Pwyllgor yn bodoli i roi cyngor yn unig, rhaid i aelodau'r Pwyllgorau gael eu hethol er mwyn sicrhau, cyn belled ag y bo'n ymarferol, fod cydbwysedd y grwpiau gwleidyddol yn y Cynulliad yn cael ei adlewyrchu yn aelodaeth pob Pwyllgor.

8.4 Rhaid i gynigion ar gyfer ethol aelodau'r Pwyllgor Busnes, gan gynnwys cynigion ar gyfer etholiadau i lenwi lleoedd gwag yn yr aelodaeth, gael eu cyflwyno gan y Trefnydd yn sgil ymgynghori â'r grwpiau gwleidyddol a gynrychiolir yn y Cynulliad. Rhaid i gynigion ar gyfer ethol aelodau Pwyllgorau eraill, gan gynnwys cynigion ar gyfer etholiadau i lenwi lleoedd gwag yn yr aelodaeth, ac ar gyfer enwau unigolion i fod yn gadeiryddion Pwyllgorau, gael eu cyflwyno gan y Trefnydd yn sgil ymgynghori yn y Pwyllgor Busnes â'r grwpiau gwleidyddol a gynrychiolir yn y Cynulliad. Rhaid i'r Trefnydd geisio sicrhau bod pob Aelod, heblaw'r Llywydd a'r Dirprwy, yn cael ei gynnig i'w ethol i un Pwyllgor o leiaf ac eithrio Pwyllgor Rhanbarth.

8.5 Pan fo mwy nag un cynnig o dan Reol Sefydlog 8.4 i'w hystyried mewn unrhyw gyfarfod, caiff y Llywydd ofyn am ganiatâd y Cynulliad i bleidleisio ar y cynigion i gyd gyda'i gilydd, ac os rhoddir caniatâd, ni fydd Rheol Sefydlog 8.6 ac 8.7 yn gymwys a rhaid pleidleisio ar y cynigion gyda'i gilydd yn syth, heb gynnal dadl. Ystyrir nad yw'r Cynulliad wedi rhoi'i ganiatâd os bydd un Aelod yn gwrthwynebu.

8.6 Ni chaniateir cynnig unrhyw welliannau i gynigion a wneir o dan Reol Sefydlog 8.4 ac eithrio gan y Trefnydd gyda chaniatâd y Llywydd.

8.7 Rhaid i'r Llywydd ganiatáu i'r Trefnydd wneud cynnig sydd wedi'i gyflwyno ar gyfer ethol aelodau Pwyllgorau ac i un Aelod o bob grŵp gwleidyddol ymateb yn gryno; bydd gan y Trefnydd hawl i ateb ac yna rhaid i'r Llywydd gynnal pleidlais ar y cynnig.

8.8 Caiff Aelod ymddiswyddo o Bwyllgor drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r Llywydd. Wrth roi'r gorau i fod yn aelod o unrhyw grŵp gwleidyddol a gynrychiolid yn y Cynulliad

pan gafodd ei ethol i Bwyllgor, ac eithrio Pwyllgor Rhanbarth, rhaid i Aelod hefyd roi'r gorau i fod yn aelod o'r Pwyllgor hwnnw. Os bydd Aelod yn methu â bod yn bresennol ei hun mewn pedwar cyfarfod olynol o bwyllgor y mae ef neu hi'n aelod ohono, ac nad yw'n gallu bodloni'r Llywydd bod ganddo ef neu ganddi hi reswm da, bydd yn peidio â bod yn aelod o'r pwyllgor hwnnw. Nid yw'r ddarpariaeth hon yn gymwys i aelodau'r Pwyllgorau Rhanbarth.[1]

**Cworwm a Phleidleisio**

8.9 Rhaid datgan nad oes cworwm i gyfarfod os bydd llai na thri Aelod neu lai na thraean o nifer ei aelodau (gan gynnwys y cadeirydd), p'un bynnag yw'r uchaf yn bresennol.

8.10 Rhaid datgan nad yw cyfarfod Pwyllgor yn gwneud cworwm os mai un grŵp gwleidyddol yn unig a gynrychiolir gan yr aelodau sy'n bresennol ar ddechrau'r cyfarfod. Ni fydd y Rheol Sefydlog hon yn gymwys i Bwyllgor sy'n bodoli er mwyn rhoi cyngor yn unig.

8.11 Wrth ddatgan nad yw cyfarfod yn gwneud cworwm o dan Reol Sefydlog 8.9 neu 8.10, rhaid i'r cadeirydd atal y Pwyllgor hyd nes bod cworwm yn bresennol. Os na fydd cworwm yn bresennol cyn pen 20 munud, rhaid i'r cadeirydd ohirio'r Pwyllgor tan ddyddiad ac amser i'w pennu ganddo ef neu ganddi hi.

8.12 Os datgenir nad yw cyfarfod Pwyllgor yn gwneud cworwm o dan Reol Sefydlog 8.10, ac os oes cyfnod o ddau ddiwrnod gwaith o leiaf rhwng y cyfarfod hwnnw a'r un nesaf, ni fydd darpariaethau Rheol Sefydlog 8.10 yn gymwys yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor hwnnw.

8.13 Rhaid pleidleisio mewn Pwyllgorau drwy godi dwylo, a rhaid cofnodi enwau'r rhai sy'n pleidleisio (gan gynnwys y rhai sy'n ymatal) yn y cofnodion o drafodion y Pwyllgorau.

8.14 Caiff cadeiryddion y Pwyllgorau bleidleisio. Os bydd nifer y pleidleisiau yn gyfartal, rhaid i'r cadeirydd ddyfarnu ynglŷn â chwblhau'r busnes yn unol ag unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan y Llywydd o dan Reol Sefydlog 8.20.

8.15 Ni fydd unrhyw bleidlais mewn unrhyw Bwyllgor yn ddilys os bydd llai na thraean o'i aelodau wedi pleidleisio. Rhaid ystyried bod aelodau, sy'n cofnodi eu bod yn ymatal, wedi pleidleisio.

8.16 Wrth ddatgan bod pleidlais yn annilys o dan Reol Sefydlog 8.15, rhaid i'r cadeirydd ohirio'r eitem o fusnes yr oedd yn rhan ohoni tan gyfarfod nesaf y Pwyllgor, a rhaid peidio â chynnal y cyfarfod hwnnw yn gynharach na dau ddiwrnod gwaith ar ôl amser y bleidlais.

**Pwerau'r Pwyllgorau**

8.17 Caiff Pwyllgorau benodi arbenigwyr i'w cynghori yn unol â chanllawiau trefniadol ac ariannol a gyhoeddir gan y Llywydd.

8.18 Caiff Pwyllgorau wahodd unrhyw berson i fynychu cyfarfodydd, p'un a gânt eu cynnal yn breifat ai peidio, a chânt wahodd unrhyw berson neu gorff o'r fath i gyflwyno tystiolaeth a dangos dogfennau (p'un a oes gan y cyfryw Bwyllgorau bŵer i wysio tystion

neu i fynnu bod dogfennau yn cael eu dangos ai peidio).

8.19 Caiff Pwyllgorau gynnal cyfarfodydd ar y cyd â Phwyllgorau eraill, a chaiff Pwyllgor roi gwybodaeth neu ddogfennau i Bwyllgorau eraill.

**Y Drefn yn y Pwyllgorau**

8.20 Ac eithrio lle mae'r Rheolau Sefydlog yn darparu fel arall, cadeirydd Pwyllgor fydd yn pennu ei weithdrefnau, yn amodol ar ganllawiau y caiff y Llywydd eu rhoi ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor Busnes a phanel cadeiryddion y Pwyllgorau Pwnc. Bydd gan bob pwyllgor bŵer i benodi cadeirydd dros dro yn ystod absenoldeb anochel ei gadeirydd. Caiff Prif Weinidog Cymru fynychu unrhyw gyfarfod, neu unrhyw ran o gyfarfod, unrhyw Bwyllgor nad yw ef neu hi'n aelod ohono, a chaiff gymryd rhan yn y cyfarfod gyda chaniatâd y cadeirydd.

8.21 Bydd darpariaethau Rheolau Sefydlog 7.1 i 7.3, 7.7, a 7.11 i 7.15 yn gymwys mewn cyfarfodydd pwyllgor fel y bo'n briodol. Rhaid i aelodau pwyllgorau gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau a roddir gan y cadeirydd ynglŷn â'u hymddygiad yn nhrafodion y pwyllgor, a chaiff cadeirydd Pwyllgor fynnu bod aelod sydd wedi methu â chydymffurfio â chyfarwyddyd yn ymneilltuo o'r trafodion. Os bydd aelod yn gwrthod ymneilltuo pan ofynnir iddo ef neu iddi hi wneud hynny, rhaid i'r cadeirydd ohirio'r pwyllgor ac adrodd ar y mater i'r Llywydd cyn gynted ag y bo modd; a chaiff Aelod gynnig yn y cyfarfod llawn nesaf y dylai'r Aelod gael ei wahardd o drafodion y Cynulliad am gyfnod yn unol â Rheol Sefydlog 7.9.

8.22 Cyn belled ag y bo'n briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol, rhaid trefnu bod dogfennau sy'n ymwneud â busnes y bwriedir ymdrin ag ef mewn cyfarfodydd Pwyllgor ar gael i aelodau'r Pwyllgor yn Gymraeg a Saesneg o leiaf ddau ddiwrnod gwaith cyn y cyfarfodydd y maent yn berthnasol iddynt.

8.23 Ac eithrio lle mae'r Rheolau Sefydlog yn darparu fel arall, rhaid i'r Pwyllgorau gyfarfod yn gyhoeddus, a rhaid caniatáu mynediad ar gyfer darlledu yn unol â'r trefniadau y bydd y Cynulliad yn cytuno arnynt o bryd i'w gilydd.

8.24 Caiff Pwyllgor benderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod neu unrhyw ran o gyfarfod:

(i) lle mae cysylltiadau rhyngwladol, diogelwch gwladol, ymchwiliad i anghyfreithlondeb honedig, effeithiolrwydd gwaith gorfodi'r gyfraith neu weinyddu cyfiawnder yn briodol yn ei gwneud yn ofynnol i'r trafodion gael eu cynnal yn breifat;

(ii) lle nad oes modd trafod eitem benodol o fusnes heb ddatgelu gwybodaeth bersonol ynglŷn ag unigolion penodol sydd wedi'u hadnabod neu y gellir eu hadnabod ac na ddylid ei datgelu;

(iii) lle byddai trafod eitem benodol o fusnes yn gyhoeddus yn debyg o achosi niwed i fuddiannau masnachol neu economaidd;

(iv) lle byddai trafod eitem benodol o fusnes yn gyhoeddus yn debyg o achosi niwed i iechyd neu ddiogelwch unigolyn, y cyhoedd, neu'r amgylchedd;

(v) lle nad oes modd trafod eitem benodol o fusnes heb gyfeirio at ddeunydd a fyddai, yn ôl pob tebyg, yn cael ei ystyried yn ddeunydd sy'n difenwi unrhyw berson;

(vi) lle mae'r Pwyllgor yn cyd-drafod casgliadau neu argymhellion adroddiad y mae'n bwriadu ei gyhoeddi; neu'n ymbaratoi i gael tystiolaeth gan unrhyw berson;

(vii) lle nad oes modd trafod eitem benodol o fusnes heb ddatgelu naill ai cyngor cyfreithiol a roddwyd yn gyfrinachol; neu wybodaeth a roddwyd yn gyfrinachol gan berson neu gorff (gan gynnwys awdurdod cyhoeddus) nad oedd o dan unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol i ddatgelu'r wybodaeth honno ac nad yw wedi cytuno i'w datgelu i'r cyhoedd; neu

(viii) lle nad oes modd trafod eitem benodol o fusnes heb gyfeirio at ddogfen neu ddogfennau a gâi eu gwahardd neu eu hesemptio rhag cael eu datgelu o dan ddeddfwriaeth neu o dan god ymarfer a fabwysiadwyd gan y Cynulliad o dan Reol Sefydlog 17.2.

8.25 Rhaid i gynnig a wneir o dan Reol Sefydlog 8.24 nodi ar ba sail y mae'r Aelod sy'n ei wneud yn credu y dylai arwain at wahardd y cyhoedd.

8.26 Caiff aelodau'r pwyllgorau, a phersonau eraill sy'n annerch y pwyllgorau siarad Cymraeg neu Saesneg, a rhaid bod cyfleusterau cyfieithu ar y pryd ar gael ar gyfer trafodion Cymraeg. Caiff personau ac eithrio Aelodau annerch pwyllgorau mewn ieithoedd eraill drwy gytundeb ymlaen llaw â'r cadeirydd.

**Sefydlu Is-Bwyllgorau**

8.27 Caiff unrhyw bwyllgor benderfynu sefydlu un neu ragor o Is-bwyllgorau drwy gynnig a wneir gan aelod o'r pwyllgor. Rhaid i'r cynnig bennu aelodaeth a chylch gwaith yr Is-bwyllgor a'r dyddiad y daw ei fodolaeth i ben oni fydd y pwyllgor yn penderfynu ei barhau. Rhaid i'r dyddiad hwnnw beidio â bod yn hwyrach na'r hyn sy'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni'r busnes a bennir yng nghylch gwaith yr Is-bwyllgor a ph'un bynnag rhaid iddo beidio â bod yn fwy na 12 mis ar ôl dyddiad y cyfarfod cyntaf.

8.28. Wrth ystyried a ddylid penodi Is-bwyllgor neu beidio, rhaid i bwyllgor ei fodloni ei hun ynglŷn â diben a gwerth gwneud hynny; a rhaid iddo roi sylw i'r angen i osgoi lluosogi Is-bwyllgorau.

8.29 Rhaid i Is-bwyllgor gynnwys o leiaf un Aelod sy'n cynrychioli grŵp gwleidyddol nad yw'n cael ei gynrychioli yng Nghabinet y Cynulliad.

8.30 Mae Rheolau Sefydlog 8.9 i 8.26 yn gymwys hefyd i gyfarfodydd Is-bwyllgorau.

1 Cytunwyd ar 15.6.04

## RHEOL SEFYDLOG 9 - Pwyllgorau Pwnc

### Teitl ac Aelodaeth

9.1 Gelwir y pwyllgorau a sefydlir o dan adran 57(1) o'r Ddeddf yn Bwyllgorau Pwnc. Yn dibynnu ar ofynion adran 57(8), rhaid bod gan bob Pwyllgor Pwnc o leiaf saith ac nid mwy nag 11 o aelodau, gan gynnwys y cadeirydd a'r Gweinidog sy'n aelod o'r Pwyllgor yn rhinwedd adran 57(4).

### Cadeiryddion y Pwyllgorau Pwnc

9.2 Rhaid dewis cadeiryddion y Pwyllgorau Pwnc o banel o Aelodau a etholir gan y Cynulliad er mwyn sicrhau, cyn belled ag y bo'n ymarferol, fod cydbwysedd y pleidiau yn y Cynulliad yn cael ei adlewyrchu yn aelodaeth y panel. Rhaid bod gan y panel gynifer o aelodau â nifer y Pwyllgor Pwnc. Ni fydd Gweinidogion yn gymwys i fod yn aelodau o'r panel.

9.3 Rhaid i'r Trefnydd gyflwyno cynigion ar gyfer ethol Aelodau yn aelodau o'r panel, ac ar gyfer dewis cadeiryddion Pwyllgorau Pwnc penodol, ar ôl ymgynghori yn y Pwyllgor Busnes â'r grwpiau gwleidyddol a gynrychiolir yn y Cynulliad.

9.4 Ni chaniateir cynnig unrhyw ddiwygiad i gynnig a wneir o dan Reol Sefydlog 9.3. Caiff y Llywydd ganiatáu i'r Trefnydd wneud y cynnig, i un Aelod o bob grŵp gwleidyddol ymateb ac i'r Trefnydd ymateb, ac yna rhaid cynnal pleidlais ar y cynnig.

9.5 Caiff Aelod a etholir i'r panel ymddiswyddo drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r Llywydd. Bydd yr Aelod yn rhoi'r gorau i fod yn aelod o'r panel wrth roi'r gorau i fod yn aelod o unrhyw grŵp gwleidyddol yr oedd yn ei gynrychioli pan etholwyd ef neu hi i'r panel. Bydd Aelod sy'n ymddiswyddo o'r panel, neu'n rhoi'r gorau i fod yn aelod ohono, hefyd yn rhoi'r gorau i fod yn gadeirydd Pwyllgor Pwnc.

9.6 Caiff y panel ystyried materion ynglŷn â dull gweithredu'r Pwyllgorau Pwnc. Caiff y Dirprwy fod yn bresennol yng nghyfarfodydd y panel a thrwy wahoddiad caiff gadeirio unrhyw gyfarfodydd o'r fath.

### Cyfrifoldebau

9.7 Rhaid i bob Pwyllgor Pwnc:

> (i) cyfrannu at ddatblygu polisïau'r Cynulliad o fewn y meysydd y mae'r Gweinidog perthnasol yn atebol i'r Cynulliad amdanynt a'r meysydd y cafodd y Gweinidog gyfrifoldebau eraill drostynt (ac eithrio rheoli busnes y Cynulliad a'i faterion ariannol a materion sy'n rhan o gylch gorchwyl y Pwyllgor Cyfle Cyfartal a'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol);[1]
>
> (ii) cadw llygad ar y gwariant a'r weinyddiaeth sy'n gysylltiedig â'u gweithredu; a
>
> (iii) cadw llygad ar waith cyflawni'r swyddogaethau cyhoeddus yn y meysydd hynny a meysydd cyfrifoldeb1 gan gyrff cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat.

9.8 O fewn y meysydd perthnasol a meysydd cyfrifoldeb, rhaid i bob Pwyllgor Pwnc hefyd:

(i) cynghori ar ddeddfwriaeth sylfaenol, is-ddeddfwriaeth a deddfwriaeth Ewropeaidd arfaethedig a fydd yn effeithio ar Gymru, gan gynnwys cyflawni ei swyddogaethau o dan Reol Sefydlog 24;

(ii) rhoi cyngor i Gabinet y Cynulliad ar faterion sy'n ymwneud â dyrannu cyllideb y Cynulliad yn unol â Rheol Sefydlog 21;

(iii) cyflawni ei swyddogaethau o dan Reol Sefydlog 23 (cwynion);

(iv) cyflawni unrhyw swyddogaethau a neilltuir iddo o dan y Cod Ymarfer ar Weithdrefn Penodiadau Cyhoeddus a wneir gan y Cynulliad o dan Reol Sefydlog 22;  a

(v) ystyried materion y bydd y Cynulliad yn eu cyfeirio ato o fewn ei feysydd a'i feysydd cyfrifoldeb.[1]

9.9 Rhaid i bob Pwyllgor Pwnc gynnal rhaglenni gwaith treigl a fydd yn cynnwys cyfnodau o 12 mis o leiaf.  Rhaid i'r rhaglenni hyn nodi pynciau neu faterion o fewn cylch gwaith y Pwyllgor sydd i gael sylw manwl (gan gymryd i ystyriaeth waith arall y Pwyllgor o dan Reolau Sefydlog 9.7 a 9.8 a'r materion brys hynny a fydd yn codi o bryd i'w gilydd). Rhaid i'r Pwyllgorau Pwnc wahodd sylwadau Pwyllgorau eraill a Chabinet y Cynulliad ar eu rhaglenni drafft, a rhoi sylw i'r sylwadau a geir cyn penderfynu ar eu gwedd derfynol. Rhaid i bob Pwyllgor Pwnc hysbysu'r Cynulliad ynglŷn â'i raglenni, a rhaid iddo adrodd i'r Cynulliad o bryd i'w gilydd ar hynt y gwaith o'u cyflawni.

**Cyfarfodydd y Pwyllgorau Pwnc**

9.10 Rhaid i gadeirydd pob Pwyllgor Pwnc bennu'r agendâu ar gyfer ei gyfarfodydd, a chyfarfodydd is-bwyllgorau, gan ymgynghori â'r Gweinidog perthnasol;  ond caiff y Gweinidog fynnu bod eitemau penodol yn cael eu trafod mewn cyfarfodydd Pwyllgor Pwnc neu is-Bwyllgor.   Ar gais unrhyw ddau o'i aelodau, caiff y Pwyllgor benderfynu cynnwys eitem o fusnes ar agenda cyfarfod penodol yn y dyfodol.

9.11 O bryd i'w gilydd rhaid i'r Gweinidog adrodd ar faterion sy'n ymwneud â chyflawni ei gyfrifoldebau ef neu ei chyfrifoldebau hi; ond caiff aelod o Bwyllgor Pwnc gynnig y dylai'r Gweinidog roi adroddiad llafar neu ysgrifenedig i'r Pwyllgor ar fater penodol o fewn cylch gwaith y Pwyllgor, ac os bydd y pwyllgor yn penderfynu felly, rhaid i'r Gweinidog gyflwyno adroddiad ar y mater o fewn cyfnod y cytunir arno gyda'r cadeirydd.

9.12  Caiff cadeirydd Pwyllgor Pwnc, ar ôl ymgynghori â'r Llywydd, alw cyfarfod o'r pwyllgor mewn wythnos pan na fydd y Cynulliad yn cynnal cyfarfod llawn er mwyn ystyried mater brys o bwys cyhoeddus.

**Mynychu Cyfarfodydd**

9.13 Caiff aelodau nad ydynt yn aelodau o Bwyllgor Pwnc fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor pan fydd y rhain yn gyfarfodydd cyhoeddus. Drwy sicrhau caniatâd y cadeirydd ymlaen llaw, cânt gyflwyno sylwadau byr ar eitemau unigol o fusnes y Pwyllgor sy'n

cyffwrdd â buddiannau penodol etholaeth neu ranbarth cyn i'r drafodaeth am y rheiny ddod i ben, ond ni chânt bleidleisio. Caiff Gweinidog nad yw'n aelod o Bwyllgor Pwnc penodol fynychu cyfarfod y Pwyllgor hwnnw lle bydd gan y mater o dan sylw gysylltiad agos â'i gyfrifoldebau ef neu ei chyfrifoldebau hi neu ei atebolrwydd ef neu ei hatebolrwydd hi[1], a chaiff gymryd rhan yn y cyfarfod gyda chaniatâd y cadeirydd.

9.14 Caniateir i aelod o Bwyllgor sydd wedi rhoi hysbysiad ymlaen llaw i'r cadeirydd gael ei gynrychioli mewn cyfarfod, neu ran o gyfarfod, Pwyllgor Pwnc gan Aelod arall o'r un grŵp gwleidyddol sydd wedi'i enwi ymlaen llaw. Wrth roi'r cyfryw hysbysiad, rhaid i'r Aelod nodi'r rheswm dros yr angen am gael rhywun i gymryd ei le. Caiff yr aelod a enwebir gymryd rhan yn y cyfarfod ym mhob agwedd fel pe bai ef neu hi yn aelod o'r Pwyllgor. Ni chaiff unrhyw Aelod gynrychioli mwy nag un aelod Pwyllgor mewn cyfarfod.

9.15 Caiff Pwyllgor Pwnc wahodd aelodau Pwyllgor Materion Cymreig Ty'r Cyffredin i fynychu a chymryd rhan yn ei drafodion (ond nid i bleidleisio).[1]

**Gwysio Tystion a Dangos Dogfennau**

9.15A Caiff Pwyllgor Pwnc, ac is-bwyllgor i Bwyllgor Pwnc, arfer y pwerau yn adrannau 74 a 75 o'r Ddeddf.

9.16 Caiff aelod o'r Pwyllgor neu'r is-bwyllgor wneud cynnig i'w gwneud yn ofynnol i dystion fynychu neu i'w gwneud yn ofynnol dangos dogfennau. Rhaid i unrhyw gynnig o'r fath enwi'r personau y bydd yn ofynnol iddynt fynychu a'r dogfennau y bydd yn ofynnol iddynt gael eu dangos.

9.17 Pan fydd Pwyllgor neu is-bwyllgor wedi penderfynu ei gwneud yn ofynnol i dystion fynychu neu i'w gwneud yn ofynnol bod dogfennau yn cael eu dangos, rhaid i'r cadeirydd hysbysu'r Llywydd ynglŷn â thelerau'r penderfyniad, a gofyn i'r Llywydd roi hysbysiad ysgrifenedig i unrhyw bersonau perthnasol. Rhaid i'r cyfryw hysbysiad gynnwys yr wybodaeth a bennir yn adran 74(6) o'r Ddeddf, a chydymffurfio â gofynion adran 74(7).

9.18 Caniateir ei gwneud yn ofynnol i berson y gwnaed yn ofynnol iddo fod yn bresennol dyngu llw (neu roi cadarnhad). Lle bydd llw i'w weinyddu o dan y Rheol Sefydlog hon, rhaid iddo fod ar y ffurf ganlynol:

> "Tyngaf i Dduw Hollalluog y bydd y dystiolaeth a roddaf yn eirwir ac yn onest, ac y byddaf yn rhoi i'r Pwyllgor neu'r is-bwyllgor bob gwybodaeth a chymorth ag a allaf i'w alluogi i gyflawni ei gyfrifoldebau",

ond lle bo'n well gan y sawl sy'n rhoi'r dystiolaeth roi cadarnhad, rhaid i'r cadarnhad fod ar y ffurf ganlynol:

> "Yr wyf yn datgan yn ddifrifol, yn ddiffuant ac yn ddidwyll y bydd y dystiolaeth a roddaf yn eirwir ac yn onest, ac y byddaf yn rhoi i'r Pwyllgor neu'r is-bwyllgor bob gwybodaeth a chymorth ag a allaf i'w alluogi i gyflawni ei gyfrifoldebau".

1 Cytunwyd ar 15.6.04

## RHEOL SEFYDLOG 10 - Pwyllgorau Rhanbarth

10.1 Bydd pedwar Pwyllgor Rhanbarth ar gyfer ardaloedd daearyddol y fforymau economaidd rhanbarthol, sef:

(i) **Y Gogledd** - Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Ynys Môn, Wrecsam a'r rhan o Wynedd sy'n cynnwys cyn-ddosbarthau Arfon a Dwyfor;

(ii) **Y Canolbarth** - Ceredigion a Phowys a'r rhan o Wynedd sy'n cynnwys cyn ddosbarth Meirionnydd;

(iii) **Y De-Orllewin** - Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro, Abertawe;

(iv) **Y De-Ddwyrain** - Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Caerdydd, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Casnewydd, Rhondda Cynon Taf, Tor-faen, Bro Morgannwg.

10.2 Rhaid i'r Pwyllgorau Rhanbarth gynghori'r Cynulliad ynglŷn â materion sy'n effeithio ar eu rhanbarthau, effaith polisïau'r Cynulliad yn y rhanbarthau hynny a gwaith cyrff cyhoeddus yno. Rhaid i bob Pwyllgor gyfarfod yn ei ranbarth o leiaf ddwywaith bob blwyddyn. Rhaid iddo ethol ei gadeirydd a phenderfynu ar ei raglen waith. Ar gais unrhyw ddau o'i aelodau, caiff Pwyllgor Rhanbarth benderfynu cynnwys eitem o fusnes ar agenda cyfarfod penodol yn y dyfodol.

10.3 Aelodau'r Pwyllgor Rhanbarth fydd:

(i) yr Aelodau ar gyfer pob etholaeth o'r Cynulliad sydd wedi'i chynnwys yn gyfan gwbl neu'n rhannol yn nhiriogaeth y Pwyllgor; ac

(ii) unrhyw rai o'r Aelodau o ranbarth etholiadol y Cynulliad sydd wedi'i gynnwys yn gyfan gwbl neu'n rhannol yn nhiriogaeth y Pwyllgor ac sydd wedi'u hethol gan y Cynulliad i fod yn aelodau o'r Pwyllgor.

10.4 Caiff y Llywydd a'r Dirprwy fod yn aelodau o'r Pwyllgorau Rhanbarth perthnasol.

## RHEOL SEFYDLOG 11 - Y Pwyllgor Deddfau

**Teitl ac Aelodaeth**

11.1 Y "Pwyllgor Deddfau" fydd enw'r Pwyllgor y cyfeirir ato yn y Ddeddf fel "y Pwyllgor archwilio is-ddeddfwriaeth”. Yn dibynnu ar ofynion adran 59(2) o'r Ddeddf, bydd iddo o leiaf 7 ac nid mwy nag 11 o aelodau. Ni chaiff Aelod o Gabinet y Cynulliad fod yn aelod o’r Pwyllgor Deddfau.

11.2 Rhaid i’r Cynulliad un o aelodau’r Pwyllgor i’w gadeirio, ond ni chaniateir i Aelod sy’n cynrychioli’r blaid fwyaf sydd a rôl gweithredol wneud hynny.

**Cyfrifoldebau**

11.3 Rhaid i’r Pwyllgor ystyried unrhyw Orchymyn Cynulliad arfaethedig a osodir gerbron y Cynulliad, ac adrodd i'r Cynulliad a ddylai roi sylw arbennig i'r Gorchymyn ar unrhyw un o'r seiliau a bennir yn Rheol Sefydlog 11.7.

11.4 Rhaid i’r Pwyllgor hefyd ystyried unrhyw is-ddeddfwriaeth Cynulliad arall a gyfeirir ato:

(i) y gall y Cynulliad ei gwneud, neu

(ii) y gellir gofyn i'r Cynulliad ei chadarnhau neu ei chymeradwyo;

a rhaid iddo adrodd i'r Cynulliad a ddylai roi sylw arbennig i'r is-ddeddfwriaeth ar unrhyw un o'r seiliau a bennir yn Rheol Sefydlog 11.7.

11.5 Rhaid i’r Pwyllgor gyflwyno adroddiad blynyddol i’r Cynulliad.

**Ystyried Is-ddeddfwriaeth**

11.6 Cyn adrodd i'r Cynulliad y dylai roi sylw arbennig i unrhyw Orchymyn Cynulliad neu is-ddeddfwriaeth arfaethedig arall, rhaid i’r cadeirydd hysbysu’r Gweinidog a'i gosododd gerbron y Cynulliad bod y Pwyllgor yn bwriadu gwneud adroddiad o'r fath, a rhaid iddo roi cyfle i’r Gweinidog roi tystiolaeth i'r Pwyllgor, ac ateb unrhyw gwestiynau y mae wedi’u codi, naill ai ar lafar neu yn ysgrifenedig.

**Seiliau dros Dynnu Sylw Arbennig y Cynulliad at Is-ddeddfwriaeth**

11.7 Dyma'r seiliau dros wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i Orchymyn Cynulliad neu is-ddeddfwriaeth arfaethedig arall:

(i) os yw'n ymddangos bod amheuaeth a yw'r is-ddeddfwriaeth o fewn pwerau'r Cynulliad neu os yw'n ymddangos ei bod yn gwneud defnydd anarferol neu annisgwyl o'r pwerau y mae'n cael ei gwneud o danynt;

(ii) os yw'r Ddeddf Seneddol neu'r offeryn arall sy'n rhoi'r pŵer i'r Cynulliad wneud yr is-ddeddfwriaeth yn cynnwys darpariaethau penodol sy'n ei heithrio rhag cael ei herio yn y llysoedd;

(iii) os yw'n ymddangos bod iddynt effaith ôl-weithredol lle nad yw'r Ddeddf Seneddol neu'r offeryn awdurdodi arall yn rhoi awdurdod pendant ar gyfer hyn;

(iv) os oes angen eglurhad pellach ynglŷn â'u ffurf neu eu hystyr am unrhyw reswm arbennig;

(v) os yw'n ymddangos bod y drafftio'n ddiffygiol neu fod yr offeryn yn methu â bodloni gofynion statudol neu ofynion cyfreithiol eraill; neu

(vi) os yw'n ymddangos bod anghysondebau rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg.

**Dirprwyo Swyddogaethau'r Pwyllgor Deddfau**

11.8 Lle bydd unrhyw ddiwygiad i Orchymyn Cynulliad drafft wedi'i gymeradwyo drwy benderfyniad y Cynulliad a bod y Gorchymyn drafft diwygiedig yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Deddfau ei ystyried ymhellach, rhaid bod naill ai:

(i) cadeirydd y Pwyllgor Deddfau; neu

(ii) unrhyw aelod arall o'r Pwyllgor a awdurdodir gan y cadeirydd

yn cyflawni swyddogaethau'r Pwyllgor a bennir yn y Rheol Sefydlog hon.

11.9 Ni fydd darpariaethau Rheol Sefydlog 11.6 yn gymwys os bydd gan y cadeirydd ac unrhyw aelodau a awdurdodir i gyflawni swyddogaethau'r cadeirydd fuddiant o fath a bennir yn yr Atodiad i Reol Sefydlog 4.

## RHEOL SEFYDLOG 12 - Y Pwyllgor Archwilio

### Aelodaeth

12.1 Rhaid i'r Pwyllgor Archwilio gynnwys o leiaf 7 ac nid mwy nag 11 o Aelodau a chael ei gadeirio gan aelod o grŵp gwleidyddol nad yw wedi'i gynrychioli yng Nghabinet y Cynulliad. Ni chaiff aelod o Gabinet y Cynulliad fod yn aelod o'r Pwyllgor Archwilio.

### Cyfrifoldebau

12.2 Rhaid i'r Pwyllgor:

(i) arfer y swyddogaethau a nodir yn adran 93(6)-(7) o'r Ddeddf ynglŷn ag amcangyfrifon a gyflwynir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru;

(ii) cyflwyno sylwadau i Archwilydd Cyffredinol Cymru o bryd i'w gilydd ar y ffordd y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn arfer ei bwerau i wneud ymchwiliadau i ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau;

(iii) arfer unrhyw swyddogaethau sy'n ymwneud â chymeradwyo cyrff cyfrifwyr a ddirprwyir iddo gan y Cynulliad o dan adran 94(4); a

(iv) cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cynulliad ar waith y Pwyllgor.

12.3 Caiff y Pwyllgor:

(i) adrodd i'r Cynulliad yn unol ag adran 102(1) o'r Ddeddf ar ddogfennau a osodir ger ei fron gan Archwilydd Cyffredinol Cymru neu archwilydd y swyddog hwnnw; a

(ii) cymryd tystiolaeth ac adrodd i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin os gofynnir iddo wneud hynny gan y Pwyllgor hwnnw.

12.4 Wrth gyflawni ei gyfrifoldebau o dan Reol Sefydlog 12.3(i) rhaid i'r Pwyllgor beidio ag amau rhagoriaethau amcanion polisi'r Cynulliad nac amcanion polisi unrhyw gorff neu berson arall sy'n destun adroddiad gan y Pwyllgor.

12.5 Pan fydd y Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 12.3(i) rhaid iddo anfon copi at Brif Weinidog Cymru. Os bydd yr adroddiad yn ymwneud ag unrhyw fater sy'n rhan o gyfrifoldebau Pwyllgor y Tŷ, rhaid iddo anfon ar yr un pryd gopi i gadeirydd y Pwyllgor hwnnw. Cyn pen 30 diwrnod gwaith ar ôl i Brif Weinidog Cymru gael yr adroddiad, rhaid i Weinidog, os yw'r adroddiad yn ymwneud â mater y mae'r Gweinidog yn atebol neu'n gyfrifol amdano i'r Cynulliad, osod gerbron y Cynulliad ymateb i adroddiad y Pwyllgor Archwilio ar ran Cabinet y Cynulliad, ac os yw'r ymateb hwnnw'n un interim, rhaid i'r Gweinidog osod ymateb terfynol gerbron y Cynulliad cyn pen dau fis pellach. I'r graddau y mae adroddiad y Pwyllgor Archwilio'n ymwneud â materion sy'n rhan o gyfrifoldebau Pwyllgor y Tŷ, yna cyn pen 30 diwrnod gwaith ar ôl i'r cadeirydd gael copi o'r adroddiad hwnnw, rhaid i aelod o Bwyllgor y Tŷ, ar ran y Pwyllgor hwnnw, osod gerbron y Cynulliad ymateb i adroddiad y Pwyllgor Archwilio; ac os bydd yr ymateb

hwnnw'n un interim, rhaid i aelod o Bwyllgor y Tŷ osod ymateb terfynol gerbron y Cynulliad cyn pen dau fis pellach.

**Cyfarfodydd**

12.6 Rhaid i'r Pwyllgor benderfynu ar ei raglen waith drwy ymgynghori ag Archwilydd Cyffredinol Cymru. Caiff yr Archwilydd Cyffredinol fynychu cyfarfodydd preifat y Pwyllgor, gyda chaniatâd y cadeirydd neu ar ei gais.

12.7 Ni chaiff unrhyw aelod o'r Pwyllgor gymryd rhan yn ystyriaeth y Pwyllgor ar unrhyw fater os oedd ef neu hi yn aelod o Gabinet y Cynulliad ar yr adeg berthnasol (neu os yw'r mater yn rhan o gyfrifoldebau Pwyllgor y Tŷ, os oedd ef neu hi ar yr adeg berthnasol yn aelod o Bwyllgor y Tŷ wedi'i ailgyfansoddi ar ôl 18.12.02).

12.8 Caiff y Llywydd gyhoeddi canllawiau i'r aelodau ar osgoi gwrthdrawiadau buddiannau wrth iddynt gymryd rhan yng ngweithgareddau'r Pwyllgor Archwilio.

12.9 Os yw'r cadeirydd wedi'i anghymhwyso rhag cymryd rhan yn ystyriaeth y Pwyllgor ar unrhyw fater o dan y Rheolau Sefydlog neu'n tynnu'n ôl o ystyriaeth o'r fath yn wirfoddol, rhaid i'r Pwyllgor ethol aelod arall i'w gadeirio pryd bynnag y bydd y mater hwnnw'n cael ei ystyried. Ni chaiff y Pwyllgor ethol aelod o'r grŵp gwleidyddol mwyaf a gynrychiolir yng Nghabinet y Cynulliad yn gadeirydd dros dro.

12.10 Caniateir i aelod o'r Pwyllgor sydd wedi rhoi hysbysiad ymlaen llaw i'r Cadeirydd gael ei gynrychioli gan aelod o'r un grŵp gwleidyddol sydd wedi'i enwi ymlaen llaw yn un o gyfarfodydd y Pwyllgor neu mewn rhan o un o'i gyfarfodydd. Wrth roi'r cyfryw hysbysiad, rhaid i'r Aelod nodi'r rheswm dros yr angen am gael rhywun i gymryd ei le. . Rhaid i'r aelod a enwebir beidio â bod yn aelod o Gabinet y Cynulliad. Caiff yr aelod a enwebir gymryd rhan yn y cyfarfod ym mhob agwedd fel pe bai ef neu hi yn aelod o'r Pwyllgor. Ni chaiff unrhyw Aelod gynrychioli mwy nag un aelod Pwyllgor mewn cyfarfod.

**Gwysio Tystion a Dangos Dogfennau**

12.11 Wrth baratoi unrhyw adroddiadau, rhaid i'r Pwyllgor gymryd tystiolaeth yn ôl yr angen gan Brif Swyddog Cyfrifo y Cynulliad neu gan Swyddogion Cyfrifo eraill a chanddynt gyfrifoldebau sy'n berthnasol i'r materion o dan sylw.

12.12 Yn unol ag adran 74 o'r Ddeddf, caiff y Pwyllgor benderfynu ei gwneud yn ofynnol i dystion fynychu neu i'w gwneud yn ofynnol bod dogfennau yn cael eu dangos. Rhaid i unrhyw gynnig o'r fath enwi'r personau y mae'n ofynnol iddynt fynychu neu'r dogfennau sydd i'w dangos.

12.13 Pan fydd y Pwyllgor wedi penderfynu ei gwneud yn ofynnol i dystion fynychu neu i'w gwneud yn ofynnol bod dogfennau yn cael eu dangos, rhaid i'r cadeirydd hysbysu'r Llywydd ynglŷn â thelerau'r penderfyniad, a gofyn i'r Llywydd roi hysbysiad ysgrifenedig i unrhyw bersonau perthnasol. Rhaid i'r cyfryw hysbysiad gynnwys yr wybodaeth a bennir yn adran 74(6) o'r Ddeddf, a chydymffurfio â gofynion adran 74(7).

12.14 Gall fod yn ofynnol i berson y gwnaed yn ofynnol iddo fynychu'r Pwyllgor Archwilio dyngu llw (neu roi cadarnhad). Os bydd unrhyw un o'r swyddogion a bennir yn

adran 75(1)(a) o’r Ddeddf yn absennol, neu os yw’r cadeirydd wedi’i ddatgymhwyso rhag cymryd rhan wrth i'r Pwyllgor ystyried y mater o dan Reol Sefydlog 12.7, caiff cadeirydd dros dro y Pwyllgor weinyddu’r llw (neu’r cadarnhad).

12.15 Lle bydd llw i’w dyngu neu gadarnhad i’w wneud o dan Reol Sefydlog 12.14, rhaid iddo fod ar y ffurf a nodir yn Rheol Sefydlog 9.18.

# RHEOL SEFYDLOG 13 - Y Pwyllgor Busnes

## Teitl a Chylch Gwaith

13.1 Bydd Pwyllgor Busnes, a rhaid iddo:

(i) cynghori'r Trefnydd ar reoli busnes y Cynulliad;

(ii) cynghori'r Dirprwy ar arfer ei swyddogaethau o dan Reol Sefydlog 24 (gweithdrefnau is-ddeddfwriaeth); a

(iii) cyflwyno i'r Cynulliad y cyfryw argymhellion ag y gwêl yn dda ar arferion a threfn gyffredinol y Cynulliad wrth gynnal ei fusnes (gan gynnwys unrhyw gynigion ar gyfer diwygio'r Rheolau Sefydlog).

## Aelodaeth

13.2 Rhaid i'r Cynulliad ethol un Aelod o bob grŵp gwleidyddol yn y Cynulliad i'r Pwyllgor, ynghyd ag Aelod arall i'w gadeirio. Os etholir Aelod ar wahân i'r Dirprwy i gadeirio'r Pwyllgor, bydd gan y Dirprwy hawl i fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor.

13.3 Caniateir i aelod o Bwyllgor sydd wedi rhoi hysbysiad ymlaen llaw i'r cadeirydd gael ei gynrychioli mewn cyfarfod, neu ran o gyfarfod, o'r Pwyllgor gan Aelod arall o'r un grŵp gwleidyddol sydd wedi'i enwi ymlaen llaw. Wrth roi'r cyfryw hysbysiad, rhaid i'r Aelod nodi'r rheswm dros yr angen am gael rhywun i gymryd ei le. Caiff yr aelod a enwebir gymryd rhan yn y cyfarfod ym mhob agwedd fel pe bai ef neu hi yn aelod o'r Pwyllgor.

## Cyfarfodydd

13.4 Rhaid i'r Pwyllgor gyfarfod bob wythnos y bydd y Cynulliad yn cynnal cyfarfod llawn. Rhaid iddo gyfarfod yn breifat .

13.5 Ni fydd y darpariaethau yn y Rheolau Sefydlog hyn sy'n ymwneud â chworymau ar gyfer Pwyllgorau neu bleidleisio mewn Pwyllgorau yn gymwys i'r Pwyllgor.

## RHEOL SEFYDLOG 14 - Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal

### Teitl a Chylch Gwaith

14.1 Bydd Pwyllgor Cyfle Cyfartal, a rhaid iddo archwilio trefniadau'r Cynulliad ar gyfer hybu, wrth arfer ei swyddogaethau a chynnal ei fusnes, egwyddor cyfle cyfartal ar gyfer pawb. Rhaid i'r Pwyllgor hefyd roi sylw arbennig i'r angen i'r Cynulliad osgoi gwahaniaethu yn erbyn unrhyw berson ar sail hil, rhyw neu anabledd.

14.2 Rhaid i'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cynulliad ar y trefniadau hynny a'u heffeithiolrwydd. Rhaid iddo hefyd adolygu'r Adroddiadau Blynyddol a gyflwynir i'r Cynulliad gan gyrff cyhoeddus sy'n ymwneud â hybu cyfle cyfartal ac adrodd ei gasgliadau am yr adroddiadau hynny i'r Cynulliad.

### Aelodaeth

14.3 Rhaid i'r Cynulliad ethol aelodau'r Pwyllgor gan dalu sylw i'r fantais o gael cynrychiolaeth o bob Pwyllgor Pwnc ar y Pwyllgor a sicrhau, cyn belled ag y bo'n ymarferol, fod cydbwysedd y grwpiau gwleidyddol yn y Cynulliad yn cael ei adlewyrchu yn ei aelodaeth. Rhaid i'r Cynulliad ethol un o aelodau'r Pwyllgor i gadeirio'r Pwyllgor ond ni chaiff ei gadeirio gan Weinidog.

14.4 Caniateir i aelod o'r Pwyllgor sydd wedi rhoi hysbysiad ymlaen llaw i'r cadeirydd gael ei gynrychioli mewn cyfarfod, neu ran o gyfarfod, o'r Pwyllgor gan Aelod arall o'r un grŵp gwleidyddol sydd wedi'i enwi ymlaen llaw. Wrth roi'r cyfryw hysbysiad, rhaid i'r Aelod nodi'r rheswm dros yr angen am gael rhywun i gymryd ei le. Caiff yr aelod a enwebir gymryd rhan yn y cyfarfod ym mhob agwedd fel pe bai ef neu hi yn aelod o'r Pwyllgor. Ni chaiff unrhyw Aelod gynrychioli mwy nag un aelod Pwyllgor mewn cyfarfod.

14.5 Caiff aelodau nad ydynt yn aelodau o Bwyllgor Pwnc fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor pan fydd y rhain yn gyfarfodydd cyhoeddus. Cyn unrhyw gyfarfod, caiff y cyfryw Aelodau Cynulliad sydd â buddiannau etholaethol neu ranbarthol penodol i fynd ar eu trywydd mewn perthynas â gwaith y Pwyllgor geisio caniatâd y cadeirydd i wneud sylwadau i'r Pwyllgor yn y cyfarfod hwnnw; ond ni chânt bleidleisio. Hefyd, caiff Aelodau Cynulliad ysgrifennu at y cadeirydd a gofyn bod eu sylwadau ar unrhyw agwedd ar waith y Cynulliad yn cael eu cyflwyno i'w hystyried gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod nesaf; a rhaid i'r cadeirydd drefnu i'r cyfryw gyflwyno ddigwydd.

14.6 Heb ragfarnu Rheol Sefydlog 8.17, rhaid i'r Pwyllgor, o bryd i'w gilydd, benodi'r cynghorwyr y bydd eu hangen arno er mwyn i sylwadau grwpiau lleiafrifol neu grwpiau dan anfantais allu cael eu cyflwyno iddo.

### Adroddiadau

14.7 Yn ogystal â chyflwyno ei adroddiad blynyddol caiff y Pwyllgor gyflwyno adroddiadau eraill i'r Cynulliad o bryd i'w gilydd.

## RHEOL SEFYDLOG 15 - Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol

### Teitl a Chylch Gwaith

15.1 Bydd Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol, a rhaid iddo gadw llygad:

(i) ar berthynas y Cynulliad â rhanbarthau, cenhedloedd eraill a sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd, a'i ddulliau o hysbysu a chynghori'r sefydliadau am anghenion Cymru;

(ii) ar drefniadau'r Cynulliad ar gyfer cysylltu ag UKREP, a chydag adrannau llywodraeth y Deyrnas Unedig am faterion Ewropeaidd;

(iii) ar ddulliau a threfn y Cynulliad ar gyfer ystyried dogfennau, materion a chwestiynau sy'n deillio o sefydliadau Ewropeaidd, gan dalu sylw arbennig i'r angen am gysylltu ag Aelodau Seneddol sy'n gyfrifol am graffu ar faterion Ewropeaidd sy'n berthnasol i Gymru yn benodol;

(iv) ar berthynas y Cynulliad â rhanbarthau a chenhedloedd y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd ac ymwneud y Cynulliad â chyrff Ewropeaidd a rhyngwladol.

15.2 Rhaid i'r Pwyllgor fonitro effaith gyffredinol a chanlyniadau'r polisïau a ddilynir gan sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd ar gyfer Cymru, a sicrhau bod yna gysylltu digonol ag Aelodau Senedd Ewrop sy'n cynrychioli Cymru a chynrychiolwyr Cymru ar Bwyllgor y Rhanbarthau.

15.3. Rhaid i'r Pwyllgor osgoi dyblygu gwaith Pwyllgorau Pwnc, ond caiff dynnu sylw Pwyllgorau Pwnc perthnasol at faterion penodol, ac os yw'r Pwyllgor Pwnc perthnasol yn cytuno, caiff ystyried unrhyw fater sy'n dod o dan Rheolau Sefydlog 15.1 neu 15.2 sydd fel arall yn gyfan gwbl o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Pwnc hwnnw. Caiff y Pwyllgor asesu arwyddocâd deddfwriaeth Ewropeaidd arfaethedig sy'n effeithio ar Gymru sy'n dod o fewn cylch gwaith mwy nag un Pwyllgor Pwnc a chyflwyno adroddiad amdano pan fo rhaid.

15.4 Rhaid i'r Pwyllgor ystyried oblygiadau deddfwriaeth Ewropeaidd arfaethedig o ran is-reolaeth, neu drefnu iddo gael ei ystyried, ac fe fydd yn cysylltu â Senedd y DU a chyrff deddfwriaethol datganoledig eraill wrth ystyried yr oblygiadau hyn.

### Aelodaeth

15.5 Rhaid i'r Cynulliad ethol aelodau'r Pwyllgor gan dalu sylw i'r fantais o gael cynrychiolaeth o bob Pwyllgor Pwnc ar y Pwyllgor a sicrhau, cyn belled ag y bo'n ymarferol, fod cydbwysedd y grwpiau gwleidyddol yn y Cynulliad yn cael ei adlewyrchu yn ei aelodaeth. Rhaid i'r Cynulliad ethol un o aelodau'r Pwyllgor i gadeirio'r Pwyllgor ond ni chaiff ei gadeirio gan Weinidog.

15.6 Caniateir i aelod o'r Pwyllgor sydd wedi rhoi hysbysiad ymlaen llaw i'r Cadeirydd gael ei gynrychioli gan aelod o'r un grŵp gwleidyddol sydd wedi'i enwi ymlaen llaw yn un o gyfarfodydd y Pwyllgor neu mewn rhan o un o'i gyfarfodydd. Wrth roi'r cyfryw hysbysiad, rhaid i'r Aelod nodi'r rheswm dros yr angen am gael rhywun i gymryd ei le. Caiff yr aelod a enwebir gymryd rhan yn y cyfarfod ym mhob agwedd fel pe bai ef neu hi

yn aelod o'r Pwyllgor.  Ni chaiff unrhyw Aelod gynrychioli mwy nag un aelod Pwyllgor mewn cyfarfod.

15.7 Caiff Aelodau Senedd Ewrop sy'n cynrychioli Cymru a chynrychiolwyr y Cynulliad ar Bwyllgor y Rhanbarthau fod yn bresennol, a chyda chaniatâd y cadeirydd, cânt siarad yng nghyfarfodydd y Pwyllgor pan gynhelir y rheiny yn gyhoeddus, ond ni chânt bleidleisio.

**Adroddiadau**

15.8 Rhaid i’r Pwyllgor adrodd i’r Cynulliad o bryd i’w gilydd.

## RHEOL SEFYDLOG 16 - Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

**Teitl a Chylch Gwaith**

16.1 Bydd Pwyllgor Safonau Ymddygiad, a rhaid iddo:

(i) ymchwilio i unrhyw gŵyn a gyfeirir ato gan y Llywydd, adrodd ar y gŵyn honno ac, os bydd yn briodol, argymell y camau y dylid eu cymryd mewn perthynas â'r gŵyn, fod Aelod heb gydymffurfio â Rheol Sefydlog 4 neu unrhyw benderfyniad gan y Cynulliad ynglŷn â buddiannau ariannol neu fuddiannau eraill yr Aelodau, neu fod Gweinidog heb gydymffurfio â gofynion Rheol Sefydlog 2.8.

(ii) ymchwilio i unrhyw gŵyn a gyfeirir ato gan y Llywydd, adrodd ar y gŵyn honno ac, os bydd yn briodol, argymell y camau y dylid eu cymryd mewn perthynas â'r gŵyn fod Aelod heb gydymffurfio ag unrhyw benderfyniad gan y Cynulliad ynglŷn â safonau ymddygiad yr Aelodau, neu'r canllawiau i'r Gweinidogion y bydd y Cynulliad wedi'u cymeradwyo yn unol â Rheol Sefydlog 2.7, neu'r Cod Ymddygiad o dan Reol Sefydlog 18.14;

(iii) ystyried unrhyw fater o egwyddor ynglŷn ag ymddygiad Aelodau yn gyffredinol;

(iv) goruchwylio'r trefniadau ar gyfer llunio Cofrestr Buddiannau'r Aelodau, a ffurf a chynnwys y Gofrestr, a'r trefniadau ar gyfer cadw'r Gofrestr a sicrhau ei bod yn hygyrch; ac

(v) cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cynulliad ar y cwynion a wnaed i'r Llywydd o dan (i) a (ii) a'r camau a gymerwyd, ac ar ei gasgliadau ynglŷn â safonau moesegol wrth gynnal busnes y Cynulliad.

**Aelodaeth**

16.2 Rhaid i'r Cynulliad ethol Aelod i gadeirio'r Pwyllgor, ynghyd ag Aelodau eraill a etholir cyn belled ag y bo'n ymarferol i adlewyrchu cydbwysedd y grwpiau gwleidyddol yn y Cynulliad. Rhaid i'r Llywydd beidio â bod yn aelod o'r Pwyllgor, ond bydd ganddo ef neu ganddi hi hawl i fod yn bresennol mewn unrhyw gyfarfod Pwyllgor, neu i gyflwyno papurau iddo, er mwyn tynnu ei sylw at unrhyw ystyriaethau y mae'n ystyried yn briodol.

**Cynghorydd Annibynnol**

16.3 Rhaid i'r Cynulliad benodi person nad yw'n Aelod o'r Cynulliad nac yn aelod o'i staff i roi cyngor a chymorth i'r Llywydd ar unrhyw fater ynglŷn ag ymddygiad yr Aelodau; a chaiff y Pwyllgor, yn ogystal â phenodi ei gynghorydd ei hun fel y bo'n briodol o dan Reol Sefydlog 8.17, wahodd y sawl a benodir gan y Cynulliad i ymchwilio i faterion ffeithiol sy'n codi o unrhyw fater dan sylw.

**Cyfarfodydd**

16.4 Rhaid i’r Pwyllgor gyfarfod cyn gynted ag y bo modd ar ôl i gŵyn gael ei chyflwyno iddo gan y Llywydd; ac ar adegau eraill yn ôl fel y bydd y cadeirydd yn ei gynnull.

16.5 Caiff y Pwyllgor gyfarfod yn gyhoeddus neu’n breifat, ond wrth ystyried cŵyn, rhaid i’r Pwyllgor gyfarfod yn breifat oni fydd yn penderfynu fel arall. Os bydd ef neu hi'n gofyn am hynny, caniateir i unrhyw Aelod sydd neu a all fod yn destun ymchwiliad gan y Pwyllgor gyflwyno sylwadau llafar neu ysgrifenedig iddo a chaiff person arall (a gaiff gymryd rhan yn y trafodion gyda chaniatâd y cadeirydd) fod yn bresennol gydag ef neu hi mewn gwrandawiadau llafar.

16.6 Caiff y cadeirydd, ar ôl ymgynghori â’r Llywydd, alw cyfarfod o’r pwyllgor mewn wythnos pan na fydd y Cynulliad yn cynnal cyfarfod llawn er mwyn ystyried mater brys o bwys cyhoeddus.

**Adroddiadau**

16.7 Os bydd y Pwyllgor wedi ymchwilio i gŵyn sydd wedi'i chyfeirio ato gan y Llywydd, rhaid iddo adrodd i’r Cynulliad cyn gynted ag y bo modd ar ôl cwblhau’r ymchwiliad. Caiff y Pwyllgor adrodd i’r Cynulliad ar faterion eraill o fewn ei gylch gwaith o bryd i’w gilydd.

## RHEOL SEFYDLOG 17 – Pwyllgorau Penderfyniadau Cynllunio

**Cymhwyso**

17.1 Mae'r Rheol Sefydlog hon yn llywodraethu dull y Cynulliad ar gyfer penderfynu sut mae gweithredu mewn cysylltiad â'r canlynol:

(i) Apelau o dan adran 78 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (yn yr achosion hynny lle bydd y Cynulliad wedi adfeddiannu awdurdod ar gyfer penderfynu'r apêl oddi wrth yr Arolygydd penodedig);

(ii) Ceisiadau am ganiatâd cynllunio sydd wedi'u galw i mewn gan y Cynulliad i'w penderfynu o dan adran 77 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990;

(iii) Ceisiadau am gadarnhau Gorchymyn a wnaed o dan Ddeddf Trafnidiaeth a Gwaith 1992.

17.2 Rhaid i apelau neu geisiadau a gwmpesir gan Reol Sefydlog 17.1 gael eu penderfynu gan Bwyllgor ('Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio') a etholir i'r diben hwnnw o dan y Rheol Sefydlog hon oni bai fod Rheol Sefydlog 17.8 yn gymwys ac, os felly, caiff y Cynulliad, drwy gynnig, ddirprwyo'r swyddogaeth berthnasol mewn dull gwahanol mewn perthynas â'r apelau neu geisiadau penodol hynny. Pan fydd nifer o apelau neu geisiadau yn destun adroddiad unigol gan Arolygydd, rhaid i'r cynnig sy'n ethol y Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio awdurdodi'r Pwyllgor hwnnw i benderfynu'r holl apelau neu geisiadau hynny. Lle bydd yn hwylus gwneud hynny, caniateir i gynnig awdurdodi Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio i benderfynu mwy nag un apêl neu gais sydd heb fod yn destun adroddiad unigol gan Arolygydd. Yn y cyfryw achos, mae'r cyfeiriad yn Rheol Sefydlog 17.16 at lofnodi llythyr penderfynu yn golygu llofnodi'r llythyr penderfynu yn yr holl apelau neu geisiadau y mae wedi'i awdurdodi i'w penderfynu.

**Cychwyn y Weithdrefn**

17.3 Pan fydd y Gweinidog sy'n gyfrifol am faterion cynllunio ("y Gweinidog") yn cael adroddiad yr Arolygydd a benodwyd i ymchwilio i, a gwneud adroddiad ar, apêl neu gais a gwmpesir gan 17.1, rhaid i'r Gweinidog baratoi datganiad ysgrifenedig byr sy'n nodi lleoliad a natur y datblygiad y mae'n gysylltiedig ag ef a threfnu iddo fod ar gael i holl aelodau'r Panel Penderfyniadau Cynllunio ("y Panel") (fel y'i diffinnir yn Atodiad A i'r Rheol Sefydlog hon) ac i Glerc y Pwyllgor Cynulliad sy'n gyfrifol am faterion cynllunio ("Clerc y Pwyllgor").

**Ethol Pwyllgor**

17.4 Cyn pen deg diwrnod ar ôl i Glerc y Pwyllgor gael y datganiad a baratowyd o dan Reol Sefydlog 17.3, rhaid i Glerc y Pwyllgor roi i Drefnydd y Cynulliad enwau'r pedwar aelod o'r Panel sydd, ym marn Clerc y Pwyllgor, yn gymwys i wasanaethu ar y Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio yn unol ag Atodiad A i'r Rheol Sefydlog hon.

17.5 Bydd y darpariaethau a gynhwysir yn Atodiad A i'r Rheol Sefydlog hon yn dal yn weithredol (oni bai eu bod eisoes wedi cael eu dirymu) hyd nes bydd yr etholiad cyffredin

nesaf yn cael ei gynnal ar gyfer Aelodau'r Cynulliad. Cyn gynted ag y bo modd ar ôl cynnal y cyfryw etholiad, rhaid i'r Trefnydd gyflwyno i'r Pwyllgor Busnes gynnig am ffurf ar Atodiad A y bwriedir iddi ddal yn weithredol tan yr etholiad cyffredin nesaf a bydd y drefn ar gyfer diwygio'r Rheolau Sefydlog o dan Reol Sefydlog 37 yn gymwys i'r cynnig.

17.6 Pan fydd y Trefnydd yn cael enwau'r pedwar aelod o'r Panel y mae Clerc y Pwyllgor wedi rhoi gwybod amdanynt o dan Reol Sefydlog 17.4, rhaid i'r Trefnydd wneud y canlynol:

(i) cyflwyno cynnig yn unol â'r cynnig enghreifftiol a geir yn Atodiad B i'r Rheol Sefydlog hon yn gwahodd y Cynulliad i sefydlu Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio ac ethol y pedwar Aelod hwnnw iddo;

(ii) rhoi copi o'r cynnig i'r Dirprwy Lywydd ac aelodau'r Pwyllgor Busnes ar unwaith.

17.7 Rhaid i unrhyw gynnig a gyflwynir o dan Reol Sefydlog 17.6 gael ei ystyried gan y Cynulliad mewn cyfarfod llawn cyn gynted ag y bo modd, yn amodol ar ofynion Rheol Sefydlog 6.13. Ni chaniateir cynnig diwygiad i'r cyfryw gynnig. Rhaid i'r cynnig gael ei gynnig ac ar ôl iddo gael ei gynnig, rhaid iddo beidio â bod yn destun dadl ond rhaid pleidleisio arno yn syth.

17.8 Os bydd Clerc y Pwyllgor, am unrhyw reswm, heb allu llunio rhestr o bedwar Aelod neu os bydd cynnig a gyflwynir o dan Reol Sefydlog 17.6 (i) yn cael ei drechu, rhaid i'r Trefnydd, cyn gynted ag y bo modd, gyflwyno cynnig sy'n cynnig bod y Cynulliad yn dirprwyo, mewn rhyw ffordd arall, y swyddogaeth sy'n berthnasol i wneud y penderfyniad am yr apêl neu'r cais a bydd darpariaethau Rheol Sefydlog 17.6 (ii) a 17.7 yn gymwys i'r cyfryw gynnig ond caniateir gwneud gwelliannau iddo. Rhaid i'r cynnig ac unrhyw welliannau gael eu cynnig a rhaid peidio â chynnal dadl ar y cynnig nac ar unrhyw welliannau. Rhaid i'r Llywydd benderfynu trefn pleidleisio ar unrhyw welliannau. Os bydd y cyfryw gynnig, wedi'i wella neu beidio, yn cael ei drechu, rhaid i'r swyddogaeth a bennir ynddo gael ei dirprwyo i Brif Weinidog Cymru.

**Cymhwyso Rheol Sefydlog 8**

17.9 Dim ond y darpariaethau canlynol yn Rheol Sefydlog 8 fydd yn gymwys i Bwyllgor Penderfyniadau Cynllunio:

(i) Rheolau Sefydlog 8.8 i 8.16

(ii) Rheolau Sefydlog 8.21 ac 8.22

(iii) Rheolau Sefydlog 8.26

17.10 Er gwaethaf Rheol Sefydlog 17.9, rhaid i'r gofyniad yn adran 54 o'r Ddeddf, sef bod cydbwysedd y pleidiau yn y Cynulliad yn cael ei adlewyrchu, cyn belled ag y bo'n ymarferol, yn aelodaeth Pwyllgor, gael ei sicrhau drwy'r dull ar gyfer dethol aelodau Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio arfaethedig a nodir yn Atodiad A i'r Rheol Sefydlog hon.

**Ystyried gan Bwyllgor Penderfyniadau Cynllunio**

17.11 Rhaid dynodi pob Pwyllgor Apelau Cynllunio â chyfeirnod sy'n cynnwys blwyddyn ei ethol a rhif cyfresol.

17.12 Y Gweinidog fydd Cadeirydd y Pwyllgor, os yw'n aelod o Bwyllgor Penderfyniadau Cynllunio. Os nad yw'r Gweinidog yn aelod o'r Pwyllgor, rhaid i aelodau'r Pwyllgor ethol y Cadeirydd neu, os na fydd aelodau'r Pwyllgor yn gallu dod i gytundeb, rhaid i Gadeirydd y Pwyllgor sy'n gyfrifol am faterion cynllunio enwebu aelod i weithredu fel Cadeirydd. .

17.13 Caiff y Cadeirydd bleidleisio, ac os bydd pleidlais gyfartal caiff, ar ben hynny, arfer pleidlais fwrw, fel y barno'n ddoeth.

17.14 Rhaid i Bwyllgor Penderfyniadau Cynllunio gyfarfod yn breifat a bydd ei aelodau o dan ddyletswydd i gadw cyfrinachedd unrhyw drafodaeth gan y Pwyllgor ac unrhyw ddogfennau sy'n cael eu hystyried gan y Pwyllgor heblaw llythyr penderfyniad Pwyllgor ar ôl iddo gael ei fabwysiadu ynghyd ag unrhyw ddogfennau y mae'n cyfeirio atynt.

17.15 Caiff y Pwyllgor ofyn i aelodau o staff y Cynulliad fod yn bresennol yn eu cyfarfodydd at y dibenion canlynol:

(i) cael cyngor ganddynt

(ii) paratoi llythyr penderfyniad drafft sy'n rhoi rhesymau am eu penderfyniad

(iii) cofnodi penderfyniadau'r Pwyllgor.

17.16 Bydd swyddogaethau'r Pwyllgor yn peidio pan fydd y Cadeirydd yn llofnodi llythyr penderfyniad y mae'r Pwyllgor wedi penderfynu ei fabwysiadu. Lle na fydd llythyr penderfyniad wedi'i lofnodi ar neu cyn y dyddiad a bennir yn y cynnig a wnaeth sefydlu'r Pwyllgor, bydd y Pwyllgor yn peidio â bod. Fel arall, bydd y Pwyllgor yn peidio â bod pan fydd y Cadeirydd yn llofnodi'r llythyr penderfynu.

17.17 Caiff y Cadeirydd, ar ôl ymgynghori â'r Llywydd, alw cyfarfod o'r Pwyllgor mewn wythnos pan na fydd y Cynulliad yn cynnal cyfarfod llawn er mwyn iddo allu cyflawni ei swyddogaethau erbyn y dyddiad a bennwyd yn y cynnig a sefydlodd y Pwyllgor.

**Rheol Sefydlog 17 - Atodiad A**

**Amodau ar gyfer Aelodaeth o'r Panel Penderfyniadau Cynllunio**

1. Yr Aelodau Cynulliad sy'n aelodau o'r Panel Penderfyniadau Cynllunio yw'r rhai:

(a) sy'n aelodau o'r Pwyllgor Cynulliad sy'n gyfrifol am faterion cynllunio;

(b) sydd wedi gorffen cwrs hyfforddiant perthnasol a gymeradwyir gan Gadeirydd y Pwyllgor Cynulliad sy'n gyfrifol am faterion cynllunio; ac

(c) sydd wedi cytuno i gael eu rhwymo gan y Côd Ymddygiad cyfredol a gyhoeddir gan y Llywydd ar gyfer aelodau Pwyllgorau Cynllunio.

2. Bydd aelod o'r Panel yn cael ei ddatgymhwyso rhag bod yn aelod o Bwyllgor Penderfyniadau Cynllunio penodol:

(a) os bydd safle'r datblygiad y mae'r apêl neu'r cais yn gysylltiedig ag ef i'w gael yn llwyr neu'n rhannol yn etholaeth neu ranbarth etholiadol yr Aelod hwnnw; neu,

(b) os rhaid i'r Aelod â buddiant yn nhestun yr apêl neu'r cais y byddai'n ofynnol iddo neu iddi, petai'n cymryd rhan yn nhrafodion y Pwyllgor, ei ddatgan o dan Reol Sefydlog 4.6 neu a fyddai'n rhwystro'r Aelod rhag pleidleisio ar y testun hwnnw o dan Reol Sefydlog 4.8; neu,

(c) os bydd amgylchiadau eraill (fel y'u nodir yn y Cod Ymddygiad y cyfeirir ato ym mharagraff 1(c) uchod) y gellid eu hystyried yn rhywbeth a fyddai'n codi amheuon ynglŷn â gallu'r Aelod i ystyried yr apêl neu'r cais yn wrthrychol ac yn ddiduedd.

**Cydbwysedd y Pleidiau**

3. Er mwyn sicrhau y cydymffurfir â Rheol Sefydlog 17.10, rhaid i Glerc y Pwyllgor gadw rhestrau ar wahân (yn nhrefn yr wyddor os bydd rhestr yn cynnwys mwy nag un person) o aelodau'r Panel yn unol â'r grwpiau gwleidyddol y maent yn aelodau ohonynt, fel a ganlyn:

Rhestr A Y Blaid Lafur
Rhestr B Plaid Cymru
Rhestr C Y Blaid Geidwadol
Rhestr D Plaid y Democratiaid Rhyddfrydol

4. Pan fydd Clerc y Pwyllgor yn cael hysbysiad o dan Reol Sefydlog 17.3, bydd Clerc y Pwyllgor yn paratoi rhestr amodol o aelodau o'r Panel Penderfyniadau Cynllunio, y bydd Gweinidog yn un ohonynt, fydd yn cynnwys dau aelod o Restr A, un aelod o Restr B ac aelod o naill ai Restr C neu Restr D.

5. Wrth ddethol aelod (heblaw'r Gweinidog) o Restr A neu o Restr B bydd Clerc y Pwyllgor yn dethol enwau yn gylchredol ond bod aelod a fyddai wedi gwasanaethu ar Bwyllgor Penderfyniadau Cynllunio ond a ddatgymhwyswyd rhag gwneud hynny neu a

oedd fel arall heb allu gwasanaethu, yn cael ei drin fel yr aelod nesaf sydd i'w ddethol o'r rhestr honno.

6. Wrth ddethol yr aelod o naill ai Restr C neu D bydd Clerc y Pwyllgor yn dethol aelodau o'r ddwy restr bob yn ail, gan ddechrau gyda Rhestr C.

7. Bydd Clerc y Pwyllgor yn hysbysu pob Aelod y mae ei enw yn ymddangos ar restr dros dro o aelodau Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio, gan dynnu sylw at yr apêl neu'r cais sy'n berthnasol.

8. Bydd pob un o'r Aelodau a hysbysir, ar ôl edrych ar y datganiad a ddarperir o dan Reol Sefydlog 17.3, yn hysbysu Clerc y Pwyllgor wedyn, cyn pen dau ddiwrnod gwaith, a yw'r Aelod hwnnw wedi'i ddatgymhwyso o dan baragraff 2 uchod rhag gwasanaethu ar y Pwyllgor, neu a yw heb allu gwasanaethu fel arall, ac yn yr achos hwnnw bydd Clerc y Pwyllgor (yn amodol ar baragraff 10 isod) yn dethol enw'r Aelod nesaf o'r un rhestr (neu, yn achos Rhestrau C a D, enw'r Aelod o'r rhestr arall) a hysbysu'r Aelod hwnnw yn unol â pharagraff 7 uchod.

9. Os yw'r ddau Aelod o restrau C a D wedi'u datgymhwyso neu fel arall heb allu gwasanaethu, bydd Clerc y Pwyllgor yn dethol Aelod ychwanegol o Restr B.

10. Os bydd y Gweinidog wedi'i ddatgymhwyso neu fel arall heb allu gwasanaethu bydd Clerc y Pwyllgor yn dethol Cadeirydd y Pwyllgor Cynulliad sy'n gyfrifol am faterion cynllunio cyn unrhyw Aelod arall sydd ar yr un Rhestr.

11. Pan fydd Clerc y Pwyllgor wedi llunio rhestr o bedwar Aelod sydd heb eu datgymhwyso neu fel arall heb allu gwasanaethu, bydd Clerc y Pwyllgor yn hysbysu'r Trefnydd o dan Reol Sefydlog 17.4.

12. Os bydd Clerc y Pwyllgor, am unrhyw reswm, heb allu llunio'r cyfryw restr o bedwar Aelod, rhaid i Glerc y Pwyllgor hysbysu'r Trefnydd am y ffaith honno a'r rhesymau drosti.

**RHEOL SEFYDLOG 17 - Atodiad B**

**Cynnig Enghreifftiol sy'n Sefydlu Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio**

Penderfynir y canlynol:

1. Bydd Pwyllgor, a adwaenir fel Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio 1999/1, yn cael ei sefydlu, yn unol â Rheol Sefydlog 35, i gyflawni swyddogaethau'r Cynulliad o dan (adran 77 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 neu yn ôl y galw) mewn perthynas â'r mater(ion) a nodir yn yr Atodlen i'r cynnig hwn a bydd swyddogaethau'r Cynulliad yn hynny o beth yn cael eu dirprwyo i'r Pwyllgor hwnnw;

2. Dyma fydd aelodau'r Pwyllgor hwnnw:
AB (Cadeirydd)
CD
EF
GH

3. Bydd y Pwyllgor yn peidio â bod pan fydd Cadeirydd y Pwyllgor yn llofnodi'r llythyr penderfynu yn unol â Rheol Sefydlog 17.16 neu ar (dyddiad), pa un bynnag a ddaw gyntaf.

4. Os bydd y Pwyllgor yn peidio â bod heb i'r Cadeirydd fod wedi llofnodi llythyr penderfynu mewn perthynas â'r (cyfan o'r) mater(ion) a nodir yn yr Atodlen i'r cynnig hwn, bydd y swyddogaethau a nodir ym mharagraff 1 uchod yn cael eu dirprwyo i Brif Weinidog Cymru mewn perthynas â'r cyfryw fater(ion).

**Atodlen**

Cais gan X am ganiatâd i wneud datblygiad yn Y, sef …

## RHEOL SEFYDLOG 18 - Pwyllgor y Tŷ

### Teitl

18.1 Bydd yna Bwyllgor Tŷ.

### Cylch Gorchwyl

18.2 Yn amodol ar ddarpariaethau canlynol y Rheol Sefydlog hon, mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am:

(i) darparu i'r Aelodau ac ar eu cyfer (gan gynnwys pan fyddant yn cymryd rhan yn nhrafodion y Cynulliad) gyfleusterau, swyddfeydd, staff a'r gwasanaethau cymorth eraill sy'n rhesymol angenrheidiol er mwyn i'r Aelodau arfer eu gwaith yn well fel Aelodau o'r Cynulliad, gan gynnwys yn rhinwedd ei waith fel corff deddfwriaethol;

(ii) darparu gwasanaethau cyfieithu Cymraeg a Saesneg ar gyfer trafodion y Cynulliad;

(iii) paratoi canllawiau i'r Aelodau ar faterion y mae'r Pwyllgor yn gyfrifol amdanynt;

(iv) rhoi cyngor i'r Cynulliad ar faterion yn ymwneud â'i gylch gorchwyl a chyflogau, lwfansau a phensiynau'r Aelodau;

(v) paratoi cyllideb ddrafft ar gyfer y gwariant y bydd yn ei achosi a gweinyddu'r gyllideb gymeradwy; a

(vi) darparu gwasanaethau eraill i'r Aelodau ac ar eu cyfer sy'n debyg i'r rhai a ddisgrifir uchod gan gynnwys cyfrifoldeb dros unrhyw estyniad i'r adeilad lle mae'r Cynulliad yn arfer cynnal ei gyfarfodydd llawn, yn unol â'r hyn y gallai'r Cynulliad ei awdurdodi o bryd i'w gilydd drwy benderfyniad yn y cyfarfod llawn.

18.3 Ni fydd unrhyw beth yn Rheol Sefydlog 18.2 yn peri y bydd cylch gorchwyl y Pwyllgor yn rhoi iddo gyfrifoldeb:

(i) mewn unrhyw faes y mae gan y Cynulliad swyddogaethau ynddo (o fewn ystyr adran 57 o'r Ddeddf); neu

(ii) o ran trafodion Cabinet y Cynulliad

### Aelodaeth

18.4 Yn ddarostyngedig i ofynion adran 54(2)(b) y Ddeddf a Rheol Sefydlog 8.3, y dylai cydbwysedd grwpiau gwleidyddol y Cynulliad, cyn belled ag y mae hynny'n ymarferol, gael ei adlewyrchu yn aelodaeth y Pwyllgor, rhaid i Bwyllgor y Tŷ gynnwys o leiaf 7 a dim mwy nag 11 aelod gan gynnwys y cadeirydd.

18.5 Os cânt eu hethol yn aelodau o'r Pwyllgor, rhaid i’r Llywydd, y Dirprwy a'r Trefnydd beidio â bod yn aelodau o'r Pwyllgor unwaith y byddant wedi gadael y swyddi hynny.

18.6 Os na fydd y Llywydd neu'r Dirprwy neu'r Trefnydd yn aelodau o'r Pwyllgor bydd ganddynt hawl i fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor a chânt gymryd rhan yn y cyfarfodydd, gyda chaniatâd y Cadeirydd, ond ni chânt bleidleisio.

18.7 Caniateir i aelod o'r Pwyllgor, ar ôl rhoi hysbysiad ymlaen llaw i'r Cadeirydd, gael ei gynrychioli yn un o gyfarfodydd neu ran o gyfarfod y Pwyllgor gan Aelod arall a enwebir o blith yr un grŵp gwleidyddol y mae'r Aelod hwnnw'n perthyn iddo ac a enwir ymlaen llaw. Wrth roi'r cyfryw hysbysiad, rhaid i'r aelod nodi'r rheswm dros yr angen am gael rhywun i gymryd ei le. Caiff yr aelod a enwebir gymryd rhan yn y cyfarfod ym mhob agwedd fel pe bai ef neu hi yn aelod o'r Pwyllgor. Ni chaiff unrhyw Aelod gynrychioli mwy nag un aelod Pwyllgor mewn cyfarfod.

18.8 Rhaid i'r Pwyllgor ethol un o'r aelodau'n gadeirydd.

18.9 Caiff aelod arall o'r Pwyllgor gadeirio un o gyfarfodydd y Pwyllgor yn absenoldeb y cadeirydd neu os na chaniateir i'r cadeirydd gymryd rhan wrth i'r Pwyllgor ystyried unrhyw fater neu os yw'r cadeirydd yn dewis peidio â chymryd rhan. Rhaid i'r aelod hwnnw gael ei benodi gan y Pwyllgor naill ai yn y cyfarfod o dan sylw neu mewn cyfarfod blaenorol.

**Cyfarfodydd**

18.10 Rhaid i'r Pwyllgor gyfarfod o leiaf unwaith ym mhob pedair wythnos y bydd y Cynulliad yn cynnal cyfarfodydd llawn, oni bai bod y Pwyllgor yn penderfynu fel arall.

18.11 Caiff y Pwyllgor gyfarfod yn gyhoeddus neu'n breifat, fel y gwêl yn briodol, ond rhaid i gofnodion y cyfarfodydd gael eu cyhoeddi cyn pen chwe wythnos ar ôl pob cyfarfod.

18.12 Caiff y Pwyllgor adrodd i'r Cynulliad o bryd i'w gilydd a rhaid iddo gyflwyno adroddiad blynyddol.

**Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad**

18.13 Rhaid i wasanaethau staff cymorth y mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am eu darparu o dan ei gylch gorchwyl gael eu darparu drwy uned staff y Cynulliad a elwir yn "Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad". Y Clerc fydd pennaeth Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad a chaiff ei sefydlu a'i chynnal o dan drefniadau a wneir gan yr Ysgrifennydd Parhaol.

**Cod Ymddygiad**

18.14 Fel y gall y Cynulliad eu cymeradwyo rhaid i gadeirydd y Pwyllgor baratoi a chyflwyno i'r Cynulliad ganllawiau ("y Cod")i'r canlynol:-

(a) y Pwyllgor ar ei gylch gorchwyl; ac

(b) aelodau'r Pwyllgor ar eu cyfrifoldebau fel aelodau'r Pwyllgor.

Rhaid i'r Cod gynnwys canllawiau ar berthynas y Pwyllgor a'i aelodau â'r Ysgrifennydd Parhaol a'r Clerc a staff eraill yng Ngwasanaeth Seneddol y Cynulliad.

Rhaid i gadeirydd y Pwyllgor roi copi o'r Cod i bob aelod o'r Pwyllgor a rhaid iddo geisio sicrhau bod pob aelod o'r Pwyllgor yn cydymffurfio ag ef.

**Gweinidogion y Cynulliad a Staff Eraill y Cynulliad**

18.15 Yn ddarostyngedig i Reol Sefydlog 18.16, ni fydd unrhyw beth yn y Rheol Sefydlog hon yn peri ei bod yn rhan o gylch gorchwyl y Pwyllgor i ddarparu cyfleusterau, swyddfeydd, staff na gwasanaethau cymorth eraill na chanllawiau i unrhyw Aelod nac ar ei gyfer wrth weithredu fel Gweinidog y Cynulliad neu i staff y Cynulliad nad ydynt yn rhan o Wasanaeth Seneddol y Cynulliad neu ar eu rhan.

18.16 Ni fydd Rheol Sefydlog 18.15 yn gymwys i'r cyngor y gallai'r Pwyllgor ei roi o dan Reol Sefydlog 18.2(v) i'r graddau y mae'n ymwneud â chyngor ar gyflogau, lwfansau a phensiynau'r Aelodau.

## RHEOL SEFYDLOG 19 - Archwilio Dogfennau'r Cynulliad

### Cyfle i'r Cyhoedd Weld Dogfennau

19.1 Caiff aelodau o'r cyhoedd archwilio ar gais unrhyw ddogfen sydd ym meddiant y Cynulliad neu o dan ei reolaeth ac sy'n cynnwys deunydd ynglŷn ag unrhyw drafodion y Cynulliad sydd wedi digwydd neu sydd i ddigwydd, ac eithrio

(i) lle mae'r gyfraith yn gwahardd datgelu'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys mewn dogfen o'r fath;

(ii) lle mae'r ddogfen wedi'i thrafod mewn trafodion, neu'n ymwneud â thrafodion cyfarfod Pwyllgor neu Is-bwyllgor yr oedd y cyhoedd wedi'i wahardd ohono, neu'n debyg o gael ei wahardd ohono, yn unol â'r Rheolau Sefydlog; neu

(iii) lle mae'r ddogfen yn cynnwys gwybodaeth sydd wedi'i hesemptio rhag cael ei datgelu gan god ymarfer y Cynulliad a fabwysiadwyd yn unol â Rheol Sefydlog 19.2.

19.2 Rhaid i'r Cynulliad fabwysiadu cod ymarfer sy'n pennu ar ba sail y gall dogfennau fod yn esempt rhag cael eu datgelu. Caiff y cod ymarfer awdurdodi peidio â datgelu os yw'r ddogfen dan sylw yn cynnwys:

(i) gwybodaeth y byddai ei datgelu yn debyg o beryglu cysylltiadau rhyngwladol, diogelwch gwladol, ymchwiliad i anghyfreithlondeb honedig, effeithiolrwydd gorfodi'r gyfraith neu weinyddu cyfiawnder yn briodol;

(ii) cyngor cyfreithiol a roddwyd yn gyfrinachol i Aelodau unigol o'r Cynulliad neu aelodau o staff y Cynulliad;

(iii) gwybodaeth a roddwyd yn gyfrinachol gan berson neu gorff (gan gynnwys awdurdod cyhoeddus), neu ohebiaeth gyfrinachol â hwy, lle nad oedd y person neu'r corff hwnnw o dan unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol i'w datgelu ac nad yw wedi cytuno i'w datgelu;

(iv) gwybodaeth bersonol ynglŷn ag unigolion penodol a enwir neu y gellir eu henwi;

(v) gwybodaeth y byddai ei datgelu yn debyg o wneud drwg i fuddiannau masnachol neu economaidd;

(vi) gwybodaeth y byddai ei datgelu yn debyg o wneud drwg i iechyd neu ddiogelwch unigolyn, y cyhoedd, neu'r amgylchedd;

(vii) deunydd a fyddai, yn ôl pob tebyg, yn cael ei ystyried yn ddeunydd sy'n difenwi unrhyw berson;

(viii) deunydd y byddai ei ddatgelu yn debyg o atal Aelodau o'r Cynulliad ac

aelodau staff y Cynulliad rhag bod yn rhydd ac yn onest wrth gyfnewid cyngor a barn; neu

(ix) unrhyw wybodaeth arall a fyddai'n esempt rhag cael ei datgelu o dan ddeddfwriaeth rhyddid gwybodaeth sy'n berthnasol i'r Cynulliad.

19.3. Rhaid bod trefniadau gweinyddol yn cael eu gwneud yng nghod ymarfer y Cynulliad fel y gall aelodau o'r cyhoedd archwilio'r dogfennau, o fewn rheswm.

**Cyfle i Aelodau Weld Dogfennau**

19.4 Caiff Aelod archwilio unrhyw ddogfennau sydd ym meddiant neu o dan reolaeth y Cynulliad ac sy'n cynnwys deunydd ynglŷn ag unrhyw un o drafodion y Cynulliad.

19.5 Ni fydd Rheol Sefydlog 19.4 yn gymwys:

(i) lle mae'r gyfraith yn gwahardd datgelu'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys mewn dogfen o'r fath;

(ii) lle mae'r ddogfen yn cynnwys cyngor cyfreithiol a roddwyd yn gyfrinachol i Aelod o'r Cynulliad neu aelodau o staff y Cynulliad;

(iii) lle mae'r ddogfen yn cynnwys gwybodaeth a roddwyd yn gyfrinachol gan berson neu gorff (gan gynnwys awdurdod cyhoeddus), neu sy'n cynnwys gohebiaeth gyfrinachol â hwy, lle nad oedd y person neu'r corff hwnnw o dan unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol i'w datgelu ac sydd heb gytuno i'w datgelu i Aelodau o'r Cynulliad heblaw Gweinidogion neu, fel y bo'r achos, aelodau Pwyllgor y Tŷ;

(iv) lle mae'r ddogfen yn ymwneud â thrafodion Pwyllgor neu Is-bwyllgor nad yw'r Aelod yn aelod ohono a lle nad oedd y trafodion hynny wedi'u cynnal yn gyhoeddus, neu'n annhebygol o gael eu cynnal yn gyhoeddus; neu

(v) lle byddai datgelu'r ddogfen yn atal Aelodau o'r Cynulliad ac aelodau staff y Cynulliad rhag bod yn rhydd ac yn onest wrth gyfnewid cyngor a barn.

19.6 Rhaid i Aelod sy'n archwilio unrhyw ddogfen o dan y Rheol Sefydlog hon beidio â datgelu i unrhyw berson unrhyw wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y ddogfen ac wedi'i hesemptio rhag cael ei datgelu i'r cyhoedd o dan y cod a fabwysiedir gan y Cynulliad yn unol â Rheol Sefydlog 19.2.

## RHEOL SEFYDLOG 20 - Adroddiadau ar y Trafodion

### Cofnod Gair-am-air o Gyfarfodydd Llawn y Cynulliad

20.1 Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl pob cyfarfod llawn, rhaid i'r Cynulliad gyhoeddi, drwy gyfrwng electronig, gofnod o areithiau a wnaed yn y cyfarfod hwnnw yn yr ieithoedd y cawsant eu traddodi ynddynt; a chyhoeddi, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl hynny, gofnod gair-am-air o'r trafodion, a hwnnw wedi'i olygu, gyda chyfieithiadau i'r Saesneg o'r areithiau a draddodwyd yn Gymraeg a chyfieithiadau i'r Gymraeg o'r areithiau a draddodwyd yn Saesneg.

### Adroddiadau o Drafodion Pwyllgorau ac Is-bwyllgorau

20.2 Cyn gynted ag y bo'n ymarferol rhaid i'r Cynulliad:

(i) cyhoeddi cofnodion o drafodion cyhoeddus pob Pwyllgor ac Is-bwyllgor yn Gymraeg a Saesneg; a

(ii) pan fo tystiolaeth wedi'i rhoi yn gyhoeddus i Bwyllgor neu Is-bwyllgor gan dystion, cyhoeddi cofnod gair-am-air, a hwnnw wedi'i olygu, o'r dystiolaeth honno, ynghyd â chyfieithiadau i'r Saesneg o dystiolaeth a roddwyd yn Gymraeg a chyfieithiadau i'r Gymraeg o dystiolaeth a roddwyd yn Saesneg. Pan fo'r gyfryw dystiolaeth wedi'i rhoi mewn iaith ar wahân i Gymraeg neu Saesneg, rhaid i'r cofnod gynnwys cyfieithiadau o'r dystiolaeth i'r naill iaith a'r llall.

## RHEOL SEFYDLOG 21 - Gweithdrefnau Cyllid

### Penderfynu ar Gyllideb Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad

21.1 Ym mhob blwyddyn ariannol, erbyn 20 Medi fan bellaf, rhaid i Bwyllgor y Tŷ ystyried y gyllideb ar gyfer Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad. Yn sgil trafod rhwng Cadeirydd Pwyllgor y Tŷ, y Clerc a'r Gweinidog Cyllid, rhaid i aelod o Bwyllgor y Tŷ gosod gerbron y Cynulliad cyllideb ddrafft ar gyfer Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad, erbyn 1 Hydref fan hwyraf. Ar yr un pryd, rhaid i'r aelod o Bwyllgor y Tŷ gyflwyno cynnig bod y gyllideb ddrafft yn cael ei mabwysiadu. Dylai'r gyllideb ddrafft ymdrin fel rheol â'r flwyddyn ariannol ddilynol a'r dyraniadau amodol ar gyfer y ddwy flynedd wedyn, neu am gyfnod sy'n briodol ym marn y Gweinidog Cyllid. Rhaid i'r cynnig bod y gyllideb ddrafft yn cael ei mabwysiadu beidio â bod yn destun gwelliannau a rhaid ei ddadlau erbyn 10 Hydref fan hwyraf. Os caiff y cynnig ei gytuno, dylai'r gyllideb honno ddod yn gyllideb derfynol ar gyfer Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad a rhaid ei hymgorffori fel y cyfryw yng nghyllideb ddrafft a chyllideb derfynol y Cynulliad.

### Penderfynu ar Gyllideb y Cynulliad

21.2 Yn ystod pob blwyddyn ariannol, rhaid i'r Gweinidog Cyllid wahodd Pwyllgorau Pwnc i gyflwyno sylwadau, fel rheol erbyn dyddiad o leiaf wyth wythnos ar ôl dyddiad y gwahoddiad ac erbyn 31 Gorffennaf fan hwyraf, ar flaenoriaethau gwariant y Cynulliad yn ystod y tair blynedd ariannol ddilynol, neu am gyfnod y mae y Gweinidog Cyllid yn barnu ei fod yn briodol.

21.3 Fel rheol, ym mis Hydref mewn unrhyw flwyddyn, a, sut bynnag, erbyn 15 Tachwedd fan hwyraf, rhaid i'r Gweinidog Cyllid osod gerbron y Cynulliad cyllideb ddrafft. Ar yr un pryd, rhaid i'r Gweinidog Cyllid gyflwyno cynnig bod y Cynulliad yn nodi'r gyllideb ddrafft. Rhaid i'r gyllideb ddrafft nodi sut y bwriedir dyrannu adnoddau'r Cynulliad ar gyfer y flwyddyn ariannol ddilynol a'r dyraniadau dros dro ar gyfer y ddwy flynedd wedi hynny, neu am gyfnod y mae y Gweinidog Cyllid yn barnu ei fod yn briodol. Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i'r Cynulliad nodi'r gyllideb ddrafft, rhaid i bob Gweinidog sy'n aelod o Bwyllgor Pwnc wahodd sylwadau'r Pwyllgor ar y gyllideb ddrafft a'u trosglwyddo i'r Gweinidog Cyllid.

21.4 Fel rheol, ym mis Tachwedd a, sut bynnag, erbyn 10 Rhagfyr fan hwyraf, rhaid i'r Gweinidog Cyllid osod gerbron y Cynulliad cyllideb derfynol y mae rhaid iddi fod ar gyfer yr un cyfnod â'r gyllideb ddrafft o dan Reol Sefydlog 21.3. Ar yr un pryd, rhaid i'r Gweinidog Cyllid gyflwyno cynnig bod y gyllideb derfynol yn cael ei mabwysiadu. Ni chaniateir cynnig gwelliant i gynnig bod y gyllideb derfynol yn cael ei mabwysiadu.

21.5 Ar ôl i'r gyllideb derfynol gael ei mabwysiadu, ond cyn 1 Ebrill yn y flwyddyn ddilynol, caiff y Gweinidog Cyllid osod gerbron y Cynulliad cyllideb atodol sy'n nodi newidiadau i'r gyllideb derfynol honno sy'n deillio o newidiadau i gynlluniau gwariant Llywodraeth y DU neu newidiadau technegol eraill sy'n ymwneud â'r gyllideb. Ar yr un pryd, rhaid i'r Gweinidog Cyllid gyflwyno cynnig bod y gyllideb atodol yn cael ei mabwysiadu. Ni chaniateir gwelliant i gynnig bod cyllideb atodol yn cael ei mabwysiadu.

### Addasiadau i Gyllideb y Cynulliad yn ystod y Flwyddyn

**Newidiadau i'r Prif Grwpiau Gwariant**

21.6 Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheol Sefydlog 21.7, ac eithrio mewn achosion brys, ni chaniateir cyflwyno unrhyw newid, yn ystod blwyddyn ariannol, i lefel yr adnoddau a ddyrennir i brif grŵp gwariant yn y gyllideb derfynol neu mewn cyllideb atodol a fabwysiedir o dan Reol Sefydlog 21.4 neu, yn ôl y galw, 21.5, gan gynnwys sefydlu prif grŵp gwariant newydd, ond drwy gynnig a gyflwynir gan y Gweinidog Cyllid. Ni chaiff unrhyw gynnig o'r fath fod yn destun gwelliannau. Mewn achosion brys, caiff y Gweinidog Cyllid newid lefel yr adnoddau a ddyrennir i unrhyw brif grŵp gwariant, neu sefydlu prif grŵp gwariant newydd, ond, mewn unrhyw achos o'r fath, rhaid i'r Gweinidog Cyllid adael i'r Cynulliad wybod, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, am y camau a gymerwyd.

21.7 Ac eithrio mewn achosion brys, rhaid peidio â gwneud unrhyw newid yn ystod y flwyddyn ariannol i lefel yr adnoddau a ddyrannwyd i'r prif grŵp gwariant a sefydlwyd ar gyfer Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad yn y gyllideb derfynol a fabwysiadwyd o dan Reol Sefydlog 21.1 ond drwy gynnig a gynigir gan aelod o Bwyllgor y Tŷ ac ar ôl i'r Pwyllgor drafod gyda'r Gweinidog Cyllid. Rhaid i unrhyw gynnig o'r fath beidio â bod yn destun gwelliannau. Mewn achosion brys, caiff Pwyllgor y Tŷ, ar ôl trafod gyda'r Gweinidog Cyllid, newid lefel yr adnoddau a ddyrannwyd i'r grŵp gwariant hwn ond, mewn achos o'r fath, rhaid i aelod o Bwyllgor y Tŷ roi gwybod i'r Cynulliad am y camau a gymerwyd cyn gynted ag y bydd hynny'n rhesymol ymarferol.

**Newidiadau o fewn y Prif Grwpiau Gwariant**

21.8 Yn ddarostyngedig i'r darpariaethau yn Rheol Sefydlog 21.10, yn ystod blwyddyn ariannol, caiff Gweinidog, gyda chytundeb y Gweinidog Cyllid, gymeradwyo trosglwyddo adnoddau o fewn prif grŵp gwariant rhwng ac o fewn y dyraniadau ariannol ar gyfer meysydd y mae'r Gweinidog hwnnw'n gyfrifol amdanynt. Lle y byddai'r trosglwyddo arfaethedig yn newid y dyraniadau yn y gyllideb derfynol neu mewn cyllideb atodol a fabwysiedir o dan Reol Sefydlog 21.4 neu, yn ôl y galw, 21.5, rhaid i'r Gweinidog ymgynghori â'r Pwyllgor Pwnc perthnasol yn ei gylch, ac eithrio mewn achosion brys; os na fydd modd ymgynghori, rhaid i'r Gweinidog roi gwybod i'r Pwyllgor, cyn gynted ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol, am y camau a gymerwyd.

21.9 Yn ystod y flwyddyn ariannol, caiff y Gweinidog Cyllid gymeradwyo trosglwyddo adnoddau o fewn prif grŵp gwariant a rhwng dyraniadau ariannol ar gyfer meysydd y mae gwahanol Weinidogion yn gyfrifol amdanynt. Lle y byddai'r trosglwyddo arfaethedig yn newid y dyraniadau yn y gyllideb derfynol neu mewn cyllideb atodol a fabwysiedir o dan Reol Sefydlog 21.4 neu, yn ôl y galw, 21.5, rhaid i'r Gweinidog perthnasol ymgynghori â'r Pwyllgor Pwnc perthnasol yn ei gylch, ac eithrio mewn achosion brys; os na fydd modd ymgynghori, rhaid iddynt roi gwybod i'r Pwyllgorau cyn gynted ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol am y camau a gymerwyd.

21.10 Ni fydd darpariaethau Rheolau Sefydlog 21.8 a 21.9 yn gymwys ar gyfer y prif grŵp gwariant a sefydlwyd ar gyfer Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad. Yn ystod blwyddyn ariannol, caiff y Clerc, ar ôl ymgynghori â Phwyllgor y Tŷ, ac ar ôl hysbysu'r Gweinidog Cyllid, gymeradwyo trosglwyddo adnoddau o fewn y prif grŵp gwariant a sefydlwyd ar gyfer Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad, rhwng y dyraniadau ariannol o fewn y prif grŵp gwariant ac o'u mewn.

**Adroddiadau Cyllid Llywodraeth Leol**

21.11 Rhaid i'r adroddiadau canlynol gael eu gwneud drwy gael eu cymeradwyo drwy benderfyniad y Cynulliad:

(i) adroddiad cyllid llywodraeth leol o dan adran 84G o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ("Deddf 1988");

(ii) adroddiad diwygiol o dan adran 84L o Ddeddf 1988, neu o dan baragraff 13 o Atodlen 8 i'r Ddeddf honno;

(iii) adroddiad grant ychwanegol o dan adran 85 o Ddeddf 1988;

(iv) adroddiad grant ychwanegol o dan adran 88B o Ddeddf 1988.

21.12 Pryd bynnag y caiff cyllideb ddrafft ei gosod gerbron y Cynulliad o dan Reol Sefydlog 21.3, rhaid i'r Gweinidog sy'n gyfrifol am gyllid llywodraeth leol, ar yr un pryd neu cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol wedi hynny, gosod gerbron y Cynulliad drafft o adroddiad cyllid llywodraeth leol ar gyfer y flwyddyn ariannol ddilynol. Os oes mwy nag un adroddiad o'r fath, rhaid gosod yr adroddiadau hynny ar wahân. Rhaid i'r Gweinidog sy'n gyfrifol am gyllid llywodraeth leol gyflwyno'r adroddiad ar ei ffurf derfynol gerbron y Cynulliad erbyn 15 Chwefror fan hwyraf mewn unrhyw flwyddyn ar yr un pryd gyflwyno cynnig bod yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo.

21.13 Ni chaniateir cynnig gwelliant i gynnig bod unrhyw adroddiad y cyfeirir ato yn Rheol Sefydlog 21.11 yn cael ei gymeradwyo.

**Cyhoeddi Cyfrifon ac Adroddiadau**

21.14 Caiff y Llywydd drefnu cyhoeddi ar unrhyw ddiwrnod gwaith unrhyw ddogfennau y mae adran 103(2) o'r Ddeddf yn gymwys iddynt.

21.15 Pan fydd yn ofynnol i'r Cynulliad o dan adran 45 o'r Ddeddf gyhoeddi adroddiad a osodwyd ger ei fron ynghylch unrhyw gorff cyhoeddus, a phan fydd yr adroddiad hwnnw yn cynnwys cyfrifon archwiliedig y corff, barn yr archwilwyr ac unrhyw adroddiad a wnaethpwyd ar y cyfrifon gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, rhaid barnu bod y cyhoeddiad hwnnw hefyd yn bodloni unrhyw ofynion ynglŷn â chyhoeddi a gynhwysir yn adran 103 o'r Ddeddf.

**Hysbysu Trafodion penodol**

21.16 Rhaid i Weinidog sy'n bwriadu awdurdodi Trafodiad Hysbysadwy, sef:

(i) gwneud rhodd y mae Rheol Sefydlog 21.18 yn gymwys iddi;

(ii) achosi atebolrwydd mae Rheol Sefydlog 21.19 yn gymwys iddo; neu

(iii) gollwng benthyciad y mae Rheol Sefydlog 21.20 yn gymwys iddo

osod gerbron y Cynulliad cyn gwneud hynny ddatganiad yn cynnwys yr wybodaeth a bennir yn Rheol Sefydlog 21.21 . Pan fydd datganiad felly wedi'i osod, ni chaiff y Gweinidog awdurdodi Trafodiad Hysbysadwy hyd nes y bydd deg diwrnod gwaith wedi mynd heibio ers i'r datganiad gael ei osod.

21.17 Os bydd o leiaf deg Aelod, cyn pen y cyfnod o deg diwrnod gwaith y cyfeirir ato yn Rheol Sefydlog 21.16, yn cyflwyno Hysbysiad yn gofyn i'r Gweinidog geisio cymeradwyaeth y Cynulliad ar gyfer y Trafodiad Hysbysadwy, yna rhaid i'r Gweinidog gyflwyno cynnig yn gofyn am gymeradwyaeth y Cynulliad i'r Trafodiad Hysbysadwy ac ni chaiff y Gweinidog awdurdodi'r Trafodiad hyd nes bod y gymeradwyaeth honno wedi'i rhoi.

21.18 i) Rhodd y mae'r Rheol Sefydlog hon yn gymwys iddi yw un:

(a) y mae ei gwerth dros £100,000; neu

(b) sydd â nodweddion (boed o ran ei disgrifiad neu'n gyffredinol) neu sy'n cael ei gwneud o dan amgylchiadau (boed drwy gyfeiriad at y sawl y bwriedir gwneud y rhodd iddo neu iddi neu'n gyffredinol) sy'n sylweddol wahanol i'r rhai sy'n perthyn i roddion a wneir fel arfer gan gyrff cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig.

ii) At ddibenion y Rheol Sefydlog hon mae rhodd yn cynnwys benthyciad am amser amhenodedig neu fenthyciad am gyfnod sy'n gyfartal ag oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yr ased, neu'n fwy na hynny, ac unrhyw drafodiad sy'n golygu cael gwared ar ased am lai na'i werth llawn. Lle ceir gwared ar ased am lai na'i werth llawn, rhaid cymryd mai'r gwahaniaeth rhwng ei werth llawn a swm unrhyw bris y bwriedir ei dalu amdano yw gwerth y rhodd.

21.19 Mae atebolrwydd y mae'r Rheol Sefydlog hon yn gymwys iddo yn atebolrwydd amodol neu gyflawnedig a allai fynd dros £100,000 o dan warant, indemniad, llythyr neu ddatganiad o gysur neu drefniant arall â'r un effaith neu effaith debyg ond nad yw'n cynnwys ymrwymiad contractiol i wneud taliadau yn y dyfodol o dan gontract a ymrwymwyd iddo yn nhrefn arferol cyflawni swyddogaethau'r Cynulliad nac ymrwymiad i wneud taliadau grant o dan gynllun grant statudol.

21.20 Y gollwng benthyciad y mae'r Rheol Sefydlog hon yn gymwys iddo yw gollwng, yn llwyr neu'n rhannol, rwymedigaeth i ad-dalu neu i ddychwelyd arian neu eiddo arall a fenthyciwyd gan y Cynulliad, ar yr amod mai lleihau mwy na £20 miliwn ar yr atebolrwydd i'r Cynulliad yw effaith y gollyngiad.

21.21 i) Rhaid i'r datganiad a osodir gerbron y Cynulliad o dan Reol Sefydlog 21.16 gynnwys yr wybodaeth ganlynol:

(a) os bydd yn ymwneud â rhodd, natur a gwerth y rhodd, yr amgylchiadau y bwriedir rhoi'r rhodd, y derbynnydd ac, os bydd angen ei hamnewid, cost a natur yr amnewidiad a phryd y disgwylir cael yr amnewidiad

(b) os bydd yn ymwneud ag achosi atebolrwydd, amcangyfrif o faint yr atebolrwydd ac am faint y disgwylir iddo barhau, y rheswm dros achosi'r atebolrwydd, y corff neu'r cyrff o dan sylw

(c) os bydd yn ymwneud â gollwng benthyciad, y person neu'r corff a fydd yn elwa ar y gollyngiad, yr amgylchiadau y gwnaed y benthyciad, y rhesymau dros ollwng y benthyciad a'r swm y bwriedir ei ollwng.

(ii) Rhaid i'r datganiad gynnwys, yn ychwanegol at yr wybodaeth a bennir uchod, unrhyw wybodaeth berthnasol arall y bydd ei hangen i'w gwneud yn bosibl i ddeall amgylchiadau'r Trafodiad Hysbysadwy.

21.22 Rhaid i Weinidog sydd ar unrhyw adeg yn dod i wybod:

(i) nad yw'r wybodaeth a roddwyd mewn datganiad a osodwyd gerbron y Cynulliad o dan Reol Sefydlog 19.13, neu ddatganiad atodol a osodwyd o dan y Rheol Sefydlog hon, yn gywir mwyach i radd sylweddol, neu

(ii) bod atebolrwydd a oedd yn amodol pan osodwyd datganiad wedi dod yn atebolrwydd cyflawnedig:

osod datganiad atodol gerbron y Cynulliad yn esbonio ac yn cywiro'r anghywirdeb neu'n disgrifio ym mha amgylchiadau y daeth yr atebolrwydd yn gyflawnedig, yn ôl yr achos. Os bydd o leiaf deg Aelod, cyn pen y cyfnod o deg diwrnod gwaith ar ôl gosod y datganiad atodol, yn cyflwyno cynnig sy'n gofyn i'r Gweinidog wneud datganiad llafar i'r Cynulliad i esbonio'r amgylchiadau a'i gwnaeth yn ofynnol i osod y datganiad atodol, rhaid i'r Gweinidog wneud y datganiad hwnnw mor fuan â phosibl a rhaid iddo ateb cwestiynau'r Aelodau ar y datganiad.

21.23 Caiff Gweinidog, lle bo angen brys, awdurdodi Trafodiad Hysbysadwy sy'n dod o fewn Rheol Sefydlog 21.19 heb gydymffurfio yn gyntaf â Rheolau Sefydlog 21.16 a 21.17 ond rhaid iddo wneud datganiad llafar i'r Cynulliad mor fuan â phosibl ac ateb cwestiynau Aelodau ar y datganiad hwnnw.

21.24 Ni fydd y ffaith bod Trafodiad Hysbysadwy sy'n dod o fewn Rheol Sefydlog 21.19 wedi ei gyflawni heb gydymffurfio yn gyntaf â Rheolau Sefydlog 21.16 a 21.17 uchod ynddi'i hun yn effeithio ar hawliau'r person y mae'r atebolrwydd posibl yn ddyledus iddo.

21.25 Bydd darpariaethau Rheolau Sefydlog 21.16 i 21.24 yn gymwys pan fydd Pwyllgor y Tŷ yn awdurdodi Trafodiad Hysbysadwy, gan osod cyfeiriadau at "aelod o Bwyllgor y Tŷ" yn lle cyfeiriadau at "Weinidog".

**RHEOL SEFYDLOG 22 - Penodiadau Cyhoeddus**

22.1 Rhaid i'r Cynulliad fabwysiadu a chadw o dan adolygiad God Ymarfer sy'n rheoli'r gweithdrefnau ar gyfer gwneud y penodiadau cyhoeddus y mae'n gyfrifol amdanynt. Prif Weinidog Cymru a fydd yn gyfrifol am gynnig God drafft iddo gael ei fabwysiadu gan y Cynulliad, a rhaid iddo ymgynghori â'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus ynglŷn â'i gynnwys. Rhaid i Brif Weinidog Cymru drefnu i'r Cod gael ei gyhoeddi ar ôl iddo gael ei fabwysiadu, a sicrhau bod ymgynghori o bryd i'w gilydd â'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus ynglŷn â chynnwys y Cod ac unrhyw ddiwygiadau iddo a awgrymir. Rhaid i Brif Weinidog Cymru gyflwyno cynigion i ddiwygio'r Cod.

22.2 Rhaid bod cyfarfodydd ynglŷn ag ystyried unigolion penodol ar gyfer penodiadau cyhoeddus penodol yn cael eu cynnal yn breifat.

22.3 Rhaid i'r Cynulliad beidio â phenodi, nac awdurdodi penodi ar ei ran, y Llywydd, y Dirprwy, unrhyw Weinidog neu gadeirydd Pwyllgor y Tŷ yn aelod o unrhyw gorff cyhoeddus y sonnir amdano yn Atodlenni 4, 5 neu 17 i'r Ddeddf. Os caiff Aelod sy'n aelod o'r cyfryw gorff cyhoeddus ei ethol neu ei benodi i un o'r swyddi hyn, rhaid iddo ef neu iddi hi ymddiswyddo o'r corff hwnnw yn ddiymdroi.

22.4. Rhaid i'r Cynulliad beidio â thrafod penodiadau barnwrol unigol.

## RHEOL SEFYDLOG 23 - Gweithdrefnau Cwyno

**Gweithdrefnau Mewnol ar gyfer Ystyried Cwynion**

23.1 Rhaid i'r Ysgrifennydd Parhaol sicrhau bod gweithdrefnau wedi'u sefydlu:

(i) er mwyn i gwynion ynghylch yr hyn y mae'r Cynulliad wedi'i wneud neu wedi methu â'i wneud gael eu cydnabod a bod ymchwiliad priodol yn cael ei wneud iddynt; a

(ii) er mwyn i achwynwyr gael gwybod y diweddaraf am hynt yr ymchwiliadau a chael ymateb, gan ddarparu ar gyfer unioni'r cam fel y bo'n briodol.

23.2 Rhaid i'r Llywydd drefnu i'r gweithdrefnau hyn gael eu cyhoeddi.

**Gweithdrefnau ar gyfer Ystyried Adroddiadau Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru a Chomisiynydd Gwasanaeth Iechyd Cymru**

23.3 Pan fydd naill ai Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru neu Gomisiynydd Gwasanaeth Iechyd Cymru yn bwriadu ymchwilio i gŵyn ynghylch camau a gymerwyd gan y Cynulliad, ac wedi rhoi i'r Cynulliad gyfle i gyflwyno sylwadau am unrhyw honiadau a gynhwysir yn y gŵyn, bydd yr Ysgrifennydd Parhaol yn gyfrifol am gyfleu ei sylwadau.

23.4 Rhaid i'r Ysgrifennydd Parhaol sicrhau bod yr wybodaeth neu'r dogfennau y mae ar yr Ombwdsmon neu'r Comisiynydd eu hangen ar gyfer eu hymchwiliadau yn cael eu darparu.

23.5 Cyn pen 5 diwrnod gwaith ar ôl cael adroddiad ar ganlyniadau ymchwiliad gan yr Ombwdsmon neu'r Comisiynydd, rhaid i Brif Weinidog Cymru anfon copi at y Gweinidog perthnasol.

23.6 Os bydd yr adroddiad yn datgan bod yr achwynydd wedi dioddef anghyfiawnder neu galedi o ganlyniad i gamweinyddu, rhaid i'r Gweinidog, fel rheol cyn pen 20 diwrnod gwaith ar ôl cael yr adroddiad, ei gyflwyno i'r Pwyllgor Pwnc perthnasol ynghyd ag ymateb arfaethedig i'r adroddiad, gan ddatgan y camau a gymerwyd neu y bwriedir eu cymryd.

23.7 Ar ôl i'r Pwyllgor Pwnc ystyried yr ymateb arfaethedig, ond nid llai nag 20 diwrnod gwaith ar ôl i'r Pwyllgor ei gael, rhaid i'r Gweinidog ei gyflwyno, gyda diwygiadau neu hebddynt, i Brif Weinidog Cymru a rhaid iddo yntau hysbysu'r Ombwdsmon neu'r Comisiynydd, yn ôl yr achos, ynglŷn â'r camau a gymerwyd neu y bwriedir eu cymryd.

23.8 Os bydd yr Ombwdsmon neu'r Comisiynydd yn paratoi adroddiad pellach ynglŷn â'r mater, rhaid i Brif Weinidog Cymru, cyn gynted ag y bo modd, osod copi o'r adroddiad gerbron y Cynulliad a hefyd osod ger ei fron ymateb sydd naill ai:

(i) yn cofnodi'r camau sydd wedi'u cymryd neu y bwriedir eu cymryd er bodlonrwydd yr Ombwdsmon neu'r Comisiynydd ar ôl cael yr adroddiad pellach, neu

(ii) yn cofnodi ei fwriad ef neu ei bwriad hi i gynnig bod y Cynulliad yn cymeradwyo'r argymhellion a nodir yn yr adroddiad pellach.

23.9 Caiff unrhyw gynnig o dan Reol Sefydlog 23.8(ii) y rhoddwyd hysbysiad amdano gerbron y Cynulliad cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol. Ar ôl i'r Cynulliad ei ystyried (a phleidleisio arno, os bydd rhaid), rhaid i Brif Weinidog Cymru hysbysu'r Ombwdsmon neu'r Comisiynydd ynglŷn â'r penderfyniadau ar y cynnig.

23.10 Pan fo adroddiad neu adroddiad pellach yn ymwneud â mater sy'n rhan o gyfrifoldebau Pwyllgor y Tŷ, ni fydd darpariaethau'r Rheol Sefydlog hon sy'n ymwneud â rhan y Gweinidogion (ac eithrio Prif Weinidog Cymru) a'r Pwyllgorau Pwnc, cyn belled ag y bo'n briodol, yn gymwys, ond bydd cadeirydd Pwyllgor y Tŷ yn gwneud trefniadau priodol gyda Phrif Weinidog Cymru i'r adroddiad gael ei ystyried gan y Pwyllgor hwnnw ac i'w ymateb gael ei anfon at Brif Weinidog Cymru.

**RHEOL SEFYDLOG 24 – Is-ddeddfwriaeth Gyffredinol y Cynulliad**

24.1 Mae'r Rheol Sefydlog hon yn gymwys i holl Orchmynion y Cynulliad, ac eithrio'r rhai sy'n ddarostyngedig i Reol Sefydlog 25 adran 2 (Is-ddeddfwriaeth sy'n ddarostyngedig i gydsyniad Gweinidog y Goron neu Adran Llywodraeth y DU).

**Y Camau cyn i'r Cynulliad Ystyried**

24.2 Rhaid i gynnig ar gyfer Gorchymyn Cynulliad gael ei baratoi gan Weinidog ar ffurf drafft. Rhaid i'r drafft gael ei baratoi yn Gymraeg ac yn Saesneg oni bai bod y Gweinidog yn credu, o dan yr amgylchiadau penodol, y byddai'n amhriodol neu heb fod yn rhesymol ymarferol i'r Gorchymyn fod yn y ddwy iaith. Rhaid iddo ef neu iddi hi hysbysu Aelodau ynglŷn â'r drafft, a gwahodd sylwadau ynghylch a yw'n haeddu cael ei ystyried gan Bwyllgor Pwnc.

24.3 Yn amodol ar Reol Sefydlog 24.4, rhaid i'r Gweinidog wneud arfarniad o'r costau a'r manteision tebygol o gydymffurfio â'r Gorchymyn drafft, yn unol â chanllawiau a gyhoeddir gan y Cynulliad. Os yw'r arfarniad yn dangos bod costau cydymffurfio â'r Gorchymyn yn debygol o fod yn sylweddol, rhaid i'r Gweinidog ymgynghori ag unrhyw bartïon neu gyrff â buddiant (gan gynnwys cynrychiolwyr byd busnes) yn ôl yr hyn sy'n briodol yn ei farn ef.

24.4 Caiff y Gweinidog benderfynu, gan roi sylw i'r canllawiau a gyhoeddwyd gan y Cynulliad, nad oes rhaid cynnal arfarniad os yw'n credu, o dan yr amgylchiadau penodol, y byddai hynny'n amhriodol neu heb fod yn rhesymol ymarferol.

24.5 Pryd bynnag y bydd Gweinidog yn penderfynu bwrw ymlaen â Gorchymyn drafft, rhaid cyhoeddi unrhyw arfarniad a baratowyd, ynghyd â chrynodeb o'r ymatebion i unrhyw ymgynghori a wnaethpwyd.

**Cyflwyno i'r Pwyllgor Busnes**

24.6 Rhaid i'r Gweinidog gyflwyno'r drafft, memorandwm sy'n esbonio ei effaith arfaethedig ac unrhyw oblygiadau ariannol, ac unrhyw arfarniad, i'r Pwyllgor Busnes. Rhaid iddo ef neu iddi hi hefyd, gan dalu sylw i unrhyw sylwadau a gafwyd, argymell a ddylai'r drafft gael ei ystyried neu beidio gan y Pwyllgor Pwnc y mae'r Gweinidog yn aelod ohono, a chan unrhyw Bwyllgor Pwnc perthnasol arall. Yn amodol ar Reolau Sefydlog 5.8 a 5.9, rhaid i'r Dirprwy ddyfarnu ar y cwestiwn hwnnw, gan dalu sylw i unrhyw gyngor a ddarperir gan y Pwyllgor Busnes ac unrhyw sylwadau a geir.

**Ystyriaeth gan Bwyllgor Pwnc**

24.7 Pryd bynnag y bydd y Dirprwy yn penderfynu y dylai Gorchymyn drafft gael ei ystyried gan Bwyllgor Pwnc (neu pryd bynnag y bydd dyfarniad y Dirprwy nad oes angen iddo gael ystyriaeth o'r fath yn cael ei wrthdroi gan y Cynulliad o dan Reol Sefydlog 5.8), rhaid iddo ef neu iddi hi bennu erbyn pryd y bydd rhaid i'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad ar y drafft, sef ddim llai na 2 wythnos ac nid mwy nag 8 wythnos.

24.8 Caiff y Pwyllgor argymell cymeradwyo'r drafft, argymell diwygiadau iddo, neu argymell ei wrthod. Wrth gyflawni ei ddyletswyddau, caiff y Pwyllgor ymgynghori neu

dderbyn unrhyw dystiolaeth y credir ei bod yn briodol, gan gynnwys tystiolaeth gan Bwyllgorau eraill y Cynulliad neu gan Aelodau. Rhaid iddo gyflwyno'i adroddiad i'r Cynulliad ac i'r Gweinidog perthnasol. Os yw'r Gweinidog wedyn yn penderfynu bwrw ymlaen â'r Gorchymyn drafft, rhaid iddo ef neu iddi hi ei osod gerbron y Cynulliad, wedi'i wella yn ôl yr hyn sy'n briodol yn ei farn ef, ynghyd â'r memorandwm esboniadol a'r arfarniad rheoliadol (os oes un), a chyflwyno'r Gorchymyn drafft i'r Pwyllgor Deddfau.

**Y Drefn mewn Achosion Eraill**

24.9 Os yw'r Dirprwy yn penderfynu nad oes angen i Orchymyn drafft gael ei ystyried gan Bwyllgor Pwnc (ac na wrthdroir y dyfarniad hwnnw gan y Cynulliad o dan Reol Sefydlog 5.8), neu os yw'r Pwyllgor hwnnw'n methu â chyflwyno adroddiad o fewn yr amser a bennwyd, rhaid i'r Gweinidog osod y Gorchymyn drafft ynghyd â'r memorandwm esboniadol ac unrhyw arfarniad rheoliadol gerbron y Cynulliad a'i gyflwyno i'r Pwyllgor Deddfau.

**Trefn y Pwyllgor Deddfau**

24.10 Pan fydd y Gorchymyn drafft wedi'i osod gerbron y Cynulliad, rhaid i'r Pwyllgor Deddfau ei ystyried a chyn gynted ag y bo modd cyflwyno i'r Cynulliad adroddiad yn argymell a ddylai roi sylw arbennig i'r Gorchymyn drafft ar sail unrhyw un o'r seiliau a bennir yn Rheol Sefydlog 11.7.

**Ystyried Gorchmynion Drafft gan y Cynulliad mewn Cyfarfod Llawn (Prif Fusnes Cyfarfod Llawn)**

24.11 Rhaid i Orchymyn Cynulliad drafft a all arwain at dalu unrhyw symiau gan y Cynulliad beidio â chael ei ystyried gan y Cynulliad, ac eithrio o dan amgylchiadau lle nad yw'r symiau'n debygol o fod yn sylweddol, oni bai bod Cabinet y Cynulliad wedi argymell gwneud y Gorchymyn.

24.12 Rhaid peidio â gwneud Gorchymyn Cynulliad hyd nes bod drafft wedi'i gymeradwyo drwy benderfyniad gan y Cynulliad, ond rhaid i'r Cynulliad beidio â chymeradwyo Gorchymyn o'r fath hyd nes y bydd wedi ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau mewn perthynas â'r Gorchymyn drafft, a'r arfarniad rheoliadol (os oes un) a gyhoeddwyd mewn perthynas ag ef.

24.13 (i) Os yw Gorchymyn drafft (gan gynnwys Gorchymyn drafft diwygiedig) sydd wedi'i osod gerbron y Cynulliad yn cynnwys gwallau teipograffyddol, gwallau gramadeg neu fân wallau drafftio y mae'r Pwyllgor Deddfau wedi nodi ei bod yn briodol eu cywiro o dan y ddarpariaeth hon, caiff y Gweinidog a osododd y Gorchymyn drafft osod Memorandwm Cywiriadau gerbron y Cynulliad i nodi'r cywiriadau y mae eu hangen i gywiro'r gwallau, a hynny heb fod yn hwyrach na'r adeg y cyflwynir cynnig yn gofyn i'r Cynulliad gymeradwyo'r drafft. Pan fydd Memorandwm o'r fath wedi'i osod, rhaid cyfeirio at y ffaith honno yn y cynnig sy'n gofyn am gymeradwyaeth i'r drafft ac, yn ddarostyngedig i is-baragraff (ii), rhaid cymryd bod y drafft, os yw wedi'i gymeradwyo, wedi'i gymeradwyo fel y mae wedi'i ddiwygio gan y Memorandwm Cywiriadau ac eithrio i'r graddau y mae unrhyw ddiwygiad yn cael ei ddisodli gan ddiwygiad i'r drafft y mae'r Cynulliad yn cytuno arno mewn cyfarfod llawn.

(ii) Os yw'n ymddangos i'r Llywydd fod Memorandwm Cywiriadau yn cynnwys diwygiad ac eithrio un sy'n angenrheidiol er mwyn cywiro gwallau teipograffyddol, gwallau gramadeg neu fân wallau drafftio, rhaid i'r Llywydd ddyfarnu bod y diwygiad hwnnw yn annilys a rhaid peidio â chymryd bod y drafft, os yw wedi'i gymeradwyo, wedi'i ddiwygio ganddo gyda'r diwygiad hwnnw.

24.14 Rhaid i'r Cynulliad yn gyntaf ystyried egwyddor y Gorchymyn drafft, ar sail cynnig gan Weinidog; ac os bydd dadl yn codi ynghylch y cynnig hwnnw, rhaid i'r Llywydd ganiatáu i'r Gweinidog ymateb i'r ddadl cyn rhoi'r mater i bleidlais.

24.15 Os cytunir ar y cynnig yn Rheol Sefydlog 24.14 uchod, rhaid i'r Cynulliad ystyried unrhyw ddiwygiadau i'r Gorchymyn drafft sydd wedi'u cyflwyno.

24.16 Ni fydd diwygiad yn ddilys oni bai:

(i) ei fod wedi'i gyflwyno gan o leiaf dri Aelod o leiaf ddau ddiwrnod gwaith cyn cael ei ystyried; ac

(ii) y cyflwynir gydag ef ddatganiad gan yr Aelodau sydd wedi'i gyflwyno yn esbonio ei ddiben ac unrhyw oblygiadau o ran costau (os oes rhai).

24.17 Yn amodol ar Reol Sefydlog 24.18, rhaid ymdrin â diwygiadau yn nhrefn eu perthynas â'r testun.

24.18 Caiff y Llywydd, gan roi sylw i unrhyw ganllawiau y gall y Cynulliad eu mabwysiadu, wneud y canlynol:

(i) casglu diwygiadau cysylltiedig ynghyd, a mynnu eu bod yn cael eu cynnig fel grŵp;

(ii) penderfynu ym mha drefn y dylid ymdrin â diwygiadau sy'n codi yn yr un lle yn y Gorchymyn drafft; a

(iii) gwrthod dewis diwygiad ar gyfer dadl pan fydd y Llywydd o'r farn bod y dull priodol o gynnal busnes y Cynulliad yn ei gwneud yn briodol gwrthod.

24.19 Pan elwir diwygiad, neu pan fo diwygiadau wedi'u casglu ynghyd, caiff y Llywydd alw ar Aelodau yn ôl ei ewyllys cyn bod y Gweinidog yn ymateb i'r ddadl a bod pleidlais yn cael ei chymryd.

24.20 Pan nad yw Gorchymyn drafft wedi'i ddiwygio yn unol â Rheol Sefydlog 24.18 caiff Gweinidog gynnig bod y Cynulliad yn cymeradwyo'r gorchymyn drafft. Ni chaniateir cynnig unrhyw welliant i gynnig o'r fath, y bydd y Llywydd yn cynnal pleidlais arno ar unwaith.

24.21 Os cytunwyd ar unrhyw ddiwygiad i Orchymyn drafft, rhaid i'r Gweinidog (oni bai ei fod ef neu ei bod hi yn penderfynu peidio â bwrw ymlaen â'r Gorchymyn) baratoi Gorchymyn drafft diwygiedig sy'n cymryd i ystyriaeth y diwygiadau y cytunwyd arnynt gan y Cynulliad.

24.22 Rhaid i'r Gweinidog, wrth baratoi'r Gorchymyn drafft diwygiedig, ystyried a oes angen arfarniad rheoliadol, neu arfarniad rheoliadol pellach, arno; ac os oes angen arfarniad, bydd gofynion Rheolau Sefydlog 24.3 a 24.5 yn gymwys.

24.23 Rhaid i'r Gorchymyn drafft fel y'i diwygiwyd gael ei osod gerbron y Cynulliad, ynghyd ag unrhyw arfarniad rheoliadol, a'i gyflwyno i'r Pwyllgor Deddfau, a fydd yn gweithredu yn unol â Rheol Sefydlog 24.10, ac eithrio bod darpariaethau Rheol Sefydlog 11.8 (dirprwyo swyddogaethau'r Pwyllgor Deddfau) yn gymwys.

24.24 Bydd Rheolau Sefydlog 24.11 a 24.15 i 24.23 yn gymwys i unrhyw Orchymyn drafft diwygiedig (gan gynnwys Gorchymyn drafft sydd wedi'i ddiwygio fwy nag unwaith) a osodir gerbron y Cynulliad, gyda'r eithriadau canlynol:

(i) bod rhaid barnu bod egwyddor y Gorchymyn wedi'i chytuno; a

(ii) bod rhaid barnu bod unrhyw argymhelliad a wnaed o'r blaen gan Gabinet y Cynulliad o dan Reol Sefydlog 24.11 yn ymestyn i'r Gorchymyn drafft diwygiedig oni allai'r diwygiadau arwain at godiad mewn unrhyw symiau sy'n daladwy gan y Cynulliad (ac os felly bydd angen argymhelliad newydd); a

(iii) na fydd yr un diwygiad yn ddilys oni bai ei fod yn ymwneud ag unrhyw ran o'r Gorchymyn drafft diwygiedig sydd wedi ei diwygio ers i'r Gorchymyn fod gerbron y Cynulliad ddiwethaf.

24.25 (i) Caiff Gweinidog, o leiaf bum diwrnod gwaith cyn ei fod i gael ei ystyried, osod cynnig bod un neu ragor o Orchmynion drafft (a bennir yn y cynnig) yn cael eu cymeradwyo yn unol â Rheol Sefydlog 24.25(iii) isod. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheol Sefydlog 24.25 (ii) isod, ni fydd Rheolau Sefydlog 24.14 i 24.24 yn gymwys i unrhyw Orchymyn drafft a bennir yn y cynnig. Pan fydd cynnig o'r fath yn ymwneud â mwy nag un Gorchymyn drafft, rhaid iddo gynnig eu bod yn cael eu cymeradwyo gyda'i gilydd.

(ii) Caiff o leiaf dri Aelod, o leiaf dri diwrnod gwaith cyn bod y cynnig i fod i gael ei ystyried, gyflwyno hysbysiad yn ei gwneud yn ofynnol bod y Gorchymyn drafft, neu'r Gorchmynion drafft , os oes mwy nag un, yn cael eu hystyried ar wahân. Pan fydd hysbysiad o'r fath wedi'i gyflwyno, rhaid ystyried unrhyw Orchymyn drafft y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef yn unol â Rheolau Sefydlog 24.14 i 24.24.

(iii) Pan nad oes hysbysiad o'r fath wedi'i gyflwyno neu nad yw'r hysbysiad yn ymwneud â'r cyfan o'r Gorchmynion drafft a bennir yn y cynnig, rhaid pleidleisio ar y cynnig ar unwaith heb ddadl a bydd cymeradwyo'r cynnig yn cael yr effaith o gymeradwyo'r Gorchmynion drafft a bennir yn y cynnig ac eithrio unrhyw un y mae'r hysbysiad hwnnw yn ymwneud ag ef.

24.26 (i) Pan fydd Gorchymyn drafft wedi'i gymeradwyo drwy benderfyniad gan y Cynulliad, rhaid ei wneud drwy ei lofnodi.

(ii) Pan fydd Cabinet y Cynulliad wedi penderfynu o dan Reol Sefydlog 24.27 y dylid datgymhwyso'r gofyniad bod Gorchymyn drafft yn cael ei osod gerbron y Cynulliad a'i gymeradwyo drwy benderfyniad gan y Cynulliad, rhaid llofnodi Gorchymyn drafft pan fydd wedi cwblhau yn llwyddiannus unrhyw weithdrefnau sy'n ofynnol o dan y Rheol

Sefydlog hon ac sydd heb eu datgymhwyso o dan Reol Sefydlog 24.27.

(iii) Y personau sydd ag awdurdod i lofnodi Gorchymyn drafft a wneir o dan y Rheol Sefydlog hon yw'r Llywydd, y Dirprwy, Prif Weinidog Cymru ac unrhyw Weinidog arall ond ni chaiff neb ond y Llywydd lofnodi Gorchymyn oni bai bod y Llywydd yn absennol. Yn absenoldeb y Llywydd caiff Gorchymyn ei lofnodi gan y Dirprwy. Yn absenoldeb y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd rhaid i Brif Weinidog Cymru neu, yn absenoldeb Prif Weinidog Cymru, unrhyw Weinidog arall, lofnodi Gorchymyn. Ni fydd y ffaith nad y person awdurdodedig a lofnododd Orchymyn yn absenoldeb y Llywydd oedd y person mwyaf priodol i wneud hynny o dan ddarpariaethau'r Rheol Sefydlog hon yn effeithio ar ddilysrwydd gwneud y Gorchymyn.

**Datgymhwyso Gofynion Trefniadol (Y Weithdrefn Weithredol)**

24.27 Caiff Cabinet y Cynulliad benderfynu, o dan yr amgylchiadau penodol, ac mewn perthynas ag un neu ragor o Orchmynion, nad yw'n rhesymol ymarferol:

(i) i'r Gweinidog gydymffurfio â'r gofyniad ynghylch hysbysu yn Rheol Sefydlog 24.2 neu'r gofyniad ynghylch ymgynghori yn Rheol Sefydlog 24.3;

(ii) i'r Gweinidog gydymffurfio â'r gofyniad yn Rheol Sefydlog 24.6 ynghylch cyflwyno Gorchymyn drafft i'r Pwyllgor Busnes;

(iii) i'r Cynulliad ystyried adroddiad gan y Pwyllgor Deddfau mewn perthynas â'r Gorchymyn, neu unrhyw arfarniad rheoliadol mewn perthynas ag ef; neu

(iv) i Orchymyn drafft gael ei osod gerbron y Cynulliad a'i gymeradwyo drwy benderfyniad gan y Cynulliad.

24.28 Pryd bynnag y bydd Cabinet y Cynulliad yn penderfynu nad yw'n rhesymol ymarferol i'r Cynulliad ystyried adroddiad gan y Pwyllgor Deddfau mewn perthynas â Gorchymyn, rhaid i'r Gweinidog perthnasol ei gyflwyno i'r Pwyllgor Deddfau cyn gynted ag y bo modd ar ôl i'r Gorchymyn gael ei wneud; a rhaid i'r Pwyllgor hwnnw ystyried y Gorchymyn a rhoi adroddiad i'r Cynulliad arno yn unol â Rheol Sefydlog 11.

24.29 Pryd bynnag y bydd Cabinet y Cynulliad wedi penderfynu nad yw'n rhesymol ymarferol i Orchymyn drafft gael ei osod gerbron a'i gymeradwyo drwy benderfyniad gan y Cynulliad, rhaid iddo roi gwybod i Aelodau'r Cynulliad cyn diwedd y diwrnod gwaith nesaf ar ôl iddo gael ei wneud. Caiff Aelod, o fewn y cyfnod o ddeugain diwrnod gwaith yn dechrau ar y diwrnod y gwneir y Gorchymyn, gyflwyno cynnig i'r Gorchymyn gael ei ddirymu.

24.30 Rhaid i gynnig a gyflwynir o dan Reol Sefydlog 24.29 gael ei amserlennu o dan Reol Sefydlog 5 i gael ei ystyried gan y Cynulliad o fewn y cyfnod o ddeugain diwrnod gwaith y cyfeirir ato yn Rheol Sefydlog 24.29 honno; ac eithrio os nad oes modd bodloni darpariaethau Rheol Sefydlog 5 o fewn y cyfnod hwnnw am nad yw'r Cynulliad wedi'i amserlennu i gyfarfod, rhaid i Brif Weinidog Cymru wneud cais i'r Llywydd wysio'r Cynulliad i ystyried y cynnig ar ddiwrnod o fewn y cyfnod hwnnw, a rhaid i'r Llywydd gydymffurfio â'r cais hwnnw.

24.31 Os yw’r Cynulliad wedi penderfynu felly, mae’r penderfyniad yn cyflawni’r dirymiad. Caiff Gweinidog baratoi Gorchymyn drafft sy’n gwneud darpariaeth o ganlyniad i’r cyfryw ddirymiad, a bydd darpariaethau’r Rheol Sefydlog hon yn gymwys ar gyfer gwneud y Gorchymyn hwnnw.

## RHEOL SEFYDLOG 25 Is-ddeddfwriaeth sy’n amodol ar Ddarpariaeth Weithdrefnol Seneddol berthnasol neu a wneir gydag un o Weinidogion y Goron neu Adrannau Llywodraeth y DU neu sydd yn amodol ar Gymeradwyaeth un ohonynt.

### Adran 1: IS-DDEDDFWRIAETH SY’N AMODOL AR DDARPARIAETH WEITHDREFNOL SENEDDOL BERTHNASOL

25.1 Mae Adran 1 o Reol Sefydlog 23 yn gymwys i is-ddeddfwriaeth y Cynulliad sy’n cael ei gwneud gan y Cynulliad ar ei ben ei hun ac sy’n amodol ar ddarpariaeth weithdrefnol Seneddol berthnasol fel y’i diffinnir yn Adran 44(3) o’r Ddeddf a hynny p’un a yw’r gofyniad yn cael ei osod gan Adran 44(4) o’r Ddeddf neu gan unrhyw ddarpariaeth statudol arall.

25.2 Rhaid i gynnig ar gyfer is-ddeddfwriaeth y mae’r adran hon yn gymwys iddi gael ei baratoi gan Weinidog ar ffurf drafft; a bydd Rheolau Sefydlog 24.3 i 24.31 yn gymwys, ac eithrio bod rhaid peidio â gwneud y Gorchymyn, os yw Rheol Sefydlog 25.3 yn gymwys, hyd nes y cydymffurfir â gofynion eraill y Rheol Sefydlog honno.

25.3 Os yw’r ddarpariaeth weithdrefnol Seneddol berthnasol yn ei gwneud yn ofynnol bod y Gorchymyn drafft yn cael ei osod gerbron y Senedd neu gerbron y naill Dŷ neu’r llall yn y Senedd a’i fod yn agored i gael ei ddiddymu, ei gymeradwyo neu ei gadarnhau gan y Senedd neu gan y naill Dŷ neu’r llall yn y Senedd cyn y gall gael ei wneud. Rhaid i’r Gweinidog perthnasol anfon y drafft at Ysgrifennydd Gwladol Cymru i gael ei osod gerbron y Senedd a rhaid i’r is-ddeddfwriaeth gael ei gwneud o dan Reol Sefydlog 24.26 ond ar ôl i’r Cynulliad gael ei hysbysu gan yr Ysgrifennydd Gwladol y cydymffurfiwyd yn llwyddiannus ag unrhyw ddarpariaeth weithdrefnol Seneddol berthnasol.

25.4 Os yw’r Gorchymyn drafft yn amodol ar ddarpariaeth weithdrefnol Seneddol berthnasol nad yw’n atal y Gorchymyn rhag cael ei wneud cyn iddo gael ei osod gerbron y Senedd, rhaid gwneud y Gorchymyn o dan Reol Sefydlog 22.26 ond yna rhaid i’r Gweinidog perthnasol anfon y Gorchymyn at yr Ysgrifennydd Gwladol i gael ei osod gerbron y Senedd.

25.5 Os yw canlyniad gweithdrefn Seneddol berthnasol yn golygu na all Gorchymyn drafft gael ei wneud, neu fod Gorchymyn sydd wedi’i wneud wedi’i ddiddymu neu na all ddod i rym, rhaid i’r Gweinidog perthnasol osod adroddiad gerbron y Cynulliad cyn gynted â phosibl yn hysbysu’r Cynulliad am y ffaith honno ac yn datgan pa gamau y mae’r Gweinidog yn bwriadu eu cymryd o ganlyniad i hynny, os yw’n bwriadu cymryd camau o gwbl.

### Adran 2: IS-DDEDDFWRIAETH SY’N AMODOL AR GYDSYNIAD UN O WEINIDOGION Y GORON NEU ADRANNAU LLYWODRAETH Y DU

25.6 Mae Adran 2 o Reol Sefydlog 25 yn gymwys i is-ddeddfwriaeth sy’n cael ei gwneud gan y Cynulliad ar ei ben ei hun (h.y. nid ar y cyd ag un o Weinidogion y Goron neu Adrannau Llywodraeth y DU) ond na all gael ei gwneud, neu na all ddod i rym, ond gyda chydsyniad un o Weinidogion y Goron neu Adrannau Llywodraeth y DU.

25.7 Rhaid bod cynnig ar gyfer is-ddeddfwriaeth y mae'r adran hon yn gymwys iddi yn cael ei baratoi gan Weinidog ar ffurf drafft a bydd Rheolau Sefydlog 24.3 i 24.31 yn gymwys ac eithrio bod rhaid peidio â gwneud y Gorchymyn o dan Reol Sefydlog 24.26, os na ellir ei wneud heb gydsyniad un o Weinidogion y Goron neu Adrannau Llywodraeth y DU, nes bod y Gweinidog perthnasol wedi rhoi gwybod i'r Llywydd neu i berson arall a awdurdodwyd i wneud y Gorchymyn o dan y Rheol Sefydlog honno fod y cydsyniad perthnasol wedi'i roi.

25.8 Os caniateir i Orchymyn y mae'r adran hon yn gymwys iddo gael ei wneud ond na all ddod i rym heb gydsyniad un o Weinidogion y Goron neu Adrannau Llywodraeth y DU, rhaid i'r Gweinidog perthnasol gymryd camau, ar ôl i'r Gorchymyn gael ei wneud, i sicrhau'r cydsyniad hwnnw.

25.9 Os na chaniateir i Orchymyn drafft y mae'r adran hon yn gymwys iddo gael ei wneud neu os oes Gorchymyn o'r fath wedi'i wneud ond na all ddod i rym am fod y cydsyniad angenrheidiol wedi'i ddal yn ôl, rhaid i'r Gweinidog perthnasol osod adroddiad gerbron y Cynulliad cyn gynted â phosibl yn hysbysu'r Cynulliad am y ffaith honno ac yn datgan pa gamau y mae'r Gweinidog yn bwriadu eu cymryd o ganlyniad i hynny, os yw'n bwriadu cymryd camau o gwbl.

25.10 Os yw is-ddeddfwriaeth y mae'r adran hon yn gymwys iddi hefyd yn perthyn o fewn adran 1 o'r Rheol Sefydlog hon, rhaid i'r Gweinidog gymryd camau i sicrhau'r cydsyniad y cyfeirir ato yn naill ai Rheol Sefydlog 25.7 neu 25.8 cyn anfon y Gorchymyn drafft neu'r Gorchymyn at yr Ysgrifennydd Gwladol i gael ei osod gerbron y Senedd o dan Reol Sefydlog 25.3 neu 25.4 yn ôl fel y digwydd.

**Adran 3: IS-DDEDDFWRIAETH SY'N CAEL EI GWNEUD (AR Y CYD NEU BEIDIO) YNGHYD AG UN O WEINIDOGION Y GORON NEU ADRANNAU LLYWODRAETH Y DU, GWEITHREDIAETH YR ALBAN NEU WEITHREDIAETH GOGLEDD IWERDDON**

25.11 Mae adran 3 o Reol Sefydlog 25 yn gymwys i is-ddeddfwriaeth y Cynulliad, nad yw'n is-ddeddfwriaeth gyffredinol y Cynulliad, ac sy'n cael ei gwneud gan y Cynulliad, p'un ai ar y cyd neu beidio, ag un o Weinidogion y DU neu un o Adrannau Llywodraeth y DU, Gweithrediaeth yr Alban neu Weithrediaeth Gogledd Iwerddon.

25.12 Rhaid i Weinidog sy'n cynnig y dylai'r Cynulliad wneud is-ddeddfwriaeth y mae'r adran hon yn gymwys iddi osod drafft gerbron y Cynulliad ynghyd â memorandwm sy'n esbonio ei heffaith arfaethedig ac unrhyw oblygiadau ariannol.

25.13 Ar sail cynnig gan y Gweinidog fod y Cynulliad yn cymeradwyo'r is-ddeddfwriaeth ddrafft, rhaid i'r Cynulliad ystyried y cwestiwn hwnnw ond ni chaniateir cyflwyno unrhyw ddiwygiad i'r drafft. Os caiff yr is-ddeddfwriaeth ddrafft ei chymeradwyo drwy benderfyniad, rhaid i'r Gweinidog perthnasol roi gwybod i'r Gweinidog y Goron neu'r Adran neu'r Weithrediaeth berthnasol am benderfyniad y Cynulliad, a rhaid i'r Gorchymyn gael ei wneud ar ran y Cynulliad yn unol â Rheol Sefydlog 24.26. Os na chaiff yr is-ddeddfwriaeth ddrafft ei chymeradwyo, rhaid i'r Gweinidog perthnasol roi gwybod am benderfyniad y Cynulliad i'r Gweinidog y Goron neu'r Adran neu'r Weithrediaeth berthnasol.

25.14 Pan fyddai is-ddeddfwriaeth y mae'r adran hon yn gymwys iddi, os câi'r ddeddfwriaeth ei gwneud gan y Cynulliad yn unig, yn dod o fewn adran 1 neu adran 2 o'r Rheol Sefydlog hon, bydd darpariaethau'r adran honno neu'r adrannau hynny yn gymwys iddi hefyd ac eithrio y bydd y cyfeiriad yn Rheolau Sefydlog 25.2 a 25.7 at ddarpariaethau Rheolau Sefydlog 24.3 i 24.31 yn cael eu disodli gan gyfeiriadau at Reolau Sefydlog 25.11 i 25.14.

**Cyfieithu i'r Gymraeg**

25.15 Rhaid i'r Gweinidog priodol drefnu bod yr is-ddeddfwriaeth sy'n cael ei gwneud o dan bob adran o Reol Sefydlog 25 yn cael ei chyfieithu i'r Gymraeg, a bod y cyfieithiad yn cael ei gyhoeddi er gwybodaeth i'r cyhoedd, onid yw'n credu y byddai hynny'n amhriodol o dan yr amgylchiadau neu heb fod yn rhesymol ymarferol.

25.16. Rhaid peidio â dehongli dim yn y Rheol Sefydlog hon, mewn perthynas ag is-ddeddfwriaeth sy'n is-ddeddfwriaeth gyffredinol y Cynulliad, fel ei fod yn drech na chymhwysiad Rheol Sefydlog 24 i ddeddfwriaeth o'r fath.

## RHEOL SEFYDLOG 26 – Cadarnhau neu Gymeradwyo Gorchmynion y Cyfrin Gyngor neu Is-ddeddfwriaeth a gyflwynir gan un o Weinidogion y Goron

26.1 Mae'r Rheol Sefydlog hon yn gymwys pan roddir pŵer i'r Cynulliad gan adran 22(4)(b) o'r Ddeddf i gymeradwyo drafft o Orchymyn gan y Cyfrin Gyngor yn amrywio neu'n dirymu Gorchymyn blaenorol gan y Cyfrin Gyngor sy'n trosglwyddo swyddogaethau Gweinidog i'r Cynulliad neu pan roddir pŵer fel arall i'r Cynulliad gan neu o dan Ddeddf Seneddol i gadarnhau, i gymeradwyo neu i gydsynio i is-ddeddfwriaeth a gyflwynir i'r Cynulliad gan un o Weinidogion y Goron.

26.2 Pan fydd Gweinidog yn cael is-ddeddfwriaeth y mae'r adran hon yn gymwys iddi oddi wrth un o Weinidogion y Goron, rhaid iddo ef neu iddi hi osod yr is-ddeddfwriaeth gerbron y Cynulliad ynghyd â memorandwm yn esbonio'i heffaith arfaethedig ac unrhyw oblygiadau ariannol.

26.3 Ar sail cynnig gan y Gweinidog fod y Cynulliad yn cadarnhau neu yn cymeradwyo neu'n rhoi cydsyniad i is-ddeddfwriaeth o'r fath, neu ei fod yn gwrthod gwneud hynny, rhaid i'r Cynulliad ystyried y cwestiwn ond ni ellir cyflwyno diwygiad i'r is-ddeddfwriaeth. Rhaid i'r Gweinidog roi gwybod am benderfyniad y Cynulliad i'r Gweinidog y Goron.

## RHEOL SEFYDLOG 27 - Is-ddeddfwriaeth sydd fel arall yn amodol ar Drefn Seneddol Arbennig

27.1 Mae'r Rheol Sefydlog hon yn gymwys pan fydd y Cynulliad yn arfer pwerau i wneud neu i gadarnhau is-ddeddfwriaeth a fyddai'n destun trefn Seneddol arbennig, oni bai am ddarpariaethau'r Ddeddf.

27.2 Pan fyddai is-ddeddfwriaeth yn destun trefn seneddol arbennig, oni bai am ddarpariaethau'r Ddeddf, rhaid peidio â'i gwneud na'i chadarnhau oni bai bod Gweinidog wedi gosod drafft gerbron y Cynulliad ac wedi rhoi hysbysiad cyhoeddus ynghylch hawl personau i gyflwyno deisebau i'r Cynulliad yn erbyn ei gwneud neu dros ei chadarnhau.

27.3 Rhaid i'r hysbysiad gael ei gyhoeddi o leiaf unwaith mewn o leiaf un papur newydd sy'n cylchredeg yn yr ardal y mae'r is-ddeddfwriaeth yn gysylltiedig â hi. Rhaid i'r hysbysiad ddatgan y canlynol:

(i) effaith gyffredinol yr is-ddeddfwriaeth a ble y mae modd ei harchwilio, yn y Cynulliad ac mewn man yn yr ardal y mae'n gysylltiedig â hi;

(ii) y ceir cyflwyno deisebau i'r Llywydd yn erbyn yr is-ddeddfwriaeth o fewn y cyfnod o ugain diwrnod gwaith sy'n dechrau ar y diwrnod y cyhoeddir yr hysbysiad gyntaf mewn papur newydd;

(iii) y caiff deisebau naill ai ofyn i ddiwygiadau penodol gael eu gwneud i'r is-ddeddfwriaeth cyn iddi gael ei gwneud (gan bennu'r diwygiadau y gofynnir amdanynt), neu ofyn am beidio â'i gwneud; a

(iv) bod rhaid i'r prif ddeisebydd ystyried unrhyw ganllawiau a rheolau a gyhoeddir gan y Cynulliad ar y mater hwn.

27.4 Bydd y Llywydd yn gyfrifol am dderbyn deisebau. Os na dderbyniwyd unrhyw ddeiseb o fewn y cyfnod a nodir yn Rheol Sefydlog 27.3(ii), rhaid i'r Llywydd roi adroddiad o hynny i'r Cynulliad. O dderbyn adroddiad o'r fath, caiff y Cynulliad wneud neu gadarnhau'r is-ddeddfwriaeth. a rhaid iddo ef neu iddi hi roi gwybod i'r Cynulliad am eu cynnwys a nifer y llofnodion arnynt cyn gynted ag y bo modd ar ôl diwedd y cyfnod a bennir yn yr hysbysiad cyhoeddus.

27.5 Rhaid i'r Llywydd ystyried unrhyw ddeisebau sy'n dod i law a rhoi gwybod i'r Cynulliad am eu cynnwys a'r nifer o lofnodion mor fuan â phosib wedi diwedd y cyfnod a bennwyd yn yr hysbysiad cyhoeddus.

27.6 Os yw'r Llywydd yn credu nad yw unrhyw ddeisebau sy'n dod i law yn datgelu sail sylweddol ar gyfer gwrthwynebu'r is-ddeddfwriaeth, rhaid iddo ef neu iddi hi roi gwybod i'r deisebwyr yn unol â hynny a chaniatáu iddynt gyflwyno sylwadau. Os daw'r Llywydd, ar ôl ystyried unrhyw sylwadau, i'r casgliad bod deiseb yn datgelu sail sylweddol ar gyfer gwrthwynebu, rhaid i'r Llywydd ardystio i'r Cynulliad hysbysu'r deisebwyr yn unol â hynny; ond os daw'r Llywydd i'r casgliad nad yw'r deisebau yn datgelu'r cyfryw sail sylweddol ar gyfer gwrthwynebu, rhaid iddo ef neu hi roi adroddiad i'r Cynulliad yn unol â

hynny. Ar ôl cael adroddiad o'r fath, caiff y Cynulliad wneud neu gadarnhau'r is-ddeddfwriaeth yn unol â'r Rheolau Sefydlog.

27.7 Os bydd y Llywydd wedi'i fodloni bod deiseb yn datgelu sail sylweddol ar gyfer gwrthwynebu'r is-ddeddfwriaeth neu ran ohoni, rhaid iddo ef neu iddi hi ardystio i'r Cynulliad y dylai'r ddeiseb gael ei hystyried gan y Cynulliad a hysbysu'r deisebwyr yn unol â hynny. Mae gan ddeisebydd sail sylweddol ar gyfer gwrthwynebu os effeithir ar ei eiddo neu ei fuddiannau gan yr is-ddeddfwriaeth. Bydd gan gymdeithas amwynder neu gorff tebyg sy'n deisebu sail sylweddol ar gyfer gwrthwynebu os yw'r is-ddeddfwriaeth yn effeithio ar fuddiant a gynrychiolir ganddi.

27.8 Os yw'r Llywydd yn ardystio i'r Cynulliad y dylai deiseb gael ei hystyried gan y Cynulliad a bod y ddeiseb yn gofyn i ddiwygiadau gael eu gwneud i'r is-ddeddfwriaeth, caiff y Llywydd benderfynu a yw'r diwygiadau y gofynnir amdanynt yn effeithio ar fuddiannau personau eraill. Mewn achos o'r fath, rhaid gwahodd gwrth-ddeisebau a bydd darpariaethau Rheolau Sefydlog 27.3 i 27.6 yn gymwys i wrth-ddeisebau o'r fath fel y maent yn gymwys i ddeisebau.

27.9 Pan fydd y Llywydd yn ardystio i'r Cynulliad y dylai deiseb gael ei hystyried gan y Cynulliad, rhaid i'r Cynulliad, ar sail cynnig a wneir gan Weinidog, ethol pwyllgor i ystyried y ddeiseb (ac unrhyw wrth-ddeisebau). Rhaid bod gan y pwyllgor o leiaf pump ac nid mwy na saith o aelodau a rhaid ei ethol mewn modd a fydd yn sicrhau, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, fod cydbwysedd y grwpiau gwleidyddol yn y Cynulliad yn cael ei adlewyrchu yn aelodaeth y pwyllgor.

27.10. Bydd gan y deisebydd, unrhyw wrth-ddeisebydd, ac unrhyw ymgeisydd am yr is-ddeddfwriaeth, hawl i gael gwrandawiad gerbron y pwyllgor naill ai yn bersonol, drwy gwnsler neu drwy asiant; a bydd gan Weinidog hawl i gael gwrandawiad personol.

27.11 Rhaid i'r pwyllgor roi adroddiad i'r Cynulliad gan ddweud naill ai na ddylai'r is-ddeddfwriaeth gael ei gwneud neu ei chadarnhau neu y dylai gael ei gwneud neu ei chadarnhau naill ai heb ei gwella neu gan gynnwys unrhyw ddiwygiadau y mae'r pwyllgor yn credu eu bod yn fuddiol er mwyn gweithredu unrhyw ddeiseb naill ai yn rhannol neu yn gyfan gwbl.

27.12 Pan fydd y pwyllgor yn rhoi adroddiad gan ddweud na ddylai is-ddeddfwriaeth gael ei gwneud neu ei chadarnhau, rhaid peidio â gwneud dim pellach yn ei chylch, ond caiff Gweinidog osod is-ddeddfwriaeth ddrafft newydd gerbron y Cynulliad.

27.13 Pan fydd y pwyllgor yn rhoi adroddiad gan ddweud y dylai is-ddeddfwriaeth gael ei gwneud neu ei chadarnhau heb ei gwella, caniateir ei gwneud neu ei chadarnhau drwy iddi gael ei llofnodi gan y Llywydd neu (yn absenoldeb y Llywydd gan y Dirprwy neu gan Weinidog). Pan fydd y pwyllgor yn rhoi adroddiad gan ddweud y dylai'r is-ddeddfwriaeth gael ei gwneud neu ei chadarnhau gyda diwygiadau, caniateir ei gwneud neu ei chadarnhau gyda'r diwygiadau hynny. Os yw'r Gweinidog yn credu ei bod yn anfuddiol ei gwneud neu ei chadarnhau fel yr arfaethir ei diwygio, naill ai gall gael ei thynnu yn ôl (heb ragfarnu'r hawl i osod is-ddeddfwriaeth newydd gerbron y Cynulliad) neu caiff y Gweinidog gyflwyno cynnig y dylai'r Cynulliad wneud neu gadarnhau yr is-ddeddfwriaeth heb y diwygiadau a argymhellwyd gan y pwyllgor.

## RHEOL SEFYDLOG 28 - Offerynnau Statudol Lleol

28.1 Mae'r Rheol Sefydlog hon yn gymwys i is-ddeddfwriaeth y Cynulliad sy'n cael ei gwneud drwy offeryn statudol lleol ei natur, os yw'n cael ei wneud ar y cyd â Gweinidog y Goron neu Adran Llywodraeth y D.U. ai peidio.

28.2 Rhaid i Weinidog sy'n bwriadu gwneud is-ddeddfwriaeth o dan y Rheol Sefydlog hon roi i'r Cynulliad o leiaf ddeg diwrnod gwaith o rybudd ynghylch y bwriad i wneud yr is-ddeddfwriaeth, oni bai ei fod ef neu ei bod hi yn credu nad yw'n rhesymol ymarferol gwneud hynny; a rhaid i'r cyfryw hysbysiad ddisgrifio cynnwys arfaethedig yr is-ddeddfwriaeth.

28.3 Rhaid i is-ddeddfwriaeth o dan y Rheol Sefydlog hon gael ei gwneud drwy gael ei llofnodi gan y Gweinidog a'i cynigiodd neu ar ran y Gweinidog hwnnw; ond os bydd o leiaf ddeg aelod, cyn pen pum diwrnod gwaith ar ôl i'r hysbysiad o dan Reol Sefydlog 28.2 gael ei roi, yn cyflwyno cynnig yn mynegi anfodlonrwydd ar y cynnig ac os bydd y Cynulliad wedyn yn penderfynu felly, rhaid peidio â gwneud yr is-ddeddfwriaeth a bydd Rheolau Sefydlog 24.6 i 24.25 yn gymwys ar gyfer ei gwneud.

28.4 Rhaid i Weinidog sy'n bwriadu gwneud is-ddeddfwriaeth o dan y Rheol Sefydlog hon ei pharatoi yn Gymraeg ac yn Saesneg oni bai ei fod neu ei bod yn credu y byddai'n amhriodol o dan yr amgylchiadau neu heb fod yn rhesymol ymarferol.

28.5 Rhaid i'r Gweinidogion roi adroddiadau o bryd i'w gilydd i'r Pwyllgorau Pwnc perthnasol ar yr is-ddeddfwriaeth sy'n cael ei gwneud o dan y Rheol Sefydlog hon.

## RHEOL SEFYDLOG 29 - Is-ddeddfwriaeth nad oes Angen ei Gwneud drwy Offeryn Statudol

29.1 Mae'r Rheol Sefydlog hon yn gymwys i is-ddeddfwriaeth y Cynulliad nad oes angen ei gwneud drwy offeryn statudol ac nad yw'n amodol ar weithdrefn Seneddol.

29.2 Pan fydd Gweinidog yn cynnig y dylai is-ddeddfwriaeth gael ei gwneud o dan y Rheol Sefydlog hon, rhaid ei pharatoi ar ffurf drafft. Rhaid i'r drafft gael ei baratoi yn Gymraeg ac yn Saesneg oni bai bod y Gweinidog yn credu y byddai hynny'n amhriodol o dan yr amgylchiadau neu heb fod yn rhesymol ymarferol.

29.3 Rhaid i'r Gweinidog bwyso a mesur a yw'r canlynol yn briodol, gan roi sylw i bwysigrwydd cyffredinol y drafft, a'i natur:

(i) bod y drafft yn cael ei ystyried gan Bwyllgor Pwnc; ac os felly rhaid iddo ef neu iddi hi osod y drafft gerbron y Pwyllgor a chynnig bod y Pwyllgor yn rhoi adroddiad arno ddim llai na dwy wythnos a chyn pen wyth wythnos;

(ii) bod y drafft yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Deddfau; ac os felly rhaid iddo ef neu iddi hi osod y drafft gerbron y Pwyllgor Deddfau i'w ystyried, ar ôl i'r drafft gael ei ystyried gan unrhyw Bwyllgor Pwnc;

(iii) bod y drafft yn cael ei drafod gan y Cynulliad mewn cyfarfod llawn; ac os felly rhaid iddo ef neu hi ar ôl i'r drafft gael ei ystyried gan Bwyllgor Pwnc neu'r Pwyllgor Deddfau, osod y drafft gerbron y Cynulliad ynghyd ag unrhyw adroddiadau a gyflwynwyd gan unrhyw Bwyllgor sy'n gysylltiedig ag ef; neu

(iv) na ddylid defnyddio'r un o'r gweithdrefnau hyn.

29.4 Pan osodir unrhyw is-ddeddfwriaeth ddrafft y mae'r Rheol Sefydlog hon yn gymwys iddi gerbron y Cynulliad o dan Reol Sefydlog 29.3(iii), bydd Rheolau Sefydlog 24.13 i 24.26 yn gymwys pan fydd y Cynulliad yn ei hystyried. Fel arall, rhaid i unrhyw is-ddeddfwriaeth ddrafft y mae'r Rheol Sefydlog hon yn gymwys iddi gael ei gwneud drwy gael ei llofnodi gan y Gweinidog a'i cynigiodd neu ar ran y Gweinidog hwnnw.

29.5. Pan fydd y Gweinidog yn credu, yn unol â Rheol Sefydlog 29.3(iv), na ddylai'r un o'r gweithdrefnau yn Rheol Sefydlog 29.3(i)-(iii) gael ei defnyddio, rhaid iddo ef neu iddi hi, oni bai ei fod ef neu ei bod hi yn credu nad yw'n rhesymol ymarferol i wneud hynny, roi i'r Cynulliad o leiaf deg diwrnod gwaith o rybudd ynghylch y bwriad i wneud yr is-ddeddfwriaeth, a disgrifio ei chynnwys arfaethedig. Os bydd o leiaf deg aelod, cyn pen pum diwrnod gwaith ar ôl i'r rhybudd gael ei roi, yn cyflwyno cynnig yn mynegi anfodlonrwydd ar y cynnig ac os bydd y Cynulliad wedyn yn penderfynu felly, bydd Rheolau Sefydlog 24.6 i 24.26 yn gymwys ar gyfer ei gwneud.

29.6 Rhaid i'r Gweinidogion roi adroddiadau o bryd i'w gilydd i'r Pwyllgorau Pwnc perthnasol ar yr is-ddeddfwriaeth sy'n cael ei gwneud o dan y Rheol Sefydlog hon.

## RHEOL SEFYDLOG 30 - Cadarnhau neu Gymeradwyo Is-ddeddfwriaeth penodol

30.1 Mae Rheol Sefydlog 30 yn gymwys pan roddir pŵer i'r Cynulliad gan neu o dan Ddeddf Seneddol i gadarnhau neu i gymeradwyo is-ddeddfwriaeth a gyflwynir i'r Cynulliad gan gyrff statudol eraill neu gan awdurdodau lleol. Nid yw Rheol Sefydlog 30 yn cynnwys is-ddeddfwriaeth sy'n cael ei gwneud drwy Orchymyn y Cyfrin Gyngor neu gan Weinidogion y Goron ac sy'n cynnwys darpariaethau ynghylch y Cynulliad.

30.2 Caiff Gweinidog, neu aelod o staff y Cynulliad a awdurdodwyd i weithredu fel hyn ar ran y Gweinidog, gadarnhau neu gymeradwyo unrhyw is-ddeddfwriaeth a gyflwynir gan gorff cyhoeddus (gan gynnwys awdurdod lleol) i'r Cynulliad at y diben hwnnw, a rhaid iddo ef neu iddi hi wneud hynny mewn ysgrifen; ond rhaid iddo ef neu iddi hi, oni bai nad yw'n rhesymol ymarferol gwneud hynny, roi o leiaf deg diwrnod gwaith o rybudd i'r Cynulliad ynghylch y bwriad i'w chadarnhau neu ei chymeradwyo.

30.3 Os bydd o leiaf deg Aelod, cyn pen pum diwrnod gwaith ar ôl i'r rhybudd o dan Reol Sefydlog 30.2 gael ei roi, yn cyflwyno cynnig sy'n mynegi anfodlonrwydd ynghylch yr is-ddeddfwriaeth a gyflwynwyd i'w chadarnhau neu ei chymeradwyo, rhaid i'r Gweinidog beidio â'i chadarnhau na'i chymeradwyo ond rhaid iddo ef neu iddi hi gyflwyno cynnig bod y Cynulliad yn ei chadarnhau neu ei chymeradwyo (yn ôl fel y digwydd); a rhaid peidio â chynnig gwelliant i gynnig a gyflwynir o dan y Rheol Sefydlog hon.

30.4 Mewn unrhyw achos y mae paragraff 2(5) o Atodlen 7 i'r Ddeddf yn gymwys iddo (is-ddeddfwriaeth a wneir gan y Comisiynwyr Coedwigaeth heb gymeradwyaeth ymlaen llaw gan y Cynulliad), rhaid i'r Gweinidog perthnasol osod yr is-ddeddfwriaeth gerbron y Cynulliad, a chaiff Aelod gyflwyno cynnig yn unol â pharagraff 2(5)(b) o'r ddarpariaeth honno i'w dirymu.

## RHEOL SEFYDLOG 31 - Cynigion a Wneir gan Aelodau o'r Cynulliad ar gyfer Is-ddeddfwriaeth

31.1 Rhaid i'r Llywydd o bryd i'w gilydd gynnal pleidlais gyfrinachol i benderfynu enw Aelod, heblaw Gweinidog, a gaiff gyflwyno cynnig o dan y Rheol Sefydlog hon. Rhaid i'r Llywydd gynnwys yn y bleidlais gyfrinachol enwau'r holl Aelodau hynny sydd wedi gwneud cais am gael eu cynnwys.

31.2 Rhaid i gynnig o dan y Rheol Sefydlog hon fod ar ffurf cyfarwyddyd gan y Cynulliad i Weinidog ddod ag is-ddeddfwriaeth ddrafft yn ei blaen. Rhaid trefnu bod amser ar gael i'r cynnig gael ei drafod o fewn 20 diwrnod gwaith o ddyddiad ei gyflwyno (heb gyfrif diwrnodau gwaith mewn wythnos pan na fydd unrhyw gyfarfod llawn o'r Cynulliad.

Rhaid i gynnig o'r fath wneud y canlynol:

> (i) enwi'r pwerau cyfreithiol y gallai'r is-ddeddfwriaeth arfaethedig gael ei gwneud o danynt;
>
> (ii) pennu'r amcanion sydd i'w cyflawni drwy'r is-ddeddfwriaeth arfaethedig; a
>
> (iii) dod gydag asesiad goblygiadau, gan gynnwys gostau a manteision gwneud yr is-ddeddfwriaeth y mae'n rhaid ei chyflwyno ddim llai na 5 diwrnod gwaith cyn i'r cynnig gael ei ystyried.

31.3 Os yw'r Cynulliad yn penderfynu cyfarwyddo Gweinidog drwy gynnig a gyflwynir o dan Reol Sefydlog 31.2, rhaid i'r Gweinidog hwnnw, cyn gynted ag y bo modd, baratoi Gorchymyn drafft (neu offeryn arall), a rhaid dilyn y weithdrefn sy'n briodol o dan Reolau Sefydlog 24, 25, 27, 28 neu 29 (yn ôl fel y digwydd) ar gyfer gwneud yr is-ddeddfwriaeth honno.

## RHEOL SEFYDLOG 32 - Cyhoeddi Is-ddeddfwriaeth (heblaw Is-ddeddfwriaeth Gyffredinol y Cynulliad)

32.1 Rhaid i’r Cynulliad, cyn gynted ag y bo modd, gyhoeddi unrhyw is-ddeddfwriaeth a wneir neu a gadarnheir gan y Cynulliad nad yw fel arall yn cael ei chyhoeddi i’w gwerthu o dan Ddeddf Offerynnau Statudol 1946  Rhaid i is-ddeddfwriaeth a wneir gan y Cynulliad, ac nad yw'n ofynnol ei gwneud drwy offeryn statudol, gael ei gwneud ar y ffurf a bennir gan y Llywydd.

## RHEOL SEFYDLOG 33 - Gweithdrefnau Amrywiol

### Y Drefn ar gyfer Cychwyn Polau

33.1 Caiff Gweinidog, neu o leiaf dri Aelod, gyflwyno cynnig ar gyfer cynnal pôl yn unol ag adran 36 o'r Ddeddf.

33.2 Rhaid i unrhyw gynnig o'r fath gynnwys geiriad unrhyw gwestiynau neu gynigion sydd i'w rhoi gerbron y rhai a fydd yn destun y pôl. Rhaid i asesiad o gostau, manteision a goblygiadau eraill cynnal y pôl gael ei gyflwyno o leiaf bum diwrnod gwaith cyn bod y cynnig i fod i gael ei ystyried..

33.3 Os bydd y Cynulliad yn penderfynu cytuno y dylid cynnal pôl, rhaid i'r Gweinidog perthnasol baratoi drafft o Orchymyn sy'n gwneud darpariaeth ynglŷn â chynnal unrhyw bôl y mae'r cynnig yn ymwneud ag ef, a bydd darpariaethau Rheol Sefydlog 24 yn gymwys i wneud y Gorchymyn hwnnw.

### Y Drefn ar gyfer Cychwyn Ymchwiliad Cyhoeddus

33.4 Caiff Gweinidog, neu o leiaf dri Aelod, gyflwyno cynnig ar gyfer cynnal ymchwiliad yn unol ag adran 35(1) o'r Ddeddf. Rhaid i asesiad o gostau, manteision a goblygiadau eraill cynnal yr ymchwiliad gael ei gyflwyno o leiaf bum diwrnod gwaith cyn bod y cynnig i fod i gael ei ystyried.

33.5 Os bydd y Cynulliad yn penderfynu y dylid cynnal ymchwiliad, rhaid i'r Gweinidog perthnasol wneud trefniadau priodol. Rhaid i'r Gweinidog roi unrhyw adroddiad sy'n deillio o'r ymchwiliad gerbron y Cynulliad, a threfnu iddo gael ei gyhoeddi.

### Y Drefn ar gyfer Hyrwyddo neu Wrthwynebu Mesurau Preifat

33.6 Caiff Gweinidog, neu o leiaf dri Aelod, gyflwyno cynnig y dylai'r Cynulliad hyrwyddo neu wrthwynebu Mesur preifat yn y Senedd. Rhaid i asesiad o gostau, manteision a goblygiadau eraill hybu neu wrthwynebu'r Mesur gael ei gyflwyno o leiaf bum diwrnod gwaith cyn ystyried y cynnig.

33.7 Os bydd y Cynulliad yn penderfynu hyrwyddo neu wrthwynebu Mesur drwy bleidlais lle bydd o leiaf dwy ran o dair o'r Aelodau sy'n pleidleisio yn cefnogi'r cynnig, rhaid i'r Gweinidog perthnasol wneud trefniadau priodol ar gyfer hybu neu wrthwynebu'r Mesur fel y bo'r achos.

33.8 Rhaid i'r Gweinidog o bryd i'w gilydd roi adroddiad i'r Pwyllgor Pwnc perthnasol ynghylch hynt y Mesur, a chaiff y Cynulliad ar unrhyw adeg benderfynu rhoi terfyn ar hyrwyddo neu wrthwynebu Mesur.

### Gweithdrefnau ar gyfer cynnig Mesurau cyhoeddus a diwygiadau iddynt

33.9 Caiff Gweinidog, neu o leiaf dri Aelod, gyflwyno cynnig yn galw ar Lywodraeth y DU i ddwyn ymlaen Fesur cyhoeddus ar fater a bennir yn y cynnig, neu ddiwygiadau i Fesur penodol sydd gerbron y naill neu'r llall o ddau Dŷ'r Senedd ar y pryd. Rhaid i'r

cynnig ddisgrifio diben ac effaith y cynnig yn ddigon manwl i alluogi'r Mesur neu'r diwygiadau y gofynnir amdanynt i gael eu drafftio.

33.10 Rhaid i asesiad o gostau, manteision ac unrhyw oblygiad arall sydd i'r Mesur neu'r diwygiadau gael eu cyflwyno o leiaf bum diwrnod gwaith cyn ystyried cynnig o dan Reol Sefydlog 33.9.

33.11 Erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn fan hwyraf, bydd y Cynulliad yn ystyried cynnig o dan Reol Sefydlog 33.9 a fydd wedi'i gynnig gan Weinidog. Bydd y cynnig hwnnw yn cynnwys cynigion Cabinet y Cynulliad am ddeddfwriaeth sylfaenol mewn sesiwn ganlynol o Senedd y DU neu, os nad oes gan y Cabinet unrhyw gynigion o'r fath, bydd yn gwahodd y Cynulliad i nodi hynny.

33.12 Os bydd y Cynulliad yn cymeradwyo'r cynnig o dan Reolau Sefydlog 33.9 neu 33.11, rhaid i Brif Weinidog Cymru gyfleu ei gynnwys, mor fuan â phosibl, i Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Rhaid i Brif Weinidog Cymru neu Weinidog roi adroddiad i'r Cynulliad o bryd i'w gilydd ar ymateb Llywodraeth y DU i gynigion y Cynulliad ac ar hynt unrhyw Fesur neu ddiwygiadau a gynigiwyd gan y Cynulliad ac y mae Llywodraeth y DU wedi cytuno eu dwyn ymlaen.

33.13 Wrth gyflwyno, trafod a gweithredu yn sgil unrhyw gynnig a gyflwynir o dan Reol Sefydlog 33.9 neu 33.11, rhaid i’r Cynulliad a'i Aelodau roi sylw i unrhyw ganllawiau neu brotocol y bydd y Cynulliad yn eu mabwysiadu o bryd i'w gilydd ar gynigion ar gyfer Mesurau cyhoeddus.

33.14 Nid yw Rheolau Sefydlog 33.9 i 33.13 yn rhagfarnu hawl unrhyw Weinidog neu unrhyw Aelod i gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU neu i unrhyw Aelod Seneddol ar unrhyw adeg ar faterion sy'n ymwneud â deddfwriaeth sylfaenol.

## RHEOL SEFYDLOG 34 - Deisebau

34.1 Bydd y Llywydd yn gyfrifol am dderbyn deisebau a gyfeirir at y Cynulliad, a rhaid iddo ef neu iddi hi hysbysu'r Cynulliad cyn gynted ag y bo modd ynglŷn â'u cynnwys a nifer y llofnodion.

34.2 Caiff unrhyw Aelod gyflwyno cynnig sy'n cynnig bod y Cynulliad yn cynnal dadl ar gynnwys unrhyw ddeiseb a ddaeth i law'r Cynulliad. Yn amodol ar gytundeb y Cadeirydd, caniateir i unrhyw ddeiseb o'r fath gael ei hystyried hefyd gan unrhyw Bwyllgor priodol.

## RHEOL SEFYDLOG 35 - GWEITHDREFNAU HYSBYSU A CHYFLWYNO

35.1. Lle bydd y Rheolau Sefydlog hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Llywydd, Gweinidog, unrhyw Aelod arall neu unrhyw aelod o staff y Cynulliad gyflwyno neu osod unrhyw gynnig, cwestiwn, enwebiad neu ddogfen, neu'n awdurdodi hynny, rhaid cymryd y bydd trosglwyddo'r deunyddiau perthnasol i'r Swyddfa Gyflwyno drwy ddull electronig yn bodloni gofynion y Rheolau Sefydlog; ond ni fydd hyn yn gymwys i fynd â ffurflenni i'r Swyddfa Gyflwyno o dan Reolau Sefydlog 4.3 a 4.4.

35.2. Rhaid i'r Clerc wneud trefniadau priodol i alluogi Aelodau i hysbysu neu gyflwyno unrhyw ddeunyddiau y cyfeirir atynt yn Rheol Sefydlog 33.1 ar ffurf ysgrifenedig os bydd y systemau electronig yn methu. Rhaid iddo ef neu iddi hi sicrhau bod y cyfryw ddeunyddiau yn cael eu trosglwyddo yn briodol ar ffurf electronig cyn gynted ag y bo'r systemau perthnasol yn caniatáu hynny.

## Rheol Sefydlog 36 - Gosod Dogfennau

36.1 Rhaid gosod y dogfennau canlynol neu gategorïau o ddogfennau gerbron y Cynulliad:

(i) dogfen y mae statud yn pennu bod yn ofynnol iddi gael ei rhoi gerbron y Cynulliad neu ddogfen sydd yn dod o fewn telerau adran 45 o'r Ddeddf;

(ii) is-ddeddfwriaeth ddrafft y mae'n ofynnol iddi gael ei gosod yn unol â Rheolau Sefydlog 24, 25, 26, 27 a 29;

(iii) unrhyw adroddiad a wnaed gan Bwyllgor o'r Cynulliad y mae'r Pwyllgor wedi cytuno y dylid ei gyflwyno i'r Cynulliad, ac eithrio unrhyw adroddiad y mae iv. neu v. isod yn berthnasol iddo;

(iv) unrhyw adroddiad a bennir yn Rheol Sefydlog 6.6, ac eithrio unrhyw adroddiad y mae v. isod yn berthnasol iddo;

(v) unrhyw ddogfen arall a bennir mewn man arall yn y Rheolau Sefydlog y mae'n ofynnol iddi gael ei gosod yn unol â'r gofynion penodol mewn Rheol Sefydlog; ac

(vi) unrhyw ddogfen arall, neu gategori o ddogfen, y mae'r Cynulliad, yn dilyn penderfyniad a wnaed ganddo mewn Cyfarfod Llawn, yn ei gwneud yn ofynnol ei bod yn cael ei gosod.

36.2 Os bydd yn ofynnol bod dogfen yn cael ei gosod o dan y Rheol Sefydlog hon neu Reol Sefydlog arall, rhaid iddi gael ei darparu yn unol â chanllawiau a gyhoeddir gan y Llywydd ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor Busnes.

## RHEOL SEFYDLOG 37 - Diwygio ac Atal Rheolau Sefydlog

**Diwygiadau**

37.1 Caiff Prif Weinidog Cymru, y Trefnydd neu o leiaf chwe Aelod gyflwyno i'r Pwyllgor Busnes gynigion ar gyfer diwygio'r Rheolau Sefydlog. Rhaid i'r Pwyllgor ystyried y diwygiadau arfaethedig a chyflwyno adroddiad i'r Cynulliad gyda'i argymhellion.

37.2 Rhaid i gynigion ar gyfer diwygiadau i'r Rheolau Sefydlog gael eu cyflwyno a'u cynnig gan aelod o'r Pwyllgor Busnes (ond rhaid i'r diwygiadau hynny beidio â chael eu mabwysiadu oni fydd o leiaf ddwy ran o dair o'r Aelodau sy'n pleidleisio yn cefnogi'r cynnig.

37.3 Daw diwygiadau i'r Rheolau Sefydlog i rym ar unwaith oni fydd y Cynulliad yn penderfynu fel arall.

37.4. Caiff y Cynulliad ddarparu y bydd unrhyw Reol Sefydlog neu unrhyw ddiwygiad iddi yn un dros dro a phan fydd Rheol Sefydlog neu ddiwygiad iddi yn un dros dro, rhaid dweud pa mor hir yn union y bydd yn para mewn paragraff ar wahân o'r Rheol Sefydlog neu'r diwygiad.

**Atal**

37.5 Caniateir atal unrhyw Reol Sefydlog at ddiben penodol ac ar ddiwrnod neilltuol drwy gynnig a wneir gan Weinidog a gaiff ei gymeradwyo gan y Cynulliad drwy bleidlais lle mae o leiaf ddwy ran o dair o'r Aelodau yn pleidleisio o blaid y cynnig.

37.6 Fel rheol, rhaid i gynnig a wneir o dan Reol Sefydlog 37.5 gael ei gyflwyno o leiaf un diwrnod gwaith cyn iddo gael ei ystyried gan y Cynulliad, ond caiff y Llywydd ganiatáu gwneud cynnig o'r fath heb rybudd os bydd ef neu hi yn fodlon na fyddai gwneud hynny'n gamddefnydd o weithdrefnau'r Cynulliad nac yn amharu ar hawliau lleiafrifoedd yn y Cynulliad. Rhaid hysbysu Aelodau yn syth drwy ddull electronig cyn gynted ag y caiff y cyfryw gynnig ei osod.